



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Gwerthuso

Prosiectau Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru (2023–2025)

Cynnwys

[1 - Cyflwyniad](#)

[2 - Sefydliadau a ariannwyd](#)

[3 - Y broses gyllido](#)

[4 - Symiau cyllido](#)

[5 - Y broses hawlio](#)

[6 - Creu a chadw swyddi](#)

[7 - Sgiliau a ddatblygwyd drwy brosiectau](#)

[8 - Prentisiaethau a lleoliadau gwaith](#)

[9 - Beth weithiodd yn dda](#)

[10 - Beth wnaeth ddim gweithio cystal](#)

[11 - Gwersi a ddysgwyd](#)

[12 - Beth fyddai sefydliadau'n ei wneud yn wahanol wrth edrych yn ôl](#)

[13 - Cymuned Ymarfer Bwyd](#)

[14 - Arloesi, cydweithio ac adnoddau](#)

[15 - Effaith amgylcheddol](#)

[16 - A ellid ehangu'r prosiectau ac, os felly, sut?](#)

[17 - Edrych i'r dyfodol](#)

[18 - Dyfyniadau gan arweinwyr prosiectau](#)

[19 - Casgliad](#)

[Atodiad 1 - sefydliadau a chrynodebau o brosiectau](#)

[Atodiad 2 - crynodeb o ganlyniadau cadarnhaol ym maes Bwyd a Thai/Adeiladu](#)

[Atodiad 3 - Manylion y Prosiect a Chanlyniadau Cadarnhaol](#)

Gwerthuso Prosiectau'r Economi Sylfaenol (2023-2025)

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ac wedi cyflawni amrywiaeth eang o brosiectau ledled Cymru yn ystod 2023-2025, gyda'r nod o gryfhau sectorau allweddol yr Economi Sylfaenol (FoEc). Mae tîm FoEc wedi datblygu ac arwain ar gyfres o fentrau, gan gysylltu â swyddogion polisi perthnasol yn ôl yr angen, gan ganolbwyntio ar gryfhau cadwyni cyflenwi lleol ar y cyd, creu / diogelu swyddi, hyrwyddo gwaith teg, meithrin cydweithio a sbarduno arloesedd.

Mae'r term 'economi sylfaenol' yn cyfeirio at y sectorau o'r economi sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sy'n sail i fywyd bob dydd. Sectorau y mae gan Lywodraeth Cymru ffocws strategol arnynt yw gofal a gwasanaethau iechyd (gan gynnwys gofal cymdeithasol a gofal plant), rheoli tai cymdeithasol, adeiladu adeiladau preswyl a masnachol, ynni a chyfleustodau, bwyd, adwerthu a gwasanaethau ar y stryd fawr, twristiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r sectorau hyn yn cyfrif am 51% o weithwyr yng Nghymru, 47% o gyfanswm y trosiant a 60% o'r busnesau sydd â'u pencadlys yng Nghymru. Mae 65,000 o fusnesau (60% o'r holl fusnesau yng Nghymru) yn gweithredu yn yr Economi Sylfaenol.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio Ddatganiad Ysgrifenedig ym mis Ebrill 2025, yn cyhoeddi Datganiad Cenhadaeth newydd ar gyfer yr Economi Sylfaenol:

[Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Datganiad Cenhadaeth yr Economi Sylfaenol \(28 Ebrill 2025\) | LLYW.CYMRU](#)

Dyma amcanion yr Economi Sylfaenol rydym yn ceisio eu cefnogi drwy'r Genhadaeth:-

- Nodi a chefnogi cyfleoedd ar gyfer mwy o swyddi, swyddi gwell, swyddi gwyrddach a hyrwyddo gwaith teg, gan gynnwys cyflog da, cynrychiolaeth, diogelwch a chyfle i symud ymlaen.
- Cynyddu 'hyfywedd aelwydydd' drwy hwyluso cyflogau cynyddol drwy gynlluniau hyrwyddo fel Cyflog Byw Gwirioneddol, gan helpu i gynyddu fforddiadwyedd hanfodion sylfaenol i gefnogi mynediad cyffredinol at nwyddau a gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Adeiladu cadwyni cyflenwi lleol i gadw pobl, sgiliau a chyfoeth yng Nghymru.
- Cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.
- Annog arloesi ac arbrofi cydweithredol i wella nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, yn enwedig lle mae'r rhain yn adeiladu seilwaith cymdeithasol cadarn, megis drwy brosiectau cydweithredol a phrosiectau sy'n eiddo i'r gymuned.

Cafodd yr amcanion hyn eu gwreiddio ar draws holl brosiectau'r Economi Sylfaenol a gyflawnwyd.

Mae ymarfer gwerthuso wedi cael ei gynnal gan dîm yr Economi Sylfaenol yn Llywodraeth Cymru, ar gyfer prosiectau a ddarparwyd yn ystod 2023-2025 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau hynny, gan ddangos bod gwerth am arian ac enillion ar fuddsoddiad wedi cael eu cyflawni, gan fyfyrio ar effeithiolrwydd y prosiectau, yr hyn a weithiodd yn dda, yr hyn na weithiodd yn dda, unrhyw wersi a ddysgwyd, a thynnu sylw at ganlyniadau cadarnhaol y prosiectau.

2. Sefydliadau a ariannwyd

Cafodd 20 o sefydliadau eu hariannu yn ystod 2023/24 a 2024/25, gan gwmpasu amrywiaeth o fusnesau, Awdurdodau Lleol a'r byd academiaidd yng Nghymru (gweler Atodiad 1 am restr lawn o sefydliadau a chrynodebau o brosiectau).

3. Y broses gyllido

Cafodd y gyfran gyntaf o brosiectau yn 2023 eu cynnal o dan y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol (BLFF), a oedd yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ar y pryd, sef 'adeiladu ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Economi Sylfaenol a datblygu Cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol i gefnogi busnesau lleol'. Erbyn 2024-25, daeth y Gronfa i ben a pharhaodd rhai prosiectau o dan gyllid FoEc a chyllid Arloesi.

Cyhoeddwyd galwad agored am gynigion prosiect i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, busnesau a chwmnïau trydydd sector yn 2023, gan nodi'r meini prawf allweddol ar gyfer cefnogi amcanion FoEc yr oedd angen eu dangos. Llwyddodd 14 sefydliad i dderbyn cyllid FoEc. Llwyddodd tîm Arloesi Llywodraeth Cymru i ariannu 5 cynnig arall, gan ein galluogi i gefnogi cynifer o sefydliadau â phosibl o dan faner BLFF.

Roedd 21 o brosiectau yn cwmpasu 3 sector FoEc allweddol, gyda 15 ym maes Bwyd, 5 ym maes tai / adeiladu ac 1 yn canolbwyntio ar sbarduno arloesedd FoEc.

Roedd y mathau o fusnesau a gefnogwyd yn cynnwys 7 menter gymdeithasol, 6 chwmni cyfyngedig, 3 sefydliad nid-er-elw, 3 Awdurdod Lleol ac 1 Sefydliad Addysg Uwch.

Dyrannwyd cyllid drwy ddyfarniad grant ar gyfer 20 o'r prosiectau a darparwyd 1 prosiect bwyd drwy gontract 3 blynedd drwy'r llwybr caffael, yn dilyn mini-gystadleuaeth o fewn Cytundeb Fframwaith Datblygu Sector Bwyd Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer y prosiectau a ariannwyd gan grantiau, cytunwyd ar dargedau, amcanion a phroffiliau talu gyda phob arweinydd prosiect, gyda'r taliadau fel arfer yn cael eu gwneud ar ffurf ôl-daliadau chwarterol. Cyhoeddwyd a dychwelwyd llythyrau dyfarnu grant, wedi'u hawdurdodi gan ddau lofnodwr.

Cynhaliodd swyddogion yr Economi Sylfaenol gyfarfodydd diweddarau cynnydd rheolaidd gydag arweinwyr prosiectau i sicrhau bod popeth yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl. Cyflwynodd arweinwyr prosiect hawliadau rheolaidd i'r Tîm Monitro ar gyfer prosesu a thalu, ynghyd ag adroddiad cynnydd yn dangos y dystiolaeth a nodwyd yn y llythyr dyfarnu grant. Adolygodd y Tîm Monitro'r hawliad a'r dystiolaeth ategol ac yna, ar ôl iddynt gael eu bodloni, rhyddhaodd gyllid i'r sefydliadau.

4. Symiau cyllido

Roedd cyfanswm y cyllid ar gyfer y 15 prosiect o gyllideb FoEc yn £1,402,376.50 a hawliwyd £1,397,453.38. Roedd cyfanswm y contract 3 blynedd a ddyfarnwyd drwy'r llwybr caffael yn £190,000. Mae'n bleser adrodd bod pob prosiect wedi cael eu cynnal yn unol â'r gyllideb ac wedi cyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt, gydag un prosiect wedi'i gwblhau ychydig yn is na'r gyllideb.

Roedd 2 o'r prosiectau bwyd yn ategu cyllid FoEc gyda chronfeydd ychwanegol a oedd yn creu cyfanswm o £4,873.01, un o'u gyllideb eu hunain a'r llall o ffynhonnell ariannu arall.

Dyrannodd tîm Arloesi Llywodraeth Cymru £1,030,688 o gyllid ychwanegol er mwyn gallu cefnogi 5 prosiect arall. Llwyddodd 2 o'r prosiectau i gyflawni'n llwyddiannus yn erbyn yr holl amcanion a gwneud defnydd llawn o'r cyllid a ddyfarnwyd. Roedd rhai heriau a oedd yn effeithio ar amserlenni cyflawni 3 o'r prosiectau, gan arwain at ddiwygio cynlluniau cyflawni a'r cyllid a ddefnyddiwyd. At ei gilydd, defnyddiwyd cyfanswm o £692,703.62 o'r cyllid. Mae 3 o'r sefydliadau a gefnogir wedi parhau i drafod â'r tîm Arloesi ynghylch y posibilrwydd o gael gafael ar ragor o gymorth i barhau â'u gweithgarwch arloesi.

5. Y broses hawlio

Mae'n braf gweld bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau'n teimlo bod y broses hawlio wedi gweithio'n dda ac yn syml. Dywedodd un cwmni bwyd ei fod yn "foddhaol iawn, yn mabwysiadu agwedd hyblyg, yn gydnaws ag anghenion deinamig y prosiectau."

Dywedodd 6 busnes fod rhywfaint o oedi cyn prosesu hawliadau a gwneud ad-daliadau, oherwydd prinder staff a diffyg cyfathrebu yn y Tîm Monitro. Achosodd hyn rai anawsterau, oedi a straen ar adnoddau. Disgrifiodd un busnes bwyd bach y broses fel un sy'n "llethu, yn cymryd llawer o amser ac yn negyddol".

6. Creu a chadw swyddi

Pob un o'r 19 sefydliad a gafodd gymorth ariannol ar gyfer Gwaith Teg ac sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol (RLW). Mae 7 sefydliad ag Achrediad RLW ac roedd un busnes cymdeithasol wedi talu'r RLW ond yn teimlo nad oedd angen achrediad.

Mae'n braf gweld bod yr holl sefydliadau, ac eithrio 2, wedi adrodd na chollwyd unrhyw swyddi o ganlyniad i ddod â'r cyllid i ben. Roedd y 2 yn brosiectau bwyd, lle'r oedd swydd swyddog prosiect am flwyddyn, a benodwyd i rôl arbenigol i helpu gyda'r rôl gyflawni, wedi dod i ben pan ddaeth y prosiect i ben ym mis Mawrth 2025; gwelodd y llall 0.4 FTE x 2 swydd, a benodwyd i gyflawni'r prosiect, yn cael eu colli pan ddaeth y cyllid i ben.

Cafodd nifer o rolau eu creu ar draws y prosiectau mewn cymorth arbenigol, ymgysylltu â'r gymuned, rheoli prosiectau a chymorth technegol. Llwyddodd y prosiectau i greu neu ddiogelu 1,352 o swyddi / lleoliadau gwaith yn uniongyrchol, gan gynnwys:

- Cadwyd 1,119 o swyddi drwy'r cynllun grant achredu bwyd sy'n cael ei redeg gan Mentera.
- Gosodwyd 120 o ddysgwyr ar raglenni profiad gwaith carbon isel drwy Cyfle, gydag 80% yn symud ymlaen i gyflogaeth neu brentisiaethau.
- Cofnodwyd bod 120 o swyddi ychwanegol wedi cael eu creu drwy gefnogi 20 o gontractwyr i weithio tuag at achrediad PAS2030, sy'n ofyniad gorfodol ar gyfer ôl-osod cynnyrch ynni effeithlon mewn tai.
- 8 cynhyrchydd organig o Gymru ar ffermydd drwy brynu llysiau ar gyfer prydau ysgol, dan arweiniad Synnwyr Bwyd Cymru ac wedi'u cefnogi gan Castell Howell, gan roi incwm o £34,333 iddynt ac amcangyfrif o £127,034 o fudd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i Gymru. 2 swydd cyfwerth ag amser llawn a gefnogwyd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, ac mae'r ddwy wedi parhau ers diwedd y prosiect.
- 2 aelod o staff ar gyfer prosiect Awr Fwyd Cyngor Caerdydd - arweinydd deieteg ac ymarferydd cynorthwyol deietig.
- 6 swydd wedi'u cadw yn y Sefydliad Addysg Uwch drwy ddatblygu Rhwydweithiau Arloesi'r Economi Sylfaenol i hyrwyddo arloesedd ymysg busnesau Cymru.
- 1 swydd amser llawn wedi'i chreu ym Menter Môn drwy eu prosiect Tech Tyfu.
- Penodwyd rheolwr Cymuned Ymarfer penodol ar gyfer y prosiect tai/adeiladu ac mae'n dal i gael ei gyflogi, gan fod yn rhan annatod o'i ddatblygiad parhaus.

7. Sgiliau a ddatblygwyd drwy brosiectau

Mae'n braf iawn gweld bod pob sefydliad wedi dweud bod y prosiectau wedi eu helpu i ennill ystod eang o sgiliau, o sgiliau rheoli / cynllunio prosiect, mentora a hwyluso mentora, trosglwyddo gwybodaeth, cyfathrebu, marchnata. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Cynhaliodd Mentera gynllun grant a gefnogodd 52 o gwmnïau bwyd o Gymru i gyflawni achrediad SALSA a Micron2, y mae eu hangen ar gyfer cyflenwi bwyd i ysgolion ac ysbytai. Helpodd hyn i gadw 1119 o swyddi a galluogi twf a chynaliadwyedd tymor hir.
- Mae arweinydd prosiect Cookalong Clwb wedi cymhwyso fel Arbenigwr Maeth Cymunedol y GIG er mwyn cael gwybodaeth fwy arbenigol am fwyd mewn cymunedau ac mae bellach yn deall, po gynharaf y byddwn yn sicrhau bod plant yn ymgysylltu â bwyd, yn eu grymuso gyda dealltwriaeth o gynhwysion, y lleiaf o ymyriadau'r GIG fydd eu hangen ar gyfer iechyd a bwyd.
- Dywedodd nifer o'r prosiectau bwyd fod ganddynt well dealltwriaeth a gwybodaeth am seilwaith a chyflenwad bwyd y sector cyhoeddus, ynghyd â sut i gysylltu a chefnogi tyfwyr, sefydliadau yn y sector cyhoeddus a chyfanwerthwyr

yn well. Yn unol â hynny, cafwyd gwell dealltwriaeth o sut mae cadwyni cyflenwi lleol yn gweithio a'r heriau a'r atebion ynddynt hefyd.

- Datblygodd BIC Innovation wybodaeth economaidd ddyfnach drwy ymgysylltu ag economegydd o Brifysgol Caerdydd ynghylch eu Mynegai Bwyd Cymru.
- Mae dau reolwr yn Well Fed wedi gwella eu sgiliau rheoli prosiect yn sylweddol drwy'r prosiect.
- Roedd gweithio'n agosach gyda sector garddwriaeth organig Cymru wedi gwella dealltwriaeth nifer o brosiectau bwyd o agweddau hanfodol fel alinio cynhaeaf, cnydau, rhagolygon a datblygu cynnyrch newydd.
- Cafodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol fwy o ymwybyddiaeth o'r rhwystrau y mae ffermydd garddwriaethol yn eu hwynebu a sut i oresgyn y rhwystrau hyn, ynghyd â mwy o ymwybyddiaeth o sut mae'r system gynllunio'n gweithio a beth mae'n gallu ei gyflawni. Ar ben hynny, mae yna well dehongliad o hawliau datblygu a ganiateir a'r hyn sydd angen caniatâd cynllunio yng Nghymru.
- Cefnogodd Cyngor Sir Caerfyrddin 'Hyfforddiant Cynaliadwyedd Bwyd' ar gyfer Rheolwyr Staff Arlwy'r Cyngor a hyfforddiant dilynol ar gyfer staff arlwy rheng flaen. Fe wnaethant hefyd ennill y sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio Cynnyrch Bwyd Sylfaenol (Ffres) sy'n cefnogi'r Economi Sylfaenol drwy gadwyni cyflenwi byrrach.

Prosiectau tai ac adeiladu:-

- Cefnogodd NetRet Group 24 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru i baratoi ar gyfer ardystiad PAS 2030:2023, gan eu rhoi mewn sefyllfa i arwain mewn gwasanaethau ôl-osod a datgarboneiddio. Drwy gynefino digidol, cynlluniau hyfforddi wedi'u teilwra, a chymorth cynhwysfawr cyn archwilio, sicrhodd NetRet fod y contractwyr a oedd yn cymryd rhan yn barod ar gyfer archwiliad ac yn cyd-fynd â safonau UKAS.
- Dywedodd Cwmpas fod y prosiect yn darparu llwyfan ar gyfer dysgu am y synergedd rhwng caffael a datblygu cynaliadwy a'r mecanweithiau ar gyfer datblygu gwerth cymdeithasol.
- Nododd SimplyDo fod eu prosiect yn ddefnyddiol iawn o ran cefnogi'r gwaith o greu prosesau sylfaenol i gefnogi sefydliadau tai yn y dyfodol mewn gweithgarwch arloesi, gan ddarparu profiad o'r sector a dysgu am weithio gyda'r sefydliadau hyn. Roedd yr ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd hyn hefyd yn darparu gwersi am sut i farchnata'n effeithiol i gyflenwyr yr economi sylfaenol ledled Cymru. Mae hefyd wedi datblygu gallu geodelweddu o fewn y platfform i gyflwyno canlyniadau ymchwil sy'n dangos map cywir o'r gymuned fusnes.
- Roedd un o'r prosiectau tai wedi gwella capasiti'r sefydliad, gan gynyddu ei allu i ymgymryd â phrosiectau ychwanegol drwy greu llif o unigolion medrus sy'n barod am waith.
- Dywedodd Woodknowledge Wales fod y prosiect yn darparu llwyfan ar gyfer dysgu am y synergedd rhwng caffael a datblygu cynaliadwy a'r mecanweithiau ar gyfer datblygu gwerth cymdeithasol.
- Dywedodd Cyfle fod y prosiect wedi arwain at ddatblygu sgiliau'n helaeth mewn 4 maes allweddol:-

- **Gwella Gallu'r Gweithlu** - Drwy gynnig lleoliadau strwythuredig i gyfranogwyr, mae staff Cyfle wedi cael cyfleoedd i fentora, hyfforddi a goruchwyllo, gan gryfhau eu sgiliau arwain, cyfathrebu a rheoli. Mae timau wedi datblygu mwy o allu i addasu drwy integreiddio hyfforddeion i brosiectau byw a sicrhau safonau ansawdd a diogelwch cyson.
- **Trosglwyddo Gwybodaeth ac Uwchsgilio** - Mae cydweithwyr profiadol wedi cael eu hannog i rannu arbenigedd technegol mewn lleoliad ymarferol, gan atgyfnerthu eu gwybodaeth eu hunain ar yr un pryd â darparu hyfforddiant yn y byd go iawn i newydd-ddyfodiaid. Mae Cyfle wedi ehangu ei gysylltiad ag arferion diweddaraf y diwydiant, gan sicrhau bod eu gweithlu'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau adeiladu a gofynion cynaliadwyedd sy'n esblygu.
- **Gwell Capasiti Sefydliadol** - Mae'r prosiect wedi cynyddu eu gallu i ymgymryd â phrosiectau ychwanegol drwy greu llif o unigolion medrus sy'n barod am waith. Mae staff wedi cael profiad o gynllunio prosiectau, cynefino, a phrosesau monitro, gan helpu Cyfle i fireinio eu systemau mewnol ar gyfer datblygu'r gweithlu.
- **Diwylliant Tîm Cryfach** - Mae gwesteio cyfranogwyr profiad gwaith wedi meithrin diwylliant o gynhwysiant, mentora a thwf proffesiynol.

Prosiect arloesi:-

- Roedd y prosiect FEIN wedi gwella gwybodaeth a sgiliau arloesi ac economi gylchol cyfranogwyr y rhaglen yn ogystal â helpu i feithrin sgiliau'r tîm cyflawni wrth iddynt addasu'r rhaglen i gynulleidfa sector preifat yn bennaf.
- Roedd y prosiect hefyd yn galluogi'r cynorthwyydd cyllid a gweinyddol i wella sgiliau cyllid a rhifedd gan eu bod wedi canolbwyntio'n flaenorol ar gyfrifoldebau gweinyddol yn bennaf.

8. Prentisiaethau a lleoliadau gwaith

Arweiniodd y prosiectau at roi amrywiaeth o brentisiaethau, rhaglenni mentora a rhaglenni hyfforddi ar waith yn eang, gan feithrin capasiti'r gweithlu yn y dyfodol a chefnogi nodau Sero Net, gan gynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sefydlu Gweithrediadau Gwirfoddoli ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gefnogi Rhaglen Prentisiaethau ar y cyd â darparwyr Addysg eraill yn lleol.
- Cymerodd Menter Môn fyfyrwr Gwyddor Amgylcheddol am wythnos.
- Mae Mentera yn darparu amrywiaeth o brentisiaethau a lleoliadau gwaith gan gynnwys myfyrwr Safon Uwch a gafodd brofiad gwaith drwy'r Cynllun Achredu Cyllid Bwyd. Llwyddodd y myfyrwr i ennill profiad mewn rheoli prosiectau a marchnata ac ers i'r prosiect ddod i ben mae wedi ymuno â'r tîm yn llawn amser fel hyfforddai marchnata.
- Mae Castell Howell wedi noddi a chefnogi prosiectau garddwriaeth gyda Ffederasiwn y Ffermwyr Ifanc ac Academi Amaeth iau (gyda Cyswllt Ffermio).

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Cwblhaodd 120 o bobl ifanc y rhaglen lleoliadau ar y safle a phrofiad yn y gweithle gyda Sgiliau Adeiladu Cyfle, gan gynnwys gweithdai gyrfaedd ac ysgrifennu CV, gweithdai mentora, gweithdai Sero Net a lleoliad 10 diwrnod ar y safle gydag un o 60 o gyflogwyr cysylltiedig ledled Cymru.
- O'r 120 o ymgeiswyr Cyfle, mae 80% o gyfranogwyr wedi mynd ymlaen i sicrhau cynllun prentisiaeth neu gyflogaeth.
- Cafodd un o 120 o brentisiaid Cyfle ei gydnabod yng Ngwobrau mawreddog Youthbuild 2024 yn Llundain, lle enillodd wobr yn y categori 14-18 oed am Gyflawniadau Eithriadol.
- O ganlyniad i'r Cymunedau Ymarfer, mae Woodknowledge Wales wedi gallu helpu pobl i gael gafael ar hyfforddiant. Gan fod sgiliau, hyfforddiant a recriwtio yn bwnc cyffredin ym mhob Cymuned Ymarfer, mae Wood Knowledge Wales wedi newid ffocws ei waith i gynnwys 'Deall Cenhedlaeth-Z' a diogelu'r gweithlu at y dyfodol. O ganlyniad, mae sesiwn lawn a nifer o sesiynau grŵp wedi cael eu neilltuo ar gyfer addysg, sgiliau a recriwtio yn WoodBUILD 2025.

9. Beth weithiodd yn dda

Dywedodd llawer o'r busnesau fod gweithio mewn partneriaeth, cydweithio, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwella cysylltiadau drwy gadwyni cyflenwi yn fuddiol iawn i lwyddiant y prosiect. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Roedd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn teimlo bod llwyddiant eu prosiect wedi cael ei helpu gan “bartneriaeth fawr ac ymroddedig” wrth ddatblygu canllawiau cynllunio newydd i sbarduno mwy o arddwriaeth a defnydd tir effeithiol yng Nghymru. Roeddent yn teimlo bod y dull hwn yn gwbl arloesol ac y “bydd yn creu effaith ddilynol am flynyddoedd i ddod.”
- Helpodd y Gymuned Ymarfer Bwyd, a hwyluswyd gan Cynnal Cymru, i ddod â phobl nad ydynt fel arfer yn yr un ystafell at ei gilydd, a sbardunodd gysylltiadau, arloesedd a chefnogaeth rhwng prosiectau e.e. roedd aelodau'n gallu profi'r 'Pecyn Tyfu Cynaliadwy' newydd ar gyfer tyfwyr, a ddatblygwyd gan Gymdeithas yr Ymddiriedolaeth Ddatblygu, a hefyd gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Safon Tyfwyr newydd. Gweler adran 14 am ragor o wybodaeth am y Gymuned Ymarfer Bwyd.
- Canfu prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion fod gweithio mewn partneriaeth a chael amrywiaeth o ffynonellau ariannu wedi gweithio'n dda. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd i symud cyllideb rhwng llinellau cyllideb a oedd yn hwyluso'r gwaith o redeg prosiect yn ddidrafferth, a oedd â llawer o newidynnau na ellid eu rheoli'n uniongyrchol (e.e. y tywydd!).
- Roedd Castell Howell yn gwerthfawrogi'r dull 'dysgu drwy wneud', gan ddatrys problemau wrth iddynt godi.
- Ym mhrosiect Larder Cymru ffurfiwyd Bwrdd Crwn Caffael Gogledd Cymru newydd, a fu'n fuddiol iawn o ran helpu awdurdodau lleol i rwydweithio a sicrhau arbedion maint gyda chyflenwyr allweddol - gan gynnwys Harlech - ac mae'n braf gweld bod y

cyfarfodydd bwrdd crwn hyn yn dal i gael eu cynnal. Dangosodd y prosiect hwn hefyd sut y gall gwella'r berthynas rhwng rheolwyr caffael, swyddogion arlwygo a chyflenwyr lleol arwain at fwy o gynnyrch o Gymru ar fwydlenni ysgolion, gyda Chyngor Caerffili bron yn dyblu ei wariant ar fwyd ysgol o Gymru ar ôl ailgynllunio'r fwydlen.

- Canfu Cookalong Clwb fod cynnwys plant ysgol yn y gwaith o ddatblygu bwydlenni, blasu ac addysgu bwyd hefyd wedi gweithio'n dda iawn yn ôl nifer o brosiectau bwyd.
- Mae'r prosiectau bwyd yn helpu i chwalu'r myth bod caffael cyhoeddus yn rhwystri gyrchu o ffynonellau lleol. Mae hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth ar gyfer arloesi a dulliau lleol sy'n ymgorffori gwerth cymdeithasol - mae prosiectau fel Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, Larder Cymru a Well Fed yn dangos pa mor effeithiol y gall hyn fod. Roedd ymyriadau'r gadwyn gyflenwi yn gweithio'n dda iawn, lle byddai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn gweithio o fewn trefniadau cytundebol ac yn ymgysylltu â chyfanwerthwyr i wneud newidiadau i sicrhau bod mwy o fwyd o Gymru ar gael drwy fframweithiau.
- Canfu prosiect Awr Fwyd Cyngor Caerdydd fod adeiladu ar hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth bresennol, gan sicrhau cysondeb a hygyrdd wrth ei ddarparu, wedi gweithio'n dda iddynt, ynghyd ag ymgysylltu cryf drwy gydol y broses ymgynghori, gyda chyfranogiad gweithredol gan randdeiliaid.
- Dywedodd llawer o sefydliadau fod meithrin sgiliau newydd drwy'r prosiectau ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid yn fuddiol iawn. Mae hyrwyddo Cymru a chynnyrch o Gymru yn genedlaethol wedi talu ar ei ganfed hefyd. Roedd sawl prosiect yn gwerthfawrogi sut roedd cyllid FoEc yn eu galluogi i 'ddysgu drwy wneud' a datrys problemau wrth iddynt godi.

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Canfu un o'r prosiectau tai fod eu recriwtio cychwynnol a'u hymgysylltiad â phartneriaid prosiect wedi gweithio'n dda, gan fod rhai partneriaid yn 'oer' i'r broses. Bu hyn yn llwyddiannus o ran eu helpu i ddod o hyd i gadwyn gyflenwi gwbl Gymreig ar draws 3 her caffael, a datblygu prosesau ar gyfer datgelu a dilysu cyflenwyr amrywiol a 'heb eu gweld' mewn economïau lleol ledled Cymru. Canfuwyd bod dull 'hwyluso gweithredol' prosiect Cwmpas yn fuddiol iawn ac wedi galluogi cael y bobl iawn yn yr ystafell i archwilio heriau/cyfleoedd a datblygu camau gweithredu mesuradwy. Arweiniodd y dull hwn yn uniongyrchol at sefydlu cymunedau ymarfer, sy'n eiddo ar y cyd i TAYC a Wood Knowledge Wales, a gefnogodd y Tîm i wneud mwy o waith ar ôl i gyllid y prosiect gan Lywodraeth Cymru ddod i ben.
- Roedd Cymunedau Ymarfer a ddatblygwyd gan Tai Ar y Cyd a Wood Knowledge Wales yn hwyluso rhannu gwybodaeth ymysg dros 95 o sefydliadau yn y sectorau pren a thai.
- Roedd Cyfle o'r farn bod ei gynllun mentora a chymorth yn hanfodol i helpu i fynd i'r afael â'r risg o beidio â chwblhau'r rhaglen, gan ganiatáu iddynt nodi unrhyw broblemau a darparu ymyriadau cyn gynted â phosibl (o ganlyniad, dim ond un ymgeisydd a adawodd y rhaglen oherwydd amgylchiadau personol). Roedd llwyddiant y cynllun hefyd yn bwysig iawn o ran helpu i ddatblygu sgiliau pobl ifanc

mewn rhanbarthau gwledig, gan roi cyfle i bobl ifanc ennill profiad yn yr amgylchedd adeiledig, gan helpu i arwain at brentisiaethau a chyflogaeth.

- Canfu Wood Knowledge Wales fod ymweliadau safle â sefydliadau sy'n aelodau wedi helpu i ddysgu oddi wrth ei gilydd a chael safbwyntiau newydd e.e. datblygwyr tai cymdeithasol a phenseiri a dylunwyr yn ymweld â gwneuthurwyr fframiau coed i gael gwell dealltwriaeth o systemau pren. Roedd eu Cymuned Ymarfer hefyd yn amhrisiadwy o ran galluogi Wood Knowledge Wales i ddefnyddio synergeddau rhwng y gwahanol gymunedau ymarfer, trefnu digwyddiadau o amgylch pynciau cyffredin a phrosiectau parhaus. Mae hefyd wedi cefnogi datblygiad pellach y grwpiau, yn enwedig eu twf aelodaeth a'u hallbwn, drwy gyfnodau o ymgysylltu cyfyngedig.

Prosiect Arloesi:-

- Canfu Met Caerdydd fod cyrhaeddiad ychwanegol wedi'i gyflawni drwy ddigwyddiad lledaenu ar ddiwedd y prosiect, a noddwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, o'r enw 'Arloesedd yn yr Economi Gylchol - Dysgu gan Sefydliadau yng Nghymru'.
- Denodd hyn dros 50 o gyfranogwyr ac roedd yn cynnwys tystiolaeth gan sefydliadau cyfranogol, a gadarnhaodd werth ysbrydoledig ac ysgogol FEIN, fel y'i mesurir gan ddiddordebau amlwg mewn arbrofi â gymwysiadau mewn amrywiaeth o leoliadau gwaith cymhwysol.
- Roedd cyfranogiad gan sefydliadau fel Cwmpas a WRAP Cymru hefyd yn darparu gwerth a chymorth wrth ddatblygu heriau a helpu i ddatblygu atebion.

10. Beth wnaeth ddim gweithio cystal

Soniodd sefydliadau am amrywiaeth o faterion ar draws y gwahanol brosiectau a oedd yn heriol. Bu gweithio mewn partneriaeth yn gleddyf deufin ar gyfer sawl prosiect - er y nodwyd ei fod yn fuddiol dros ben, roedd llawer o brosiectau'n teimlo bod rheoli'r partneriaid a'r rhanddeiliaid amrywiol a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect yn heriol yn weinyddol ac yn cymryd llawer o amser.

Dywedodd un sefydliad fod 'jyglo nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys prosiectau a rhaglenni eraill, yn gofyn am flaenoriaethu a chydlynu gofalus'. Roedd blaenoriaethau a oedd yn gwrthdaro, amserlenni a diffyg staff / adnoddau hefyd yn anodd i rai. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Profodd Cyngor Sir Caerfyrddin gyfyngiadau cychwynnol o ran recriwtio arweinydd rhaglen a recriwtio ysgolion cyn y gallai'r prosiect ddechrau.
- Nododd BIC Innovation fod "cymhlethdod y sector yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu, gan gynnwys argaeledd data gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus."
- Roedd nifer o sefydliadau'n teimlo bod y broses hawlio'n araf a bod cyfathrebu'n wael oherwydd prinder staff, a arweiniodd at rywfaint o oedi o ran talu.
- Effeithiwyd ar brosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion gan dwf gwael oherwydd tywydd gwael, ac nid oedd swm y llysiau fel y gobeithiwyd. Cyfeiriodd hefyd at heriau o ran amseru cyllid, cynllunio cnydau ac ymweld â ffermydd, sy'n ddud ac yn anodd

eu trefnu. Effeithiwyd ar y prosiect hefyd gan y diffyg seilwaith angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu llysiau sylfaenol, heb unrhyw gyfleusterau i olchi, sleisio a storio'r llysiau cyn iddynt gael eu danfon i ysgolion (sydd eu hangen yn aml yn barod i'w defnyddio) ac yn aml roedd yn rhaid i bartneriaid i gyfrannu at olchi moron, sy'n gymeradwy ond nid yn gynaliadwy.

- Roedd tywydd gwael hefyd wedi effeithio ar Gastell Howell, sy'n bartner yn Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion ac sydd hefyd yn datblygu cynnyrch newydd ar gyfer amrywiaeth o brydau Cymreig i ysgolion. Canfuwyd mai un rhwystr sylweddol i ddatblygu cynhyrchion cig oen ymhellach oedd y cynnydd dramatig ym mhris cig oen Cymru. Adeg datblygu (haf 2024), roedd prisiau ŵyn wedi cyrraedd y prisiau uchaf erioed yn y farchnad, dros £8.50/kg yn 2024 o'i gymharu â £7.50/kg yn 2023. Mae'r prisiau hyn yn adlewyrchu costau cynnyrch pelenni cig oen, sy'n £11.22/kg, o'i gymharu â chyw iâr a phorc, sy'n tua £6.55/kg.
- Roedd Well Fed yn cael trafferth gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ac yn teimlo eu bod yn llesteirio cynnydd heb unrhyw awydd i ddysgu gan eraill.

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Canfu SimplyDo fod ymgysylltiad partneriaid a'r gallu i roi newid ar waith yn amrywiol a bod angen rheoli disgwyliadau ynghylch argaeledd a chyflawnder data yn fwy effeithiol.
- Dywedodd sefydliad arall fod 'cydbwyso tasgau cyflawni prosiectau gydag amser ar gyfer meddwl yn strategol yn her'.
- Dywedodd sefydliadau fod cyfranogiad cyfyngedig partneriaid a rhanddeiliaid yn rhwystr allweddol, gan fod busnesau dan bwysau ac yn gweithio ar gapasiti, yn enwedig rhai bach. Nododd un prosiect tai/adeiladu hefyd fod 'cystadleuaeth yn gallu tanseilio cydweithio a'i bod weithiau'n gallu ei gwneud hi'n anodd meithrin ymddiriedaeth eto'.

Prosiect Arloesi:-

- Adroddodd prosiect FEIN Met Caerdydd (Rhwydwaith Arloesi'r Economi Sylfaenol) mai'r unig sylw negyddol a gasglwyd gan yr arolwg diwedd y rhaglen oedd bod y rhaglen yn academiaidd.

11. Y Gwersi a Ddysgwyd

Rhoddodd y prosiectau fyfyrddodau amhrisiadwy ar y gwersi a ddysgwyd o lawer o'r heriau a wynebwyd. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Canfu prosiect Larder Cymru fod gan bob awdurdod lleol ddyheadau gwahanol ar gyfer eu gwasanaethau prydau ysgol a'u bod ar wahanol gamau cynnydd, sy'n golygu nad oes modd dyblygu gwaith safonol bob amser ar draws awdurdodau lleol a bod atebion wedi'u teilwra'n gweithio'n well.
- Mae'r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Ddatblygu yn teimlo bod "Cysoni partneriaethau yn hanfodol" gyda'u prosiect wedi'i gynllunio fel partneriaeth i fanteisio ar genhadaeth ac arbenigedd craidd pob partner, yn hytrach na bod DTA Cymru yn arwain

darpariaeth thematig y tu allan i'w gylch gwaith. Hefyd, roedd "Cymhellion ariannol yn effeithio ar ymgysylltu" gyda nhw, gan ganfod bod partneriaid yn fwy ymatebol ac ymroddedig pan oedd cyllid yn talu am gyfran sylweddol o'u hamser; roedd mewnbwn ariannol cyfyngedig yn arwain at flaenoriaethu tasgau'n wael.

- Roedd prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn tynnu sylw at y ffaith mai tyfwyr sydd â'r baich mwyaf o ran risg yn y gadwyn gyflenwi ar hyn o bryd oherwydd y tywydd a'r cnydau'n methu, ac roeddent yn teimlo y dylai'r holl randdeiliaid gymryd cyfran o'r risg hon. Yn yr un modd, tyfwyr yw'r rhanddeiliaid sy'n cael y gyfran isaf yn y gadwyn gwerth - dylid rhannu gwerth yn gyfartal ar draws y system.
- Roedd Castell Howell yn cydnabod, er mwyn gwneud tyfu llysiau organig/agroecolegol o Gymru yn hyfyw i'r tyfwyr, bod system o ymestyn oes silff cynnyrch yn hanfodol. Yn absenoldeb capasiti prosesu rhewi-cyflym unigol yng Nghymru, mae nifer o opsiynau i rewi'r llysiau ar ffurf prydau aml-ddogn. Maent yn credu bod "grantiau BLFF a'u gwaddol wedi cael effaith sylweddol o ran helpu i hwyluso newid, gan adael gwaddol sydd wedi parhau ar ôl i'r prosiectau ddod i ben".
- Drwy eu prosiect Tech Tyfu, canfu Menter Môn yr hoffai Fferm Green-Up ddanfôn dail salad i'r sector cyhoeddus ond mae wedi sôn eu bod wedi cael trafferth dod o hyd i'r amgylchedd cywir i gadw'r dail salad ar ôl iddynt gael eu cynaeafu o'r ffermydd fertigol. Mae Fferm Green-Up wedi cael ei chyfeirio at Will Stiles o Arloesi Aber a Phrifysgol Aberystwyth i weld a allant gefnogi.
- Mae Cookalong Clwb wedi dysgu bod "pob plentyn yn ymgysylltu â bwyd a bod penderfyniad parhaus yn hanfodol i newid a gwella bywydau drwy leihau gwastraff bwyd, lleihau costau bwyd a grymuso plant i goginio." Hefyd, mae dull rhagweithiol o gyllido yn hanfodol, a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol yw gweithio gyda gweithiwr proffesiynol i gefnogi'r broses hon sy'n aml yn gymhleth.
- Nododd Mentera yr effeithiau cadarnhaol y mae'r prosiectau'n eu cael ar swyddi a chefnogi cwmnïau yng Nghymru, sy'n cynnwys achrediadau diogelwch bwyd, y byddai llawer ohonynt wedi dod i ben heb gyllid FoEc.
- Teimlai Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol y byddai gweithio'n agosach gyda swyddogion polisi cynllunio yn y camau cynnar o fudd mewn prosiectau yn y dyfodol.
- Tynnodd PLANED a Chyngor Sir Caerfyrddin sylw at yr angen i ymgorffori amser ychwanegol mewn amserlenni prosiectau ar gyfer materion annisgwyl a chael cynllun wrth gefn bob amser os bydd oedi.
- Roedd Well Fed yn teimlo nad oes gan lawer o Awdurdodau Lleol ddiddordeb mewn arloesi ac nad ydynt yn ymwybodol o faterion cymdeithasol, gyda llawer yn canolbwyntio ar wario eu harian fel prosiect wedi'i amseru yn unig, sy'n gallu bod yn wastraff adnoddau.
- Mae cymhlethdod y sector yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu, gan gynnwys argaeledd data gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus.
- Drwy eu prosiect Mynegai Bwyd Cymru, dysgodd BIC Innovation fod cymhlethdod y sector yn golygu bod gweithredu yn anodd, gan gynnwys argaeledd data gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, ond canfu lefel uchel o awydd am gymorth i helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddarparu bwyd gwell i'w cwsmeriaid.
- Dysgodd Cyngor Caerdydd ei bod yn hanfodol profi'r cynllun peilot Awr Fwyd er mwyn i ysgolion a rhanddeiliaid ddeall ei werth, a phwysigrwydd creu Dinasyddion Bwyd.

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Tynnodd SimplyDo sylw at yr angen i bartneriaid prosiect a rhanddeiliaid ddeall a bod yn barod i ymgymryd â phroses o newid arloesedd. Hefyd, mae angen rheoli disgwyliadau o ran mapio cyflenwyr a chwilio am gyflenwyr, gan ei bod yn amhosibl rhoi darlun cyflawn 100% o ddemograffeg busnes mewn rhanbarth oherwydd ffactorau fel yr economi 'heb ei gweld' nad yw'n ymddangos ar ffynonellau data strwythuredig safonol (e.e. Tŷ'r Cwmnïau, Crunchbase ac ati.)
- Mae'r gwersi allweddol a ddysgwyd gan Cyfle yn cynnwys cysoni gwahanol fodelau darparu, ailadeiladu rhwydweithiau cyflogwyr mewn rhanbarthau anghyfarwydd, a mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth a phartneriaethau lleol. Ar ben hynny, roedd yn rhaid i Cyfle reoli mwy o ofynion gweinyddol ar yr un pryd â chynnal ei safonau uchel o ofal bugeiliol a chanlyniadau cymwysterau. Roedd y profiad yn tanlinellu pwysigrwydd llywodraethu ystwyth, cynllunio ariannol cadarn, ac ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanddeiliaid. Gwers allweddol arall a ddysgwyd oedd gwerth modelau prentisiaeth ar y cyd o ran diogelu dysgwyr yn ystod tarfu ar y sector, gan ailddatgan rôl Cyfle fel darparwr hyfforddiant cadarn a chynhwysol ledled Cymru.
- Roedd Cwmpas yn cydnabod bod cleientiaid a chontractwyr yn anochel yn canolbwyntio ar y gwaith o ddydd i ddydd. Gall adnoddau cymedrol i gefnogi 'hwyluso gweithredol' gael effaith fawr - mae'r costau cyfle o beidio â gosod yr adnoddau cyfyngedig hyn yn y 'bwlch gweithredu' yn enfawr o ran cyfleoedd a gollwyd ar gyfer cydweithio, twf y gadwyn gyflenwi, swyddi a hyfforddiant ac ati.
- Tynnodd Wood Knoweldge Wales sylw at y ffaith bod pob Cymuned Ymarfer wedi mynegi pryderon ynghylch hyfforddiant, sgiliau a recriwtio ac wedi rhoi mewnbyn ar y Strategaeth Ddiwydiannol Pren ynghylch y pwnc. Mae hyn wedi arwain at ffocws cryfach yn eu gwaith ar greu gwell dealltwriaeth o GenZ a sut mae cefnogi diwydiant i adfywio ei hun, fel ei fod yn dod yn ddeniadol i genedlaethau'r dyfodol, a phobl fwy aeddfed sydd â sgiliau trosglwyddadwy fel ei gilydd. O ganlyniad, mae sesiwn lawn a nifer o sesiynau grŵp wedi'u neilltuo ar gyfer addysg a hyfforddiant, sgiliau a recriwtio yn WoodBUILD 2025.
- Dywedodd NetRet fod yn rhaid rheoli'r gwaith o recriwtio / cyflawni'r prosiect i gyd-fynd â'r cyllid.

Prosiect Arloesi:-

- Canfu rhaglen weithdy FEIN Prifysgol Metropolitan Caerdydd ei bod yn fuddiol gofyn i gyfranogwyr ddiffinio eu buddiannau yn yr economi Sylfaenol, a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o agweddau fel caffael a chadwyni cyflenwi, cymorth llesiant, lleihau gwastraff ac ailgylchu ac ymgysylltu â'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth.

12. Beth fyddai sefydliadau'n ei wneud yn wahanol wrth edrych yn ôl?

Roedd profiadau a gafwyd drwy'r prosiectau yn galluogi sefydliadau i fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd, yr heriau a'r atebion a'r hyn y byddent yn ei wneud yn wahanol yn y dyfodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:-

- Teimlai llawer o sefydliadau y byddai gweithio'n gynharach gyda phartneriaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau / dylanwadwyr yn ddefnyddiol yn y dyfodol, er mwyn deall eu hanghenion a'u sgiliau'n well i sicrhau eu bod yn cyd-fynd orau â'r prosiect. Teimlai nifer y byddai sicrhau cyllid cynharach a rhyw fath o barhad mewn cyllid yn ddefnyddiol yn y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at bwysigrwydd ymddiriedaeth, hyblygrwydd ac ymgysylltu wedi'i deilwra, yn enwedig ar gyfer busnesau bach sydd â chapasiti cyfyngedig, fel pethau sydd eu hangen yn y dyfodol. Yn aml, nid yw un dull i bawb yn addas.

Prosiectau bwyd:-

- Cyfeiriodd sawl prosiect at bwysigrwydd amseru o ran cynllunio cnydau a deall blaenoriaethau tyfwyr ar gyfer y tymor tyfu hwnnw.
- Roedd prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn teimlo, gydag ôl-ddoethineb a mwy o gyllid, y byddent wedi gweithio i sicrhau mwy o'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer y cadwyni cyflenwi, sicrhau cyfranogiad mwy amserol gan awdurdodau lleol a threulio mwy o amser gyda'r ceginau yn egluro sut mae'r broses archebu'n gweithio a sut gallai'r llysiau fod yn wahanol i'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl.
- Byddai treulio mwy o amser gyda cheginau ysgolion yn ddefnyddiol, gan egluro sut mae'r broses archebu'n gweithio a sut gallai'r llysiau fod yn wahanol i'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl.
- Byddai Well Fed yn creu rhaglen waith sy'n eithrio awdurdodau lleol gan eu bod yn ei chael yn anodd ymgysylltu â nhw.
- Nodwyd hefyd bod sicrhau mwy o gefnogaeth gan Awdurdodau Lleol, a hynny'n fwy amserol, yn allweddol ar gyfer llwyddiant. Dywedodd un arweinydd prosiect y byddai'n cymryd mwy o amser yn y dyfodol i 'gydgynhyrchu'r prosiect gyda'r holl randdeiliaid i sicrhau ymrwymiad a dechrau'n brydlon'.
- Mae angen buddsoddi mewn seilwaith rhanbarthol sy'n agos at fannau cynhyrchu bwyd er mwyn sicrhau cyflenwad llysiau llwyddiannus i ysgolion ac ysbytai yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ledaenu a chynyddu'r cyflenwad, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng tyfwyr a chyfanwerthwyr.
- Roedd BIC Innovation yn teimlo, wrth edrych yn ôl, y byddent wedi symleiddio amcanion y prosiect er mwyn gallu treialu eu Mynegai Bwyd Cymru newydd yn ystod y cyfnod cyllido.

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Mae Wood Knowledge Wales wedi cydnabod yr angen i esblygu eu dull o redeg eu Cymunedau Ymarfer (CoPs) yn gyson gan eu bod i gyd yn gweithio'n wahanol ac yn esblygu ar gyflymder gwahanol. Dywedon nhw "nad oes modd gorfodi CoPsmae ymddiriedaeth yn anodd ei hennill ac yn hawdd ei cholli".

- Byddai SimplyDo yn ystyried yn y dyfodol i ba raddau y mae'r sefydliad yn cyd-fynd â'r prosiect ac efallai y bydd angen i'r cwmpas newid i adlewyrchu gwahanol gryfderau a gwendidau partneriaid y prosiect. Hefyd, efallai cyfnod cychwynnol hirach i'r prosiect er mwyn deall anghenion partneriaid posibl yn iawn ac addasrwydd â chanlyniadau'r prosiect.
- Byddai NetRet wedi ymgysylltu â dylanwadyr penderfyniadau fel Hwb Sero Net yn gynharach.
- Teimlai Cwmpas y byddai sicrhau cyllid cynharach a rhyw fath o barhad mewn cyllid wedi arwain at brosiect mwy llwyddiannus.

Prosiect Arloesi:

Roedd Met Caerdydd yn teimlo y byddai sicrhau rhagor o gyllid wedi galluogi Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol (CEIC) i ymgysylltu â mwy o fusnesau bach a chanolig ledled De Cymru.

13. Cymuned Ymarfer Bwyd

Sefydlwyd Cymuned Ymarfer Bwyd newydd yn 2023 ar gyfer arweinwyr prosiectau bwyd, wedi'i hwyluso gan Cynnal Cymru ac roedd yn llwyddiannus o ran cefnogi cydweithio ac arloesi ar draws y prosiectau bwyd. Dyma rai enghreifftiau o adborth a gafwyd:-

Dywedodd Castell Howell *“Drwy ymgysylltu â grwpiau cydweithredol, dan arweiniad Cynnal Cymru, mae canlyniadau cyfunol llawer o'r prosiectau yn fwy na'r prosiectau unigol eu hunain. Roedd fforwm Rhwydweithio Bwyd BLFF yn effeithiol iawn o ran dod o hyd i elfennau cyffredin, synergedd, rhannu meysydd arbenigedd, rhannu adnoddau a dysgu ar draws pob prosiect.”*

Dywedodd Synnwyr Bwyd Cymru fod *“y Gymuned Ymarfer bwyd yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig er mwyn cysylltu â phrosiectau a oedd yn gorgyffwrdd neu a allai ychwanegu gwerth. Hefyd, cysylltu prosiectau ag asedau eraill - e.e. gwneud yn siŵr bod Partneriaethau Bwyd yn ymwybodol o brosiectau yn eu hardal ac yn gysylltiedig â nhw.”*

Dywedodd Menter Môn fod *“cyfarfodydd Ymarfer Cymunedol BLFF yn hynod ddefnyddiol i ymgysylltu â phrosiectau bwyd eraill BLFF - na fyddai efallai wedi digwydd heb yr hwyluso hwn.”*

Dywedodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol *“Roedd y Gymuned Ymarfer yn ddefnyddiol fel man dibynadwy lle gellid dathlu a chysylltu gweithgareddau.”*

Dywedodd Cookalong Clwb *“Buddiol iawn, mae cwrdd â busnesau eraill i weithio mewn partneriaeth â nhw wedi bod yn wych, a rhannu ein cynnydd. Mae'r tîm wedi bod yn gymorth anhygoel gydag arweiniad ac anogaeth, a gweld yr holl gynnydd y mae cwmnïau'n ei wneud ledled Cymru - o dyfwyr i gynhyrchwyr, i gyflenwyr a defnyddwyr - mae'n gwbl amhrisiadwy.”*

14. Arloesi, cydweithio ac adnoddau

Roedd datblygu dulliau newydd ac arloesol o gydweithio, darparu gwasanaethau a phrosesau yn thema allweddol a oedd yn rhedeg drwy'r holl brosiectau, lle'r oedd partneriaid a rhanddeiliaid na fyddent fel arfer yn gweithio gyda'i gilydd yn yr un ystafell, a pherthnasoedd newydd yn cael eu meithrin ar draws cadwyni cyflenwi. Dyma rai enghreifftiau:

Prosiectau bwyd:-

- Datblygodd BIC Innovation Fynegai Bwyd Cymru newydd, adnodd arloesol i'w ddefnyddio wrth gaffael er mwyn gallu sgorio 'Cymreictod' bwyd sy'n cael ei brynu, i roi bwyd o Gymru ar y plât cyhoeddus a sicrhau gwerth cymdeithasol ac economaidd sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Buont yn gweithio gydag economegwyr i helpu i ddatblygu'r adnodd yn ogystal ag ymgysylltu â dros 50 o randdeiliaid bwyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Defnyddiodd prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion gydweithrediad effeithiol ar draws cadwyni cyflenwi gan gyflenwi 14 tunnell o lysiau i 219 o ysgolion mewn 7 Awdurdod Lleol, gyda chefnogaeth Castell Howell, sy'n deall y pwysau ar y system fwyd; bregusrwydd cadwyni cyflenwi byd-eang, a'r angen i feithrin cydnherthedd lleol a buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi lleol.
- Roedd prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion hefyd yn meithrin sgiliau newydd ar bob lefel. Darparwyd hyfforddiant a chefnogaeth i dyfwr i ddarparu cynnyrch diogel o ansawdd uchel, mewn partneriaeth â Lantra a Cyswllt Ffermio. Roeddent hefyd wedi datblygu'r 'Safon Cyflenwyr Tyfwyr Bach' i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd deddfwriaethol. Mae gwefan Synnwyr Bwyd Cymru yn cynnwys pecynnau gwybodaeth am y prosiect ar gyfer ysgolion, plant a ffermwyr/tyfwyr:- [Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion - foodsensewales.org.uk](https://foodsensewales.org.uk)
- Mae prosiect arloesol Larder Cymru wedi arwain at ymgysylltu rhagorol â thyfwyr ac wedi sbarduno cydweithio drwy ffurfio Bwrdd Crwn Caffael Gogledd Cymru newydd, gyda gwaith cryfach rhwng Awdurdodau Lleol yn arwain at sicrhau arbedion maint gyda chyflenwyr allweddol - gan gynnwys Harlech. Ar ôl adolygu ac ailgynllunio bwydlenni bwyd ysgolion yn Wrecsam, maent wedi symud at Harlech o gyflenwr o Loegr ac mae bwydlenni bellach yn tynnu sylw at gynnyrch o Gymru. Gwnaethant hefyd arolwg gyda rhieni a ddangosodd fod 72% yn credu ei bod yn bwysig cael amrywiaeth o opsiynau bwyd Cymreig a/neu leol ar y fwydlen. Mae adroddiad 'Arferion Gorau Bwyd Cymru ar gyfer Ysgolion 2025' Larder Cymru ar gael yma [Larder-Cymru-A4-S.pdf](#)
- Mae prosiect Tech Tyfu Menter Môn wedi sbarduno arloesedd ar gyfer cynhyrchu sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd ymysg cwmnïau bach sy'n dechrau cyflenwi'r sector cyhoeddus a'r sector preifat â chnydau salad a microlysiau. Gweithiodd Fferm Snowdon Valley gydag Adam's Water i dreialu dyfais sy'n gallu dadelfennu halltedd dŵr a'i gwneud yn haws i blanhigion fel tomatos elwa o gael maeth. Mae canlyniadau

wedi canfod cynnydd mewn cnydau o dreialon, sy'n golygu y gellir tyfu mwy o gynnyrch mewn un lle gan ddefnyddio'r ddyfais.

- Defnyddiodd Well Fed yng Ngogledd Cymru arloesedd yn y system fwyd i adeiladu cadwyni cyflenwi lleol a mynd i'r afael â thlodi bwyd. Fe wnaethon nhw lansio loceri bwyd 'dull Amazon', y cyntaf yn Ewrop, gan sicrhau bod teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig yn gallu cael gafael ar fwyd iach. Buont yn gweithio gyda ffermwyr i gynnwys llysiau o Gymru mewn dros 50 o brydau newydd, gan dynnu bwyd wedi'i brosesu'n helaeth o'u bwydlenni a hefyd tynnu plastig o'u peiriannau gwerthu.
- Roedd prosiectau'n gweld arferion gorau a dulliau arloesol yn cael eu rhannu rhwng cymheiriaid a phartneriaid. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd meithrin ymddiriedaeth ymysg cymheiriaid, gydag un arweinydd prosiect yn dweud bod "Ymddiried yn alluogwr hanfodol ar gyfer newid".
- Bu PLANED yn gweithio gyda Cowpots Farm & Camping, fferm wledig y tu allan i Hendy-gwyn ar Daf. Mae'r fferm yn eiddo i deulu ers sawl cenhedlaeth ac mae'r peiriant gwerthu wedi caniatáu mwy o arallgyfeirio ar gyfer Siop Fferm Cowpots. Ar gyfer yr ail beiriant, bu PLANED yn gweithio gyda Foothold Cymru, elusen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Mae un o'u mentrau'n cynnwys siop bentref yng nghanol Llanelli. Mae'r siop yn darparu cynnyrch a brynir mewn swmp sy'n cael eu gwerthu am gost, a bwyd dros ben o'r ardal a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu. Mae'r siop yn cael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr sy'n cyfyngu ar yr amser agor. Mae cyflwyno'r peiriannau gwerthu yn golygu bod cynnyrch ar gael i'r gymuned 24/7.
- Drwy eu cangen prosesu cig, Celtica, datblygodd Castell Howell gynnyrch newydd arloesol gyda chfres newydd o brydau cig / llysiau o Gymru ar gyfer ysgolion. Roedd y rhain yn garbon-gyfeillgar, yn faethlon ac yn cynnwys llai o gig a dewisiadau amgen iachach seiliedig ar blanhigion, fel ffacbys, i gadw prisiau'n gystadleuol ar yr un pryd â sicrhau'r un maeth (yn aml yn fwy na'r brandiau mawr a brynir yn aml gan ysgolion). Mae prydau newydd wedi cynnwys saws tomato Cymreig newydd a pheli cig Cymreig ynghyd â byrgyrs madarch hybrid ac mae Castell Howell wedi gweithio gyda swyddogion arlwy, prynwyr bwyd mewn Awdurdodau Lleol a phlant ysgol i dreialu a hyrwyddo'r rhain.
- Mae Cyngor Sir Powys a Chymdeithas Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio newydd arloesol sydd wedi'u creu gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i gefnogi busnesau garddwriaethol bach. Mae Lucie Taylor wedi ennill gwobr 'Women of Influence 2025' gan The Planner Magazine o ganlyniad i'w gwaith arloesol ar ddatblygu'r Canllawiau Cynllunio. Mae amrywiaeth o adnoddau wedi cael eu datblygu i helpu tyfwyr eraill ac i ledaenu'r hyn mae'r prosiect wedi'i ddysgu, gan gynnwys '[Llawlyfr Sut i Wneud](#)' ar gyfer ffermwyr garddwriaethol, 'Meini Prawf ar gyfer Tir ar gyfer Ffermydd Bach' a 'Nodiadau i'w Hystyried wrth Ddatblygu Prydlesi ar gyfer Ffermwyr'.

[Cyhoeddiadau ac adnoddau | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol](#)

- Mae Cyngor Caerdydd a phrosiect Tîm Deieteg lechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro, sydd wedi cyflwyno 'Oriaau Bwyd' i ysgolion, wedi ennill dwy Wobr arlwy - Gwobrau Rhagoriaeth LACA - Gwobr Goffa Nan Berger a Foodservice Cateys - Arlwywr Addysg y Flwyddyn, gyda'r beirniaid yn dweud ei fod yn "enillydd clir" am ei arloesedd a'i ragoriaeth weithredol unigryw, gan ddangos effaith glir y tu hwnt i 'fusnes fel arfer' a dangos ymgysylltiad heb ei ail o'i gymharu â cheisiadau eraill".
- Cynhyrchodd prosiect Awr Fwyd Becyn Cymorth hefyd, a ddatblygwyd drwy ymgynghori â staff a disgyblion, gan gynnig adnoddau hyblyg sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm Cymru. Mae'n cynnwys gweithgareddau ar draws pedair egwyddor allweddol: Addysg Maetheg, Coginio, Cynaliadwyedd a Thyfu. Mae rhagor o wybodaeth a phhecynnau addysg ar gael yma - [Yr Awr Fwyd - foodsensewales.org.uk](http://YrAwrFwyd-foodsensewales.org.uk)

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Roedd ymdrechion ar y cyd rhwng darparwyr tai, busnesau bach a chanolig ac arloeswyr technoleg wedi gwella caffael a pharodwydd ôl-osod. Mae arloesi ym maes tai yn golygu bod capasiti lleol yn cael hwb drwy gyllid PAS2030 ac Ardystiad Cynllun Microgynhyrchu - bydd hyn yn helpu i wella'r stoc dai ledled Cymru, lleihau biliau ynni a gwella hyfywedd aelwydydd drwy fwy o incwm gweddilliol.
- Mae Simply Do wedi darparu atebion arloesol newydd sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer Trivallis er mwyn gwella hyfywedd aelwydydd. Roedd cydweithio helaeth ar eu prosiect yn cynnwys Canolfan Ragoriaeth SBRI a nifer o Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai.
- Defnyddiodd Cwmpas arloesedd i ddatblygu tai Sero Net, drwy "hwyluso gweithredol" i ysgogi rhanddeiliaid a sbarduno camau gweithredu mesuradwy drwy Gymunedau Ymarfer.
- Dywedodd Cyfle fod 60 o gyflogwyr wedi ymgysylltu â'r rhaglen i ddarparu lleoliadau ar y safle i bobl ifanc.
- Mae Wood Knowledge Wales wedi cysylltu cyflenwyr â chleientiaid sydd â'r galw am gynnyrch pren carbon isel, er mwyn dod â rhwydwaith mawr o 60 o sefydliadau yng Nghymru (Cymdeithasau tai, penseiri, seiri coed, gweithgynhyrchwyr fframiau pren a melinau llifio) at ei gilydd mewn prosiectau strategol a chydweithredol.

Prosiect Arloesi:-

- Cynhaliodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd FEIN (Rhwydweithiau Arloesi'r Economi Sylfaenol) i wreiddio dulliau gweithredu FoEc ac arloesedd mewn busnesau yng Nghymru, gan gynnwys 34 o sefydliadau o sectorau amrywiol fel lechyd a Gofal Cymdeithasol, Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu, Tai, Adeiladu, Twristiaeth, Diwydiannau Creadigol a Dylunio, Bwyd ac Adwerthu, a Datblygu Cymunedol.
- Buont yn cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau i redeg y rhwydwaith gan gynnwys Cwmpas, WRAP Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a GIG Cymru.
- Datblygwyd fideos o brosiectau arloesol ac mae adborth gan gyfranogwyr wedi cael ei ddatblygu:-

https://www.youtube.com/playlist?list=PLtCROU4co6y7GpY2_K1nJr6C4G1MgAl8f
<https://ceicwales.org.uk/awen-cultural-trust-challenge-update/>

15. Effeithiau Amgylcheddol

Mae pob prosiect wedi cefnogi cadwyni cyflenwi byrrach drwy gyflenwad mwy lleol, gyda llai o allyriadau carbon cysylltiedig, enillion Sero Net ac amrywiaeth o ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Gwelodd 'Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol' Cyngor Sir Caerfyrddin ostyngiad yn ôl troed carbon prydau bwyd o 1.24kgCO₂e fesul pryd bwyd i 1.67kg CO₂e negyddol fesul pryd bwyd (carbon wedi'i atafaelu). Drwy leihau ac atafaelu, mae hyn wedi cyfateb i arbed 7 tonnell o allyriadau carbon.
- Mae gwaith Well Fed i fynd i'r afael â thlodi bwyd a darparu loceri arloesol sy'n sicrhau bod teuluoedd mewn angen yn gallu bwyta'n iach, wedi arwain at 50% o'u mewnbyn pŵer nawr yn dod o ynni solar - mae hyn yn arwyddocaol i fusnes bwyd.
- Mae'r rhaglen Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi arwain at gynnydd o 20% yn y defnydd o dir i dyfu llysiau yng Nghymru, tra bod gweddill y DU wedi gweld gostyngiad. Mae hyn wedi cyfrannu at arbedion carbon, cadwyni cyflenwi byrrach, enillion bioamrywiaeth a llai o ddibyniaeth ar fewnforion.
- Mae prydau Cymreig newydd sy'n garbon-gyfeillgar a maethlon wedi cael eu creu gan Gastell Howell, gan gynnwys saws tomato Cymreig newydd a pheli cig Cymreig ynghyd â byrgys hybrid sy'n cynnwys cig eidion o Gymru a madarch o Gymru. Roedd y prydau hyn yn aml yn cynnwys dewisiadau iach sy'n seiliedig ar blanhigion fel ffabys i gadw prisiau'n gystadleuol ar yr un pryd â sicrhau'r un maeth.
- Hefyd, comisiynodd Castell Howell NFU Energy i gynnal archwiliad carbon, a oedd yn tanlinellu'r anhawster a'r gost mewn perthynas â chwblhau Dadansoddiad Cylch Bywyd llawn ar draws holl gyflenwyr fferm Castell Howell / Celtica. Un o ganlyniadau'r prosiectau yw'r ddeialog barhaus ar leihau'r effaith amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi - mae arweinwyr y prosiect yn parhau i drafod â phartneriaid yn y diwydiant, fel Hybu Cig Cymru a byddant yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i sefydlu gwir effaith cadwyni cyflenwi ar garbon.
- Drwy grŵp prosiect BLFF, gweithiodd Castell Howell gyda BIC Innovation i bennu effaith amgylcheddol y brocoli organig yn erbyn brocoli wedi'i rewi confensiynol. Mae'r asesiad cylch bywyd gan Brifysgol Abertawe yn dangos y gallai'r brocoli organig gael 66-83% yn llai o allyriadau carbon oherwydd dileu pellteroedd cludo mawr ac effaith cynhyrchu is.
- Dangosodd treialon ffermio fertigol a gynhaliwyd gan brosiect Tech Tyfu Menter Môn fod llai o ddŵr yn cael ei ddefnyddio a bod cadwyni cyflenwi yn fyrrach.

- Mae prosiect Awr Fwyd Cyngor Caerdydd wedi ffurfio partneriaeth â Maint Cymru i ymgorffori hyfforddiant staff ar gynaliadwyedd a datgoedwigo mewn Sgiliau Maeth am oes. Buont hefyd yn cynnal Sesiynau Tymhorol a oedd yn cyfuno gweithgareddau o bedair egwyddor Awr Fwyd: Addysg Maetheg, Coginio, Cynaliadwyedd a Thyfu, y cafodd y plant fwynhad mawr ohonynt.
- Mae 24,000 o goed ychwanegol o wahanol fathau wedi cael eu plannu ar safle Fferm Wern drwy'r prosiect Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol.

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Lansiodd Cwmpas lyfr patrwm sero net TAYC, a gymeradwywyd gan 25 o landlordiaid cymdeithasol, gyda dros 400 o gartrefi'n cael eu datblygu. Roedd hyn yn dilyn cynllun gweithredu "Gallu Gwneud" a oedd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan helpu i gyflymu'r gwaith o ddatblygu tai Sero Net.
- Mae NetRet Group wedi cefnogi 20 o gontractwyr i ennill achrediad Cynllun Ardystio Microgynhyrchu ac mae hefyd yn cynnal cynllun tebyg er mwyn i 20 o gontractwyr gael achrediad PAS 2030. Mae prinder contractwyr yng Nghymru sydd â'r achrediadau hyn, felly mae'r gwaith hwn wedi helpu i gefnogi'r Cynllun ôl-osod er mwyn Optimeiddio, sy'n aml yn golygu ei bod hi'n anodd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddod o hyd i gontractwyr sydd â chymwysterau addas i gyflawni gwaith.
- Mae Cyfle wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth carbon isel a llythrennedd carbon drwy hyrwyddo ynni adnewyddadwy, technolegau gwyrdd, a dealltwriaeth ddyfnach o sero net, ei arwyddocâd, a strategaethau ymarferol ar gyfer ei gyflawni.
- Mae prosiect Cyflawni Sero Net Wood Knowledge Wales wedi arwain at gydweithio rhwng 23 o landlordiaid cymdeithasol i gynhyrchu dyluniadau tai safonol ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi a adeiledir. Bydd y cartrefi'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio pren, mwy a mwy o bren o Gymru a chadwyn gyflenwi fer, gref a chynaliadwy. Bydd hyn yn arwain at well mynediad i ddinasyddion at nwyddau a gwasanaethau FoEc fforddiadwy o ansawdd da, yn enwedig cartrefi fforddiadwy sydd â charbon corfforedig isel a llai o angen am wres.
- Nododd SimplyDo 156 o sefydliadau yng Nghymru ar gyfer uwchraddio tai drwy ôl-osod yng Nghaerffili er mwyn lleihau ôl troed carbon tai. Mae hyn yn darparu manteision amgylcheddol gydag adnoddau gwresogi ac ynni adnewyddadwy mwy carbon-ffeithlon wedi'u gwreiddio yn y sector tai am y degawdau dilynol.

16. A ellid ehangu'r prosiectau ac, os felly, sut?

Mae'n ysbrydoledig gweld bod bron pob un o'r prosiectau naill ai'n ehangu'n barod neu'n awyddus i wneud hynny a bod pob un ohonynt yn dangos gwir agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd wrth ddatblygu'r gwaith ymhellach:-

- Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin eu bod eisoes yn dechrau'r broses ehangu ar gyfer Sir Gaerfyrddin (yn aros am gyllid) dros 3 blynedd ar gyfer pob ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin, gan anelu at 2.1m o brydau bwyd bob blwyddyn. Maen nhw'n

dweud y gellid defnyddio'r dull 'Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol' gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru, drwy'r partneriaethau cywir.

- Mae Well Fed yn ehangu ac yn buddsoddi yn eu busnes, gan ganolbwyntio ar fasnacheiddio pob un o'r tri gwasanaeth a ariennir - gwerthu, loceri a solar (mae rhagor o fanylion yn yr adran 'Edrych i'r Dyfodol' isod).
- Dywedodd Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion fod cyllid FoEc wedi cyfrannu at eu galluogi i sicrhau cynnydd ac ennill cefnogaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid. Maen nhw eisoes yn ehangu gyda rhagolygon 2025 yn cynnwys 15 o dyfwyr, 60 tonnall o lysiau, 13 awdurdod lleol ac 1 miliwn dogn o lysiau. Eu cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bod 25% o'r holl lysiau sy'n mynd i ysgolion yng Nghymru yn lleol ac yn organig erbyn 2030. Yn bwysig, maent yn tynnu sylw at yr angen am fuddsoddiad sylweddol mewn seilwaith, systemau a chydabyddiaeth o fuddsoddi yn ein cadwyni cyflenwi nawr i sicrhau cyflenwadau yn y dyfodol, oherwydd ein bod yn agored i newid yn yr hinsawdd ac ansefydlogrwydd byd-eang. Dywedodd arweinydd y prosiect, *"Mae'n teimlo bod Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi creu momentwm unigryw ac mae'n gyfle i dyfu'r sector garddwriaeth organig yng Nghymru, ac mae angen i ni fanteisio ar hynny nawr."*
- Mae Pecyn Cymorth newydd y Gymdeithas Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar gyfer Tyfwyr wedi cynghori y gellid symud yr adnodd cyfathrebu /cronfa ddata i'r Rhwydwaith Bwyd Agored fel darn o feddalwedd didrwydded y gallai prynwyr ei ddefnyddio i helpu i reoli nifer o dyfwyr ar raddfa fach sy'n bwydo i mewn i un contract mwy.
- Dywedodd BIC Innovation y gellir treialu Mynegai Bwyd Cymru (WFI), ac yna ei gyflwyno i wahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus, ond mae angen cyllid ar gyfer hyn.
- Dywedodd Cookalong Clwb y gallent ehangu gydag ymrwymiad ariannol i alluogi pob ysgol, grŵp ac elusen i elwa o hyder yn y gegin a gwybodaeth am fwyd.
- Dywedodd Menter Môn, ar gyfer eu prosiect Tech Tyfu, y byddai'n wych gweithio mewn partneriaeth â thyfwr/ffermwr i dreialu system ffermio fertigol ar raddfa fwy sy'n cael ei phweru gan ynni adnewyddadwy er mwyn lleihau'r costau rhedeg a chynyddu ymarferoldeb tyfu cynnyrch dan do i'w ddefnyddio yn y sector cyhoeddus.
- Mae'n braf gweld bod prosiect Larder Cymru Menter Môn eisoes wedi cael ei ehangu gyda pharhad prosiect Larder Cymru a mwy o bresenoldeb yng Nghymru yn sioe fasnach 2025 Cymdeithas Arlwyd Awdurdodau Lleol (LACA), a oedd yn arddangos amrywiaeth o fwyd o Gymru ar gyfer prydau ysgol.
- Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi dweud bod y Bartneriaeth arloesol sy'n ymwneud â chyhoeddi canllawiau cynllunio newydd ar gyfer tyfwyr eisoes yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys, Awdurdodau Lleol eraill ac Is-adrannau Bwyd a Chynllunio Llywodraeth Cymru ar ddatblygu, dyblygu ac ehangu'r achos prawf a defnyddio'r canllawiau'n ehangach.
- Bydd Mentera yn annog busnesau Bwyd eraill heb eu hachredu i gael achrediad ac mae'n tynnu sylw at fanteision y dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er ei fod yn cydnabod y bydd angen cyllid ar gynllun grant arall. Gan weithio mewn partneriaeth ag Arloesi Bwyd Cymru, mae'n braf clywed bod Mentera yn gweld cynnydd yn nifer y busnesau sy'n paratoi ac yn gwneud cais am achrediad, ac mae'r prosiect FoEc hwn wedi cyfrannu at hyn.

- Nododd Cyngor Caerdydd, drwy ymgysylltu â phartneriaethau, y cafwyd gwaith ychwanegol ar 'Oriau Bwyd' ar gyfer y tîm dietegol ehangach gyda Chanolfan Blant Trelái a Chaerau; maent yn awyddus i uwchsgilio staff a defnyddio arbenigedd dietegol ac o bosibl y fframwaith Awr Fwyd, i ymgorffori negeseuon maethol allweddol yn eu darpariaethau. Mae cysylltiadau hefyd wedi'u sefydlu gydag ysgolion eraill yn y clwstwr fel Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, a fyddai'n awyddus i gymryd rhan pe bai'r 'Oriau Bwyd' yn ymgorffori darpariaeth ysgolion uwchradd, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion eglwysig clwstwr hefyd wedi holi am gyfranogiad posibl gydag 'Oriau Bwyd'.
- Mae PLANED yn edrych ar sut gall eu peiriannau gwerthu fod yn fwy cynaliadwy, er enghraifft, a allai'r peiriannau presennol neu rai'r dyfodol gael eu rhedeg ar bŵer solar. Mae un arall yn edrych ar ddefnyddio blychau llysiau a ffrwythau y gellir eu dychwelyd/aildefnyddio i leihau deunydd pacio plastig/untro.

Prosiectau tai:-

- Dywedodd Cyfle y byddai'n bosibl ehangu'r rhaglen, gan ei bod yn amlwg bod galw enfawr gan gyfranogwyr sydd â diddordeb yn y rhaglen, ond dim ond 120 y gallem eu cynnwys. I'w ystyried y tro nesaf, gallent wneud cais am contract mwy.
- Dywedodd Cwmpas fod hyn eisoes yn digwydd ac y byddai adnoddau cymharol fach ychwanegol i gefnogi hwyluso gweithredol yn 'iro'r olwynion' ac yn cyflymu ac yn cynyddu'r cynnydd.
- Mae Wood Knowledge Wales wedi dweud eu bod, wrth i'r aelodaeth gynyddu, yn edrych ar ymarferoldeb rhagor o gymunedau ymarfer er mwyn i bob math o aelodau allu dod at ei gilydd yn eu grŵp cymheiriaid, fel gweithgynhyrchwyr cynnyrch adeiladu a phroseswyr graddfa ganolig.
- Mae SimplyDo wedi nodi bod gan eu gwaith y potensial i gael ei ehangu i ddiwydiannau economi sylfaenol eraill ac achosion defnydd ym maes gofal iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a gofal cymdeithasol. Er mwyn gwireddu'r dull hwn, efallai y bydd angen cyflwyno'r rhaglen gyda phartneriaid allweddol yn niwydiant yr economi sylfaenol yng Nghymru (neu sy'n gwasanaethu Cymru) i ddatblygu modelau arferion gorau cyn ehangu'r dulliau arloesol hyn o leoleiddio cadwyni cyflenwi ar draws yr economi.

Prosiect Arloesi:-

- Mae Met Caerdydd wedi adrodd bod 61% o gyfranogwyr yr arolwg gadael wedi gofyn am help i sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi cynlluniau arloesi a cheisiadau am adnoddau, gan awgrymu y byddai camau dilynol prosiect FEIN yn cael eu croesawu gan gyfranogwyr
- Gallai ymchwil bellach archwilio sut mae rolau yng nghymuned ymarfer FEIN wedi esblygu y tu hwnt i oes y rhaglen. Mae'r gyfres o weithdai cymorth, datblygu portffolios a dyddiaduron myfyriol, ysgrifennu cynlluniau arloesi, a'r cynadleddau rhanbarthol terfynol i gyd wedi galluogi cyfranogwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ymgorffori ymarfer myfyriol mewn rhwydweithiau estynedig yn y gweithle.
- Mae hyn i gyd yn tynnu sylw at fanteision posibl ymgysylltu a buddsoddi ar ôl y rhaglen. Efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol ar gyfranogwyr yn

ystod y misoedd canlynol i gwblhau a lledaenu eu cynlluniau arloesi a sicrhau adnoddau ychwanegol.

17. Edrych i'r Dyfodol

Mae'n braf gweld bod llawer o'r prosiectau wedi sicrhau cyllid ychwanegol neu wedi esblygu'n rhaglenni hirdymor, gyda chynlluniau i gynyddu gweithrediadau, dyfnhau ymgysylltiad cymunedol a pharhau i gyfrannu at uchelgeisiau Economi Sylfaenol a Sero Net Cymru. Mae'r gweithgarwch presennol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:-

Prosiectau bwyd:-

- Mae Well Fed wedi dweud eu bod yn cynyddu'r Peiriannau Gwerthu - Bydd darpar gwsmeriaid corfforaethol/cyhoeddus yn cael eu gwahodd i'r ystafell arddangos i brofi'r offer. Byddant wedyn yn gweithio gyda nhw i gytuno ar delerau a'u gosod yn eu hadeiladau. Byddant wedyn yn cynnig gwasanaeth bwyd/prydau gan ddefnyddio system archebu ar ap a gwasanaeth dosbarthu bwyd ffres. Maent yn targedu gwerthu/prydlesu 10 system o fewn y flwyddyn 1af. Mae ganddynt drefniant gyda chwmni Prydlesu i gefnogi'r gwaith cyflwyno.
- Loceri - Bydd y Locer cyntaf yn cael ei osod wrth ymyl adeilad eu cegin gynhyrchu i wasanaethu'r gymuned leol. Mae'r lleoliadau eraill yn cael eu dewis drwy ymgynghori â phartneriaid cymunedol. Bydd yr ail leoliad wrth ymyl Eglwys Gadeiriol Llanelwy o ganlyniad i ddatblygu partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru - daw yn weithredol ym mis Tachwedd 2025. Mae'n debygol y bydd y trydydd yn cael ei osod mewn parc busnes lleol lle nad oes bwyd yn cael ei ddarparu a nifer o gyfleusterau canolfannau galwadau (felly nifer uchel o staff heb opsiynau siopa)
- Solar - Mae bellach yn weithredol a bydd yn gweithredu ar gapasiti llawn ar ôl cael ei dderbyn ar y Grid Cenedlaethol - disgwylir y caniatadau ym mis Gorffennaf 2024. Mae hyn wedi lleihau allbwn cyfleustodau presennol 50% - felly mae'n bwysig iawn er mwyn masnacheiddio'r holl wasanaethau.
- Mae Menter Môn yn treialu bariau salad math bwyd stryd mewn ysgolion uwchradd, gan ddefnyddio llysiau tymhorol sy'n cael eu tyfu'n lleol ar sail dulliau tebyg ym Malmo. Hefyd, cefnogir cadwyni cyflenwi bwyd gyda'r Rheoliadau Bwyta'n Iach newydd i nodi cyfleoedd ar gyfer ailffurfio cynnyrch a datblygu cynnyrch newydd.
- Mae prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn cael ei ehangu i gynnwys Gogledd Cymru a bydd yn cynnwys mwy o dyfwyr / cyfanwerthwyr, mwy o lysiau a mwy o Awdurdodau Lleol. Nod Synnwyr Bwyd Cymru, sy'n arwain y prosiect gyda phartneriaid Castell Howell a Lantra, yw ehangu ymhellach yn ystod y blynyddoedd nesaf i ddod i ddod o hyd i 60 tunnell o lysiau Cymreig i gynhyrchu 1 miliwn dogn o lysiau ar gyfer prydau ysgol, gan ymgysylltu â 15 o dyfwyr a 12 Awdurdod Lleol ledled Cymru. Eu cenhadaeth gyffredinol yw sicrhau bod 25% o'r holl lysiau sy'n mynd i ysgolion Cymru yn lleol ac yn organig erbyn 2030.
- Mae BIC Innovation yn gobeithio parhau i dreialu a phrofi Mynegai Bwyd Cymru (yn dibynnu ar gyllid) er mwyn gallu ei gyflwyno i wahanol sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

- Mae canllawiau cynllunio newydd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn cael eu rhoi ar waith mewn dau leoliad. Yng Ngogledd Powys (safle sy'n eiddo i Awdurdod Lleol) mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Powys a Chymdeithas Dai i benderfynu sut y gallant fanteisio i'r eithaf ar y tir drwy ddefnydd cymysg o dai, cyflogaeth a thyfu. Mae tir preifat wedi'i sicrhau ar safle De Powys, yn awdurdod parc Bannau Brycheiniog ac maent yn awr yn chwilio am bartneriaid ar y safle i wneud y gwaith o ddatblygu'r fenter wledig. Yn dilyn eu cyllid FoEc cychwynnol, mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gallu dod o hyd i gyllid ychwanegol i gefnogi'r prosiect Ffermydd y Dyfodol ymhellach. Maent yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Canllawiau ledled Cymru.
- Bydd Cookalong Clwb yn cynyddu ei waith gyda theuluoedd incwm isel ac yn lansio ymgyrchoedd newydd ar fwyd cynaliadwy, gan gynnwys eu mentrau corn-bîff newydd gyda myfyrwyr ysgolion cynradd yn Sir Fynwy.
- Mae PLANED yn ymchwilio i beiriannau gwerthu ynni solar a phecynnu y gellir ei aildefnyddio i wella cynaliadwyedd a lleihau carbon eu peiriannau gwerthu cymunedol 24/7 ymhellach

Prosiectau tai/adeiladu:-

- Mae Woodknowledge Wales yn bwriadu ehangu eu rhwydweithiau Cymuned Ymarfer i gefnogi'r sectorau tai a phren, gan gyflwyno Cymunedau Ymarfer newydd ar gyfer Coedwigaeth a Defnydd Tir a Chontractwyr.
- Mae SimplyDo wedi dysgu o'u gwaith ar Dai Cymdeithasol ac maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â Trafnidiaeth Cymru i ddatgarboneiddio trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru.
- Mae NetRet Group Ltd wedi cael rhagor o gyllid gan dîm yr Economi Sylfaenol i gynnig Rhaglen Aelodaeth Adnewyddadwy a fydd yn cefnogi contractwyr yng Nghymru i ennill achrediad Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) neu ardystiad Flexi Orb. Bydd y rhaglen hon yn cryfhau cadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy Cymru, yn cefnogi creu swyddi ac yn hyrwyddo amcanion sero net Llywodraeth Cymru.
- Bydd Cyfle a NetRet yn parhau i ehangu eu rhaglenni hyfforddi ac ardystio carbon isel, gan greu gweithlu medrus sy'n cyd-fynd â nodau Sero Net Cymru.

18. Dyfyniadau gan arweinwyr prosiectau:-

Mae grantiau FoEc a'u gwaddol wedi cael effaith sylweddol o ran helpu i hwyluso newid, gan adael gwaddol sydd wedi parhau ar ôl i'r prosiectau ddod i ben. Mae'r dyfyniadau canlynol gan arweinwyr prosiectau yn dangos gwerth ein buddsoddiad yn yr Economi Sylfaenol:

“Roedd grantiau FoEc yn gatalydd gwirioneddol ar gyfer cydweithio ac arloesi. Roeddent yn caniatáu i gymunedau, sefydliadau a busnesau lleol brofi syniadau newydd yn hyderus, gan greu momentwm a oedd yn parhau ymhell y tu hwnt i gyfnod ffurfiol y prosiect. Mae'r gwaddol yn fwy na dim ond yn yr hyn a gyflawnwyd, mae i'w weld yn y rhwydweithiau cryfach, mwy cysylltiedig sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i hynny.”

“Mae'r cyllid wedi ein galluogi i ddatblygu adnodd cynhwysfawr a chadarn a fyddai'n helpu timau caffael ar draws y rhanbarth i brynu mwy o fwyd o Gymru yn fwy effeithiol.”

“Roedd y cymorth ariannol a ddarparwyd gan grant FoEc yn galluogi cwmnïau bwyd a diod i ennill achrediad a gydnabyddir gan y diwydiant a oedd yn caniatáu mynediad at farchnadoedd a chwsmeriaid. Roedd hyn yn golygu bod swyddi'n cael eu sicrhau a'u creu. Mae'r prosiect felly wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at gryfhau gwydnwch y sector ac agor mynediad i farchnadoedd newydd.”

“Roedd grantiau FoEc yn allweddol nid yn unig i gefnogi Castell Howell yn ariannol, ond hefyd i hwyluso deialog a dysgu ar y cyd ar draws pob prosiect. Wrth i'n prosiectau ddatblygu ac esblygu, roedd bod yn hyblyg ac yn addasol yn hanfodol, ac roedd y FoEc yn cydnabod hyn ac yn gefnogol. Helpodd y grantiau i sbarduno'r newid cadarnhaol sydd ei angen, gyda'r gwaddol yn parhau wrth i'r prosiectau barhau i esblygu. Serch hynny, er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau'n llawn, mae angen rhaglen hirdymor o gymorth a phartneriaeth wedi'u targedu, o'r fferm i'r gegin a thu hwnt. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y gall hyn ddatblygu”

“Roedd cyllid FoEc yn amhrisiadwy o ran galluogi dull caffael seiliedig ar leoedd SimplyDo, a arloeswyd yn llwyddiannus yn y sector tai cymdeithasol drwy grant FoEc, i gael ei fabwysiadu drwy ein gwaith gyda sectorau allweddol eraill yn yr economi sylfaenol gan gynnwys trafndiaeth, gofal iechyd ac amddiffyn. Arweiniodd y mewnwleidiadau a gafwyd o'r gwaith dylanwadol hwn at brosiect arloesi ar wahân gyda Chyngor Caerffili o'r enw "Chwilio Lleol" sydd newydd ennill dwy wobr yng Ngwobrau Caffael Cyfleoedd Cymru y Llywodraeth. Mae'r prosiect hwn yn creu galluoedd digidol a fydd yn helpu timau caffael y sector cyhoeddus i adnabod ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â busnesau lleol sydd fel arfer yn anodd dod o hyd iddynt ac yn anodd eu cyrraedd (gan gyd-fynd â Deddf Caffael 2023).”

“Mae grant yr Economi Sylfaenol yn caniatáu i ni fynd â busnesau bach a chanolig Cymru o'r cam diddordeb i fod yn barod am archwiliad ar gyfer PAS 2030, ardystiad gorfodol i osodwyr yn y sector ôl-osod a ariennir. Drwy gynefino digidol, adolygiadau cyn-archwilio, a hyfforddiant ymarferol, cyrhaeddodd cwmnïau barodrwydd PAS 2030 a mabwysiadu diwylliant o ansawdd yn gyntaf. Maen nhw bellach yn tyfu gydag ardystiad, yn meithrin gallu lleol yng Nghymru, ac yn cyflawni gwaith sydd o fudd mawr i berchnogion tai yn y dyfodol.”

“Mae'r grant wedi newid popeth, gan ein galluogi i ddatblygu partneriaethau cryf gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ledled Cymru. Mae grymuso ein plant gyda hyder yn y gegin yn newid bywydau, yn newid bywydau pob un ohonom!!!! Cafodd yr ymgyrch Rhowch Gynnig ar Ffacybys gyda Maint Cymru ei galluogi gan y grant hwn, gan newid dyfodol prydu ysgol yn Sir Fynwy am byth, gyda phlant ar flaen y gad yn y newid hwnnw, fel y rhai sy'n creu newid!”

“Mae grant yr Economi Sylfaenol, a gefnogodd gyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc, wedi galluogi Cyfle i ehangu'r cynllun ar draws y Rhanbarth, gyda chefnogaeth Cleientiaid, Colegau a Chontractwyr Busnesau Bach a Chanolig”

“Roedd y cyllid wedi galluogi CEIC i ddatblygu galluoedd arloesi busnesau bach a chanolig yn yr economi sylfaenol.”

“Mae Cronfa'r Economi Sylfaenol wedi bod yn ganolog i ddatblygiadau yn Sir Gaerfyrddin dros nifer o flynyddoedd. Mae'r hyblygrwydd a'r ddealltwriaeth o arloesi wedi ein galluogi i symud o gamau dichonoldeb i gamau gweithredu y gellir eu hehangu o fewn cyfnod cymharol fyr, gan sicrhau'r effeithiau gorau posibl a dysgu ar y cyd i Gymru.”

“Mae'r Gymdeithas Ymddiriedolaeth Ddatblygu bellach yn cynnal blwch offer ac amrywiaeth o adnoddau ar ein gwefan DTA, i helpu tyfwyr llysiau a ffrwythau ar raddfa fach i lywio'r byd caffael. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am safonau achredu, cyllid, cynllunio a chyfleoedd i gydweithio, yn ogystal â chanllawiau ar y ddeddfwriaeth gaffael newydd. Buom yn gweithio'n agos gyda'r prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn ystod y gwaith datblygu i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn ystyrlon ac wedi'u profi. Mae'n wych ein bod ni'n gallu gwneud ein rhan i gefnogi'r garfan honno o dyfwyr i greu cadwyni cyflenwi newydd, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd ein hadnoddau'n gallu cefnogi llawer mwy o dyfwyr yn y dyfodol.”

“Mae Cyllid Grant yr Economi Sylfaenol wedi ein galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i brydau ysgol am ddim i bawb ar gyfer plant ysgolion cynradd. Rydym hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus tîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru, sydd wedi galluogi'r prosiect i symud ymlaen y tu hwnt i'w gyfnod cyllido cychwynnol a pharhau i wella ansawdd prydau ysgol gynradd ledled Cymru.”

19. Casgliad

I grynhoi, mae prosiectau'r Economi Sylfaenol wedi dangos eu heffaith drwy'r adroddiad hwn a sut maen nhw wedi helpu i gryfhau'r sectorau Bwyd, Tai ac Adeiladu, yn ogystal â hybu arloesedd ymysg busnesau yng Nghymru. Mae manteision canlyniadol hefyd, gyda defnyddwyr yn gallu cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau FoEc gwell sy'n helpu i wella llesiant e.e. cartrefi cynhesach, bwyd mwy maethlon.

Mae'r prosiectau wedi dangos pa mor effeithiol y gall ymyriadau economaidd a chadwyn gyflenwi wedi'u targedu fod, yn enwedig o'u cyfuno â nodau newid yn yr hinsawdd ac maent yn dangos faint yn union y gellir ei gyflawni, heb fawr o gyllid, drwy ddulliau arloesol a chydweithio.

Tynnwyd sylw at natur drawsbynciol y FoEc a'i berthnasedd i nifer o bortffolios ar draws Llywodraeth Cymru drwy'r amrywiaeth eang o brosiectau. Mae'r gwaith ar gynyddu'r cyflenwad o fwyd lleol, maethlon a chynaliadwy i ysgolion wedi cyffwrdd ag ystod eang o adrannau gan gynnwys Addysg (tîm prydau ysgol am ddim), Bwyd a Ffermio, Iechyd a Thlodi. Mae'r gwaith i feithrin sgiliau gwyrdd a helpu i ddiogelu ôl-osod ac effeithlonrwydd ynni yn y sector tai at y dyfodol wedi cryfhau cysylltiadau â Thai, Sgiliau ac Adeiladu.

Mae'n braf iawn gweld bod llawer o'r prosiectau eisoes yn ehangu ac mae hyn yn dyst nid yn unig i'w llwyddiant hyd yma ond hefyd i angerdd, ymroddiad a gwaith caled arweinwyr y prosiectau dan sylw.

Mae'r adborth gan sefydliadau ar yr hyn a weithiodd yn dda, yr hyn na weithiodd yn dda, y gwersi a ddysgwyd a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol yn y dyfodol, yn cynnig gwersi amhrisiadwy o'r prosiectau a fydd, gobeithio, yn helpu i lunio prosiectau yn y dyfodol, yn

galluogi ehangu a lledaenu ymhellach neu'n ysbrydoli eraill i efelychu dulliau tebyg fel y gellir parhau i feithrin yr Economi Sylfaenol am genedlaethau i ddod.

**Prosiectau'r Economi Sylfaenol:
Rhestr o'r sefydliadau a'r prosiectau a gefnogwyd**

Prosiectau bwyd

(Os hoffech chi ddarllen mwy am y prosiect, cliciwch ar enw'r sefydliad i fynd i'r adran 'Manylion y prosiect a chanlyniadau cadarnhaol' yn Atodiad 2)

	Enw'r Sefydliad	Disgrifiad o'r Prosiect
1	BIC Innovation	Contract 3 blynedd i ddatblygu offer a dulliau gweithredu i gefnogi gwaith tîm FoEc i gynyddu faint o fwyd o Gymru sy'n cael ei weini mewn ysgolion ac ysbytai, gan gynnwys Mynegai Bwyd Cymru, i'w ddefnyddio yn y cam caffael, i sgorio 'Cymreictod' y cynnyrch sy'n cael ei gyflenwi.
2	Cyngor Caerdydd	Wedi sefydlu Awr Fwyd fel bod pob plentyn yn cael cyfle i dreulio (o leiaf) awr y dydd yn yr ysgol "gyda bwyd"; i rannu prydau maethlon, dysgu am fwyd a dysgu drwy fwyd. Un o'r prif nodau yw cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar UPFSM yn yr ysgolion peilot.
3	Cyngor Sir Caerfyrddin	Dull cyfannol o ddatblygu proses gydweithredol o ailgynllunio bwydlenni ysgolion ar gyfer 'Cenedlaethau'r Dyfodol' fel rhan o'r gwaith o gyflwyno UPFSM, gan ddefnyddio asedau lleol a rhanbarthol drwy ddull sy'n seiliedig ar leoedd a phartneriaethau.
4	Castell Howell	Esbllygu'r gadwyn gyflenwi llysiau yng Nghymru i gynyddu cynnyrch llysiau a thatws o Gymru mewn prydau ysgol drwy newid o gynnyrch wedi'i fewnforio. Datblygu sglodyn o Gymru sy'n gweithio gyda Puffin Produce. Archwilio sut i ymestyn oes cynnyrch tymhorol
5	Castell Howell / Celtica Foods	Datblygu amrywiaeth o gynnyrch cig a llysieuol newydd o Gymru i'w cyflenwi i'r sector cyhoeddus (naill ai ryseitiai platiau sylfaenol e.e. peli cig a kofkas o Gymru neu fel cynhwysion ar gyfer prydau aml-ddogn e.e. topins pizza, peli cig mewn saws), cynnal paneli blasu a gweithio gydag arlwywyr yn y sector cyhoeddus.
6	Cookalong Clwb	Grymuso plant ysgol, teuluoedd ac athrawon gyda sgiliau coginio gydol oes, siopa ar gyllideb a gwella iechyd meddwl a lles.
7	Cymdeithas Ymddiriedolaeth Ddatblygu Cymru	Datblygu 'pecyn cymorth' cydweithredol newydd o atebion ymarferol i dyfwyr fynd i'r afael â'r rhwystrau presennol i dyfwyr a hefyd cefnogi tri busnes i gynhyrchu mwy o arddwriaeth a dyfir yn lleol ar gyfer cyflenwi'r sector cyhoeddus, drwy gyfanwerthwyr a hybiau caffael bwyd; darparu pecynnau amrywiol o gymorth busnes ac uwchsgilio.

8	Synnwyr Bwyd Cymru	Prosiect 'Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion' i dyfu/cyflenwi llysiau organig a chynaliadwy i ysgolion yn hytrach na dibynnu ar fewnforion wedi'u rhewi (parhad cam 1 y 'Peilot Courgette', ond bydd y cam 2 hwn yn cynnwys mwy o lysiau a mwy o ALLau). Profi'r cynllun buddsoddi yn y Gadwyn Gyflenwi Gynaliadwy. Ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymchwil ar gyfer cynllun peilot yng Ngogledd Cymru ar gyfer Bwyd a Hwyl/tymor tyfu 2024.
9	Menter Môn	Prosiect ffermio fertigol Tech Tyfu i ddarparu cymorth i bum busnes bach a chanolig eu maint, sy'n ceisio cyflenwi microlysiau gwyrdd a llysiau yn uniongyrchol i gyfanwerthwyr ar gyfer contractau caffael cyhoeddus ar raddfa fawr.
10	Menter Môn	Prosiect Larder Cymru - Cynyddu bwyd o Gymru ar fwydlenni ysgolion. Bydd Larder Cymru yn gweithio gyda 6 awdurdod lleol ledled Cymru a chyfanwerthwyr / cynhyrchwyr cysylltiedig i adolygu'r fframweithiau cyflenwi bwyd presennol a'r ddarpariaeth bwydlenni i ddatblygu bwydlen newydd sy'n cynnwys mwy o gynnyrch o Gymru a chyflenwyr o Gymru.
11	Mentera	Cynllun grant achredu hylendid bwyd - sy'n talu costau Micron2 a Salsa i fusnesau bwyd bach a chanolig yng Nghymru (sy'n aml yn gallu bod yn rhwystr i gwmnïau bwyd bach rhag ymuno â marchnad fwyd y sector cyhoeddus) a helpu i wella sylfaen gyflenwi Cymru.
12	Cyngor Sir Fynwy	Cegin Ddatblygu ar gyfer pryd ar glud i bobl hŷn/agored i niwed yn y rhanbarth - ail-ddatblygu gwasanaeth i gynnwys bwyd o Gymru, lleihau CO2 a chynnig mwy o ddewis i gwsmeriaid. <i>Sylwch nad oedd modd cwblhau'r prosiect hwn yn ôl y bwriad ac nad oedd wedi darparu'r manylion y gofynnwyd amdanynt er mwyn gallu ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.</i>
13	PLANED	Sefydlu dosbarthiad bwyd lleol dan arweiniad y gymuned yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, gan sefydlu a hyrwyddo cyflenwyr, cynhyrchwyr a thyfwyr lleol. Peiriannau gwerthu bwyd ffres i'w lleoli mewn mannau heb fynediad agos at siop neu ddarpariaeth adwerthu bwyd a diod arall.
14	Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol	Datblygu polisi a chanllawiau cynllunio atodol i hwyluso trosglwyddo tir cyhoeddus yn llyfnach i stiwardiaeth gymunedol ar gyfer cynhyrchu bwyd lleol ym Mhowys.
15	Well Fed	'Loceri prydau' arloesol dull Amazon i fynd i'r afael â thlodi bwyd/ansicrwydd bwyd mewn cymunedau a'r sector cyhoeddus. Tynnu bwyd sydd wedi'i brosesu'n helaeth oddi ar fwydlenni a phlastig o weithrediadau gwerthu. Uwchraddio dulliau cynhyrchiant i gynhyrchu mwy o brydau bwyd; gwella cerbydau; rhoi hwb i dimau datblygu.

Prosiectau Tai/Adeiladu

(Os hoffech chi ddarllen mwy am y prosiectau, cliciwch ar enw'r sefydliad i fynd i'r adran 'Manylion y prosiect a chanlyniadau cadarnhaol' yn Atodiad 2)

16	Cwmpas	Rhoi adnoddau uniongyrchol a hyblyg yn y bwch gweithredu sero net i gael gwared ar rwystrau rhag cynnydd a sefydlu ateb ymarferol a chynaliadwy i gyflawni.
17	Cyfle	Helpu i greu llif o dalent sgiliau gwyrdd yn y dyfodol - annog a hyrwyddo cyfleoedd technoleg werdd newydd i gyflogwyr trydanol a phlymio ddarparu gweithgareddau Profiad Gwaith Carbon Isel/Sero Net i bobl ifanc ar draws Rhanbarth De-orllewin Cymru.
18	NetRet Group	Darparu ardystiad PAS 2030:2023 i 20 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan ddarparu cymorth llawn drwy gynefino digidol, cymorth cyn archwilio, a'r broses archwilio i roi hwb i'r gadwyn gyflenwi ôl-osod yng Nghymru.
19	Simply Do	Adeiladu ar y cynllun peilot recriwtio llwyddiannus blaenorol ar gyfer cyflenwyr gyda Thai Caredig a darparu arloesedd tai cymdeithasol ledled Cymru, gan dyfu busnesau/cyflenwyr dan berchnogaeth leol yn y sector tai yng Nghymru a sicrhau bod darparwyr tai cymdeithasol yn gallu bodloni'r gofynion cynyddol a achosir gan yr heriau economaidd-gymdeithasol parhaus yng Nghymru.
20	Wood Knowledge Wales	Hwyluso cydweithio yn y sector Tai, gan ddod â landlordiaid, penseiri, cynhyrchwyr pren a gweithgynhyrchwyr at ei gilydd i gytuno ar ddulliau o ymgysylltu â dyluniad safonol ar gyfer adeiladu cartrefi. Bydd y cartrefi'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio pren, mwy a mwy o bren o Gymru a chadwyn gyflenwi fer, gref a chynaliadwy.

Prosiect arloesi

(Os hoffech chi ddarllen mwy am y prosiectau, cliciwch ar enw'r sefydliad i fynd i'r adran 'Manylion y prosiect a chanlyniadau cadarnhaol' yn Atodiad 2)

21	Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Sefydlu Rhwydweithiau Arloesi FoEc newydd yng Nghaerdydd ac Abertawe i ddatblygu busnesau bach a chanolig lleol. Gwella eu gallu i dendro am gontractau sector cyhoeddus a gwella cysylltiadau cydweithredol strategol rhwng busnesau bach a chanolig a rhanddeiliaid sector cyhoeddus rhanbarthol. Creu ecosystem FoEc yn ne Cymru.
----	---	--

Canlyniadau cadarnhaol mewn sectorau FoEc allweddol

Bwyd

Mae bwyd yn sector hanfodol yn yr Economi Sylfaenol (FoEc) yng Nghymru a dyma'r sector mwyaf yn ôl nifer y busnesau (gan gynnwys adwerthu), gyda 18,190 o fusnesau, sef 28% o'r FoEc a 17% o'r holl fusnesau. Y sector bwyd hefyd sy'n cynhyrchu'r trosiant mwyaf yn y FoEc, sef £21,721bn.

Mae gwariant blynyddol y sector cyhoeddus ar fwyd yng Nghymru yn tua £85m (Brookdale 2022), mae 58% o hynny gyda chwmnïau o Gymru ac mae tua 23% ar fwyd o darddiad Cymreig. Mae Strategaeth Fwyd Gymunedol newydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys uchelgais i gynyddu hynny i 35% erbyn 2030.

Nod prosiectau bwyd FoEc yw cynyddu'r ffigur o 23% - tyfu cynhyrchu bwyd a garddwriaeth leol, byrhau cadwyni cyflenwi a chynyddu dulliau arloesol drwy feithrin cysylltiadau cryfach ac agosach rhwng tyfwyr, cyfanwerthwyr a'r sector cyhoeddus. Dyma rai o ganlyniadau cadarnhaol y prosiectau bwyd:-

- Gwell mynediad at farchnadoedd sector cyhoeddus i 52 o sefydliadau bwyd, drwy'r cynllun grant achredu bwyd sy'n cael ei redeg gan Mentera, gan helpu i gadw 1119 o swyddi a galluogi twf a chynaliadwyedd tymor hir.
- Prosiect Tech Tyfu, sy'n cefnogi cwmnïau yng Nghymru gyda ffermio fertigol, gan alluogi cwmnïau bach i fanteisio ar gyflenwad o gnydau salad a microlysiau gwyrdd yn y sector cyhoeddus a phreifat. Treialodd Snowdon Valley Farm ddyfais sy'n gallu dadelfennu halltedd dŵr i'w gwneud yn haws i blanhigion fel tomatos elwa o gael maeth, gan arwain at gynhyrchu cnydau mwy mewn treialon. Mae microlysiau Fresh & Tasty wedi ehangu eu busnes yn Abergele ac wedi dechrau cyflenwi microlysiau, cnydau salad a blodau bwyd i 6 sir ledled Gogledd Cymru, ac mae Fungi Foods wedi gallu cynhyrchu a dosbarthu 20,000 paced o fadarch Lions Mane i Aldi.
- Roedd Well Fed yng Ngogledd Cymru wedi arwain y gwaith o ddatblygu prydau arloesol gan ddefnyddio cynwysyddion gwrthstaen eatTAINABLE. Dylunio nhw fwydlen lawn (poeth ac oer) yn barod i'w chadw (bwyd diogel) mewn cynwysyddion gwrthstaen yn hytrach na'r plastig blaenorol. Roedd hyn yn golygu profion newydd ar gyfer gwres ac oes silff a phroffion cwsmeriaid. Maen nhw wedi cynllunio/treialu dros 50 o fathau o brydau bwyd o ganlyniad. Mae Well Fed hefyd wedi sefydlu partneriaid newydd yng Nghymru ac yn Rhyngwladol.
- Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi dangos y gallai cynnydd bach mewn cyllidebau prydau ysgol ddatgloi effaith economaidd leol sylweddol, creu swyddi,

ac enillion amgylcheddol. Mae dros 200,000 o ddogneau llysiau organig o Gymru wedi cael eu danfon i ysgolion mewn 7 Awdurdod Lleol, gan gefnogi tyfwyr yng Nghymru, gwella maeth i blant ac arwain at gynnydd o 20% yn y defnydd o dir i dyfu llysiau yng Nghymru, tra bod gweddill y DU wedi gweld gostyngiad. Cynhyrchodd hyn £34,333 o incwm i dyfwyr ac amcangyfrif o £127,034 mewn manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i Gymru.

- Mae Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion wedi dangos y byddai ychwanegu 3.3c y pryd y dydd at y pris a delir gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn caniatáu cynnwys 2 ddogn o lysiau organig lleol yn dymhorol a byddai'n cymell y manteision canlynol:-
 - Byddai 901 tunnell o lysiau a brynir yn darparu £2.21 miliwn yn uniongyrchol i gynhyrchwyr yng Nghymru gyda lluosydd o 3.7 i roi amcangyfrif o £8.2 miliwn mewn budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
 - £555,500 o fuddsoddiad mewn seilwaith sy'n arwain at fwy o gapasiti i gyflenwi a mwy o incwm cyfartalog i ffermydd yng Nghymru / mwy o wytnwch yn y gadwyn gyflenwi
 - 74.3 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar ffermydd yng Nghymru
 - 50 hectar o lysiau organig
 - Cynnydd o 35% mewn caeau adar
 - 226 tunnell o arbedion CO₂e
 - Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â risg uchel o brinder dŵr.
- Mae gwaith adolygu ac ail-ddylunio bwydlenni ysgolion gyda 6 Awdurdod Lleol, gan Larder Cymru, wedi bod yn effeithiol iawn. Roedd y cyntaf i'w gwblhau - Caerffili - bron wedi dyblu'r swm a wariwyd ar fwyd o Gymru, [Welsh council introduces school menu based on local produce - Farmers Guide](#). Gwnaethant hefyd gynnal arolwg gyda rhieni a ddangosodd fod 72% yn credu ei bod yn bwysig cael amrywiaeth o opsiynau bwyd Cymreig a/neu leol ar y fwydlen. Yn Wrecsam, arweiniodd ailgynllunio'r fwydlen at symud at gyfanwerthwr o Gymru, Harlech, o gyflenwr o Loegr. Mae'r bwydlenni yn Wrecsam bellach yn tynnu sylw at gynnyrch o Gymru i helpu i sbarduno'r cynnydd mewn prydau ysgol am ddim.
- Mae Castell Howell wedi creu cyfres newydd o brydau Cymreig i ysgolion sy'n defnyddio cig o Gymru a llysiau tymhorol o Gymru, fel eu peli cig oen gyda phrotein pys ychwanegol wedi'i ategu gan saws tomato Cymreig gyda sbigoglys Cymreig ychwanegol, ysgallddail a bresych deiliog, ynghyd â chaws blodfresych Cymreig a byrgyr Cymreig sy'n cynnwys cig eidion Cymreig a madarch. Roedd y rhain yn garbon-gyfeillgar, yn faethlon ac yn cynnwys llai o gig a dewisiadau amgen iachach seiliedig ar blanhigion, fel ffacbys, i gadw prisiau'n gystadleuol ar yr un pryd â sicrhau'r un maeth. Mae'r plant wedi bod yn rhan o'r gwaith o brofi'r blas a rhoi adborth.
- Mae'r prosiectau bwyd wedi arwain at Gastell Howell a Harlech Foodservice yn gweithio'n arloesol gyda thyfwyr a chynhyrchwyr lleol i gynyddu'n sylweddol y cyflenwad o gynnyrch o Gymru sy'n cael eu dosbarthu i ysgolion ac ysbytai. Mae

Castell Howell wedi adrodd bod gwariant ar fwyd o Gymru wedi cynyddu 173% rhwng 2021 a 2024. Mae Harlech Foodservice wedi nodi cynnydd o 90% rhwng 2021 a 2024 ar gyfer cig o Gymru, 120% ar gyfer llaeth o Gymru a 64% ar gyfer diodydd o Gymru mewn ysgolion.

- Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi datblygu canllawiau cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Powys sydd bellach ar gael fel adnodd ar-lein, yn dilyn cydweithio a phartneriaethau helaeth ac arloesol. Gweithiodd y prosiect gyda chanllawiau cynllunio newydd Cyngor Sir Powys, sydd ar gael fel adnodd ar-lein. Mae'r canllawiau cynllunio, o ganlyniad i fewnbwn gan ymgynghorwyr arbenigol a Grŵp Llywio Ffermydd y Dyfodol, yn gam enfawr ymlaen a chawsant eu profi wrth ystyried rhinweddau'r cais cynllunio ar safle tir Swyddfa'r Post yn Sarn, i'r dwyrain o'r Drenewydd, Powys - sef Fferm Wern erbyn hyn. Mae wedi cael ei gymeradwyo i'w ddefnyddio ym Mhowys ac awdurdod parc Bannau Brycheiniog (ac mae'n cael ei ddefnyddio ar safleoedd cyhoeddus a phreifat yng Ngogledd a De Powys yn y drefn honno) gydag Awdurdodau Lleol eraill yn awyddus i'w ddefnyddio.
- Cynhyrchodd 'Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol' Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ysgolion £34,000 i'r Economi Sylfaenol gyda sylfeini wedi'u gosod ar gyfer rhoi £40,000 arall yn uniongyrchol i weithrediadau fferm ar Fferm Bremenda Isaf a £1.4m bob blwyddyn i mewn i Amaethyddiaeth Sylfaenol (cynhyrchu bwyd). Hwn oedd model "Tir Cyhoeddus i Blât Cyhoeddus" cyntaf y DU, gan weini bwyd o'r Fferm Sirol i ysgolion lleol a chyflogi staff garddwriaethol yn uniongyrchol, yn ogystal â chefnogi 'Hyfforddiant Cynaliadwyedd Bwyd' ar gyfer Staff a Rheolwyr Arlwygo yn Sir Gaerfyrddin, gan arwain at newid meddylfryd staff arlwygo sydd bellach, gyda'r awdurdod lleol, yn rhannu pwrpas a chenhadaeth ar gyfer datblygu pellach.
- Mae dros 2,000 yn ymwneud ag addysg bwyd (teuluoedd, plant ysgol ac athrawon) drwy'r Cookalong Clwb, gan wella hyder yn y gegin. Datblygu prydau ysgol newydd sy'n cynnwys cynhwysion lleol wedi'u datblygu a'u mabwysiadu, gan gynnwys korma ffacbys wedi'i greu gan Cookalong Clwb a phlant Cyngor Sir Fynwy. Derbyniodd Angharad Underwood y Wobr Gymunedol Leol yng Ngwobrau Bwyd a Diod Cymru yn 2024 ac mae hefyd wedi cymhwyso fel Arbenigwr Maeth Cymunedol y GIG.
- Mae prosiect Awr Fwyd Caerdydd wedi ennill dwy wobwr - Gwobrau Rhagoriaeth LACA (Gwobr Goffa Nan Berger) a Foodservice Cateys - Arlwywr Addysg y Flwyddyn
- Partneriaethau newydd rhwng tyfwyr, ysgolion, awdurdodau lleol a chyfanwerthwyr sy'n galluogi mwy o gyflenwad o gynnyrch tymhorol o Gymru, addysg bwyd pellgyrhaeddol a newid mewn patrymau caffael bwyd.
- Cymunedau gwledig yng Ngorllewin Cymru yn cael mynediad 24/7 at gynnyrch ffres, lleol drwy beiriannau gwerthu cymunedol PLANED, gyda llai o ôl troed carbon drwy lai o bellter teithio a llai o becynnau plastig.

Tai ac Adeiladu:-

Mae'r sector Tai yn cynnwys 14,710 o fusnesau yng Nghymru (mae gan 98% ohonynt bencadlys yng Nghymru), sy'n cynnwys 67,835 o weithwyr. Mae'r sector yn cynhyrchu trosiant blynyddol o £6.8bn.

Mae'r sector Adeiladu yn cynnwys 16,450 o fusnesau adeiladu yng Nghymru, sy'n cyflogi dros 83,000 o bobl. Mae'r sector yn cynhyrchu'r ail drosiant uchaf, yn dilyn Bwyd, sef dros £17bn y flwyddyn.

Dyma rai o ganlyniadau cadarnhaol y prosiectau tai ac adeiladu:-

- Mae Cyfle wedi cefnogi 120 o bobl ifanc, ymhell o'r farchnad gyflogaeth, i ennill sgiliau plymio a thrydanol sero net drwy raglen strwythuredig yn y gweithle. Mae 80% o'r bobl ifanc wedi mynd ymlaen i sicrhau rhyw fath o brentisiaeth neu gyflogaeth.
- Mae SimplyDo wedi recriwtio 5 sefydliad i brosiect Arloesi mewn Tai Cymdeithasol Cymru (WISH) - Caredig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ClwydAlyn/Onnen, RHA a Trivallis - i gyd gyda'i gilydd yn ysgogi tai Sero Net, yn ogystal ag amlygu 156 o fusnesau yng Nghymru a allai gyflawni swyddogaeth y cyflenwr presennol sydd â phencadlys yn y DU ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Mae Wood Knowledge Wales wedi hwyluso dulliau o gytuno ar ddyluniad safonol ar gyfer adeiladu cartrefi, drwy gydweithio arloesol yn y sector Tai, gan ddod â landlordiaid, penseiri, cynhyrchwyr pren a gweithgynhyrchwyr at ei gilydd. Bydd y cartrefi'n cael eu hadeiladu gan ddefnyddio pren, mwy a mwy o bren o Gymru a chadwyn gyflenwi fer, gref a chynaliadwy.
- Lansio llyfr patrwm tai Sero Net TAYC dan arweiniad Cwmpas, wedi'i gymeradwyo gan 25 o landlordiaid cymdeithasol. Prototeipio gyda 12 landlord gyfanswm o dros 400 o gartrefi sy'n cael eu datblygu.
- Daeth Simply Do o hyd i gadwyn gyflenwi gwbl Gymreig yn cynnwys 483 o gyflenwyr, ar draws 3 her caffael, ar gyfer cyfleoedd contract posibl yn y dyfodol a fydd yn arwain at sicrwydd swyddi a chreu swyddi. Hefyd, datblygu prosesau newydd a swyddogaethau 'Chwilio Lleol' o fewn platfform SimplyDo, ar gyfer datgelu a dilysu cyflenwyr amrywiol a 'heb eu gweld' mewn economïau lleol ledled Cymru, ynghyd â gwell data drwy 'geoddelweddu' gan ddefnyddio PowerBI i'w wneud yn hawdd ei ddefnyddio i gleientiaid a'i gwestiynu. Roedd hon yn broses arloesi agored newydd ar gyfer SimplyDo.
- Roedd modelau Cymuned Ymarfer yn hwyluso rhannu gwybodaeth ymysg dros 95 o sefydliadau yn y sectorau pren a thai.

- Mae 24 o fusnesau bach a chanolig wedi cael cymorth i ennill ardystiad PAS 2030:2023, gan osod cwmnïau yng Nghymru mewn sefyllfa i arwain y farchnad mewn gwasanaethau ôl-osod a datgarboneiddio.

Atodiad 3

Manylion y Prosiectau a Chanlyniadau Cadarnhaol

PROSIECTAU BWYD

BIC Innovation

Mae BIC wedi darparu cymorth gwerthfawr i'r tîm FoEc i gynyddu faint o fwyd o Gymru sy'n cael ei weini ar blatiau cyhoeddus, yn ogystal â chefnogi llawer o'r prosiectau bwyd a gwella'r broses o gydgyssylltu. Ymgysylltwyd yn eang â dros 50 o randdeiliaid bwyd wrth ddatblygu offeryn arloesol newydd - Mynegai Bwyd Cymru, i'w ddefnyddio yn y cam caffael, i sgorio 'Cymreictod' y cynhyrchion sy'n cael eu cyflenwi. Fe wnaethant hefyd sicrhau arbenigedd gan economegydd o Brifysgol Caerdydd i wirio synnwyr y pwysoliadau a ddefnyddiwyd i fesur y metrigau amrywiol ar gyfer y WFI. Nid yw'r gwaith treialu a phrofi wedi digwydd eto, yn anffodus oherwydd diffyg cyllid, ond y gobaith yw y bydd y WFI yn cael ei roi ar waith eto yn y dyfodol ac yn cael ei gwblhau'n barod i'w ddefnyddio.

Ar y cyd â Chastell Howell a Phrifysgol Abertawe, cynhaliodd BIC ymchwil hefyd i gynyddu gwybodaeth am ôl troed carbon cynnyrch sy'n cael ei dyfu'n lleol o'i gymharu â'r cyflenwad sydd wedi'i rewi ar hyn o bryd, gan ddangos manteision amgylcheddol defnyddio cynnyrch sy'n cael ei dyfu'n lleol os oes modd datblygu a chefnogi'r seilwaith ar gyfer cyflenwi. Canfu asesiad cylch bywyd y gallai brocoli organig o Gymru arwain at 66-83% yn llai o allyriadau carbon na brocoli wedi'i rewi confensiynol, drwy osgoi cludiant pellter hir a gwrteithiau ffosil. Roedd dadansoddiadau'n dangos bod moron organig o Gymru yn sylweddol uwch mewn potasiwm a magnesiwm, manteision sy'n dibynnu ar goginio gofalus i gadw maetholion fel fitamin C.

Mae rhai o'r heriau a wynebwr yn cynnwys cymhlethdod y sector, sy'n ei gwneud hi'n anodd gweithredu, gan gynnwys argaeledd data gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, ond canfu BIC lefel uchel o awydd am gymorth i helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddarparu bwyd gwell i'w cwsmeriaid.

Canlyniadau cadarnhaol:

Datblygu Mynegai Bwyd Cymreig newydd ac arloesol, adnodd i alluogi sgorio 'Cymreictod' bwyd sy'n cael ei brynu (mae angen profi a threialu erbyn hyn, yn ddibynnol ar gyllid).

Ymgysylltu helaeth â thros 50 o randdeiliaid bwyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â mewnbwn gan economegydd o Brifysgol Caerdydd.

Cynhaliwyd asesiad cylch bywyd a ganfu y gallai brocoli organig o Gymru gyflawni 66-83% yn llai o allyriadau carbon na brocoli wedi'i rewi confensiynol a bod moron organig o Gymru yn sylweddol uwch mewn potasiwm a magnesiwm.

Castell Howell

Gyda'i gilydd, datblygodd prosiectau Castell Howell 'Esblygu Cadwyni Cyflenwi Llysiau Cymru' a 'Datblygu Bwyd Seiliedig ar Gig i Ysgolion Cymru' gadwyn gyflenwi gydnerth yng Nghymru sy'n dod â llysiau a dyfir yn agroecolegol a chig o Gymru i brydau aml-ddogn maethlon sy'n fasnachol hyfyw i ysgolion. Ar draws y ddau brosiect, prynodd CHF 18 tunnell o lysiau Cymreig (tua £34k) a helpu i ddatgloi arbedion effeithlonrwydd ar y fferm (yn enwedig ariannu offer golchi/bagio yn Fferm Bremenda Isaf) tra bod yr holl dyfwyr a gymerodd ran wedi cyrraedd Safon Cyflenwyr Cyswllt Ffermio.

Profodd gwaith datblygu cynnyrch y gall llysiau o Gymru fod yn gynhwysion craidd mewn prydau parod i'r ysgol, o sawsiau tomato wedi'u cyfoethogi â sbigoglys ac ysgallddail i Gaws Blodfresych a Bolognese Cig Eidion Cymru, a chyfres o beli cig eidion a chig oen wedi'u ffurfio gyda llysiau ychwanegol a phrotein pys i gydbwysu maeth a chost. Roedd ymgysylltu ag ysgolion yn ganolog i lwyddiant y prosiect, gyda dros 500 o ddisgyblion a'u teuluoedd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau blasu ledled Caerffili, Torfaen, Abertawe a Chaerfyrddin. Roedd yr adborth yn amrywio yn ôl pryd bwyd a rhanbarth, gan dynnu sylw at yr angen am strategaethau marchnata wedi'u teilwra, yn enwedig ar gyfer prydau sy'n cynnwys cig oen o Gymru a llysiau gwyrdd deiliog. Roedd y prosiect hefyd wedi arwain CHF i benodi swyddog ymgysylltu ag ysgolion penodol ym mis Gorffennaf 2025 ac wedi galluogi CHF i gefnogi prosiectau garddwriaeth gyda'r Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc, Academi Amaeth iau gyda Cyswllt Ffermio

Roedd y prosiectau hefyd wedi cryfhau'r sylfaen dystiolaeth. Canfu asesiad cylch bywyd gan Brifysgol Abertawe y gallai brocoli organig o Gymru ddarparu 66-83% yn llai o allyriadau carbon na brocoli wedi'i rewi confensiynol drwy osgoi cludiant pellter hir a gwrteithiau ffosil, ac roedd dadansoddiadau BIC Innovation/NutriWales yn dangos bod moron organig Cymru yn sylweddol uwch mewn potasiwm a magnesiwm, manteision sy'n dibynnu ar goginio gofalus i gadw maethynnau fel fitamin C. Roedd rhwydweithio BLFF, dan arweiniad Cynnal Cymru, wedi cynyddu'r effaith drwy leihau dyblygu a rhannu adnoddau ar draws prosiectau. Roedd yr heriau'n cynnwys anwadalrwydd prisiau ŵyn a chapasiti rhewi

cyfyngedig, ond roedd y gwaith yn cyd-fynd ag adolygiad 2025 ac yn dangos hyfywedd ffynonellau lleol ar raddfa fawr.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd CHF yn parhau i weithio gyda Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, a'i nod yn 2025 yw prynu 60 tonnall o lysiau Cymreig, gweithio gyda 15 o dyfwyr, a chyflenwi 12 awdurdod lleol, gan barhau i fesur carbon a marchnata wedi'i dargedu (yn enwedig ar gyfer cig oen a llysiau gwyrdd deiliog) i wreiddio ffynonellau lleol, hinsawdd-gadarn ledled y plât cyhoeddus.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Cynhyrchu Llysiau

Mae nodi lle mae angen cyflwyno arbedion effeithlonrwydd a buddsoddi yn unol â hynny yn waddol sylweddol o'r grant BLFF. Roedd bagio a golchi'r llysiau a dyfwyd yn ychwanegu cost ychwanegol at gynhyrchu llysiau o Gymru. Roedd CHF yn gallu gweithio gyda fferm fach yn Sir Gaerfyrddin, Fferm Bremenda Isaf, i olchi 10T o foron â llaw, a thrwy ailddyrannu cyllid prosiect cysylltiedig roeddent yn gallu prynu peiriant golchi mwy a bagiwr pwysau sefydlog i wella'r broses.

Roedd manyleb cynnyrch ar gyfer effeithiolrwydd yng nghegin yr ysgol (tomatos o faint cywir ar gyfer torri neu beidio ag achosi perygl o dagu) ac ar gyfer prosesu pellach (sleisio a deisio) yn ganlyniad allweddol i'r prosiect BLFF.

Ar ôl yr adolygiad o safonau maeth ysgolion cynradd yng Nghymru yn 2025, roedd CHF yn gallu canolbwyntio ar ddatblygu prydau gydag ysgallddail, bresych deiliog a sbigoglys ychwanegol wrth i'r llysiau gwyrdd deiliog hyn sydd â gwerthoedd microfaethynnau uchel dyfu'n dda yng Nghymru.

Cyfanswm gwerth y cynnyrch a brynodd CHF gan dyfwyr Cymru oedd £34k.

Darparodd CHF grantiau ychwanegol (nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhrosiectau BLFF) o hyd at £5k i dyfwyr a wnaeth gais.

Cwblhaodd pob tyfwr safon Cyflenwyr Cyswllt Ffermio.

Cyfanswm y llysiau o Gymru a brynwyd gan CHF ar gyfer y ddau brosiect yw 18 Tonnall.

Sylfaen Saws Pizza Cymreig

Gan fod tomatos eirin, sbigoglys ac ysgallddail ar gael yn Langtons, Crucywel, penderfynwyd datblygu sylfaen tomatos Cymreig (addas ar gyfer pizzas, Bolognese ayb) gyda llysiau ychwanegol.

- Rysáit 1 - Saws Tomato gyda 40% o Domatos Cymreig
- Rysáit 2 - Saws Tomato gyda 35% o Domatos Cymreig a 10% Sbigoglys
- Rysáit 3 - Saws Tomato gyda 30% o Domatos Cymreig a 20% Sbigoglys
- Rysáit 4 - Saws Tomato gyda 35% o Domatos Cymreig & 10% Ysgallddail

- Rysáit 5 - Bolognese Cig Eidion Cymreig wedi'i wneud â Saws Tomato Rysáit 3
- Rysáit 6 - Caws Blodfresych wedi'i wneud â Chaws Cymreig
- Rysáit 7 - Caws Blodfresych wedi'i wneud â Chaws Cymreig a 10 % Ysgallddail (Roedd ychwanegu'r Ysgallddail yn rhoi lliw Pinc Eog i'r saws)
- Rysáit 8 - Caws Blodfresych wedi'i wneud â Chaws Cymreig a 20% Ysgallddail (Roedd ychwanegu'r Ysgallddail yn rhoi lliw Pinc Eog i'r saws)
- Rysáit 9 - Caws Blodfresych wedi'i wneud â Chaws Cymreig, Blodfresych Cymreig a 10% Sbigoglys

Datblygwyd y ryseitiau gan Authentic (Hirwaun) a'u cymharu â'r cynhyrchion presennol. Ac eithrio Rysáit 1, roedd y canlyniadau maeth yn cyd-fynd â'r disgwyliadau.

Roedd ychwanegu sbigoglys ac ysgallddail wedi'u tyfu yng Nghymru wedi cynyddu gwerth haearn a sinc y pryd bwyd Caws Blodfresych.

Roedd rysáit 5, Bolognese Cig Eidion Cymreig, hefyd wedi perfformio'n dda gyda sbigoglys ac ysgallddail ychwanegol.

Roedd y gwaith o ddatblygu cynnyrch yn Authentic yn dangos yn bendant, gyda'r seilwaith cadwyn gyflenwi cywir, y gellid defnyddio llysiau a dyfwyd yng Nghymru fel cynhwysion allweddol i baratoi prydau aml-ddogn yn y gegin a oedd yn cyrraedd targedau maeth a thargedau masnachol.

Peli Cig Cymreig

Casgliad y gwaith o ddatblygu'r cynnyrch newydd oedd canolbwyntio ar

- beli cig eidion gyda llysiau ychwanegol o Gymru
- peli cig eidion mewn saws aml-ddogn a oedd yn cynnwys y llysiau Cymreig ychwanegol
- peli cig oen gyda % is o gig oen, protein pys ychwanegol, a llysiau o Gymru
- peli cig oen gyda % is o gig oen, protein pys ychwanegol, mewn saws aml-ddogn gyda llysiau ychwanegol o Gymru
- Datblygwyd saws peli cig/ dull marinara gyda sbigoglys, ysgallddail a bresych deiliog ychwanegol.

Ymgysylltu ag Ysgolion

Canlyniad allweddol arall i'r prosiect BLFF, a oedd yn cyd-fynd yn dda â'r newidiadau arfaethedig i safonau maeth ysgolion cynradd, oedd pwysigrwydd marchnata'r prydau a'r llysiau i'r gynulleidfa darged o blant, eu rhieni a'u gwarcheidwaid a thimau arlwygo ysgolion.

Ar ôl trafod ag arlwywyr awdurdodau lleol, credwyd mai gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb oedd y dull cychwynnol gorau. Gyda deunyddiau addysg bellach yn cael eu darparu gan Cynnal Cymru (NatureWise) a'u datblygu gan Synnwyr Bwyd Cymru/Dr Amber Wheeler.

Gan weithio gyda'r timau arlwygo ac ysgolion yng Nghaerffili, Torfaen, Abertawe a Chaerfyrddin, defnyddiwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu i gyflwyno'r ryseitiau newydd i blant a'u rhieni/gwarcheidwaid.

Canfu'r digwyddiadau ymgysylltu hyn:

- Macaroni gyda Chaws Cymreig a Phasta Gwenith Cyflawn: derbyniad cymharol gadarnhaol, gan arwain at ganlyniadau ffafriol.
- Cyri Cyw Iâr Menyn Cymreig: Adborth cadarnhaol ar y cyfan a boddhad uchel
- Peli Cig Oen gyda Phasta Gwenith Cyflawn a Saws Tomato a Sbigoglys/Bresych deiliog: Adborth negyddol cyson a phegynol iawn, yn aml yn ysgogi anhoffter sylweddol.
- Lasagne Cig Eidion Cymreig efo Saws Caws Cymreig: Pegynnu eithafol, naill ai wedi cael sgôr rhagorol neu ddifrifol.
- Rafioli Seiliedig ar Blanhigion gyda Saws Tomato a Basil: Gwahaniaeth pendant ym marn defnyddwyr, er iddo gael canmoliaeth uchel gan rai, roedd yn cael ei wrthod yn gryf gan eraill.
- Caws Blodfresych gyda Saws Caws Cymreig: Derbyniad cadarnhaol a chyson ar y cyfan, yn enwedig o ran ei apêl weledol a'i flas.
- Peli Cig Cyw Iâr gyda Phasta Gwenith Cyflawn a Saws Tomato a Sbigoglys/Bresych deiliog: Adborth negyddol cyson, yn aml yn ysgogi anhoffter sylweddol.

Er bod gan CHF nifer o flynyddoedd ac enghreifftiau o brosiectau ysgol, nid oedd y cwmni wedi ymgysylltu â phlant, athrawon, arlwywyr a rhieni yn y cyswllt hwn. Drwy'r prosiect BLFF, llwyddodd CHF i ymgysylltu ag oddeutu 500 o ddisgyblion ar draws ysgolion yng Nghymru.

Gwaddol y prosiect yw bod CHF wedi cyflogi cydweithiwr (Gorffennaf 2025) a fydd yn swyddog ymgysylltu ag ysgolion penodol, gyda gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi a maeth ac fel cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol i Gymru mae ganddo brofiad personol o bwysigrwydd maeth da.

Effeithiau Amgylcheddol

Gwaddol y prosiectau yw'r ddeialog barhaus ar leihau'r effaith amgylcheddol ar draws y gadwyn gyflenwi. Comisiynwyd NFU Energy i gynnal archwiliad carbon. Roedd hyn yn tanlinellu'r anhawster a'r gost sy'n gysylltiedig â chwblhau Dadansoddiad Cylch Bywyd llawn ar draws holl gyflenwyr ffermydd CHF/Celtica.

Mae'r arweinwyr prosiect yn parhau i drafod â phartneriaid yn y diwydiant, fel Hybu Cig Cymru, a byddant yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i sefydlu gwir effaith cadwyni cyflenwi ar garbon.

Drwy grŵp prosiect BLFF, gweithiodd CHF gyda BIC Innovation i bennu effaith amgylcheddol y brocoli organig yn erbyn brocoli wedi'i rewi confensiynol. Mae'r asesiad cylch bywyd gan Brifysgol Abertawe yn dangos y gallai'r brocoli organig gael 66-83% yn llai o allyriadau carbon oherwydd dileu pellteroedd cludo mawr ac effaith cynhyrchu is. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad hefyd, oherwydd diffyg gwrteithiau ffosil (allyriadau gwrtaith N₂O) a llai o angen am danwydd ac oergelloedd, bod hyn yn cyfrannu at ôl troed carbon is mewn llysiau organig o'i gymharu â llysiau safonol a dyfir.

Tîm Deieteg Cyngor Caerdydd ac Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro

Llwyddodd y prosiect hwn i sefydlu Awr Fwyd mewn ysgolion fel bod pob plentyn yn cael cyfle i dreulio (o leiaf) awr y dydd yn yr ysgol "gyda bwyd"; i rannu prydau maethlon, dysgu am fwyd a dysgu drwy fwyd. Un o'r prif nodau oedd cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar UPFSM yn yr ysgolion peilot. Gweithiwyd gyda 6 ysgol, ac roedd y cydweithio eang yn cynnwys llawer o bartneriaid gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Maint Cymru, Tîm y Cwricwlwm, Cyngor Caerdydd, Coed ar gyfer Dinasoedd, Castell Howell a Veg Power.

Llwyddwyd i gyrraedd holl dargedau'r prosiect sef:

- Creu gweithgor Awr Fwyd Ysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid yn ecosystem fwyd yr ysgol, gan gynnwys plant.
- Creu glasbrint wedi'i gostio ar gyfer model darparu y gellid ei gyflwyno ledled Cymru - yn seiliedig ar ymchwil, mapio mentrau ac adnoddau cenedlaethol a lleol presennol a dadansoddiad o'r bylchau
- Datblygu cynllun peilot mewn 5 ysgol gynradd yng Nghaerdydd ar draws y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn 6 gan ddefnyddio cymysgedd o adnoddau cenedlaethol (e.e. NSFL, partneriaethau bwyd traws sector, Veg Power, Maint Cymru) ac asiantaethau lleol fel sail i dempled ar gyfer darparu
- Datblygu'r achos o blaid y dull hwn gan gynnwys gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot, mapio polisi a deddfwriaeth y Llywodraeth ac enillion cymdeithasol o fuddsoddi.

Mae arweinwyr y prosiect yn adrodd bod y Gymuned Ymarfer Bwyd "wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i rannu arferion gorau, dathlu llwyddiannau pobl eraill, a chael cipolwg ar amrywiaeth o brosiectau arloesol sy'n cael eu rhoi ar waith mewn mannau eraill."

Wrth edrych i'r dyfodol, canfuwyd gwaith ychwanegol ar gyfer y tîm deieteg ehangach gyda Chanolfan Blant Trelái a Chaerau drwy ymgysylltu mewn partneriaeth - maent yn awyddus i uwchsgilio staff a defnyddio arbenigedd deieteg ac o bosibl y fframwaith Awr Fwyd, i ymgorffori negeseuon maethol allweddol yn eu darpariaethau. Mae cysylltiadau hefyd wedi'u sefydlu gydag ysgolion eraill yn y clwstwr fel Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, a fyddai'n awyddus i gymryd rhan pe bai'r 'Oriau Bwyd' yn ymgorffori darpariaeth ysgolion uwchradd, ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion eglwysig clwstwr hefyd wedi holi am gyfranogiad posibl gydag Oriau Bwyd.

Mae Cynlluniau ac Argymhellion i'r Dyfodol ar ôl mis Mawrth 2025 (yn dibynnu ar gyllid) yn cynnwys:-

Tymor byr

- Ymgorffori Pedair egwyddor yn y clwstwr presennol o ysgolion
- Cynorthwywyr arlwyio/amser cinio i gefnogi'r Cynghorau Bwyd
- Creu grŵp llywio Awr Fwyd Ysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau partner, Penaethiaid a staff hyfforddedig yr Awr Fwyd, a disgyblion. Annog cyflwyno'r Awr Fwyd drwy gyd-gynhyrchu parhaus.

- Creu llawlyfr i ddisgyblion
- Coginio gyda rhifedd - i rieni.

Tymor canolig

- Cynyddu'r ddarpariaeth Awr Fwyd er mwyn ehangu i 4 ardal glwstwr.
- Addasu'r pecyn cymorth ar gyfer cynnydd ar draws y grŵp blwyddyn/anghenion dysgwyr
- Cynnwys mwy o ysgolion yn ardal y Clwstwr peilot gan gynnwys Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a darpariaethau ADY Tymor Hir
- Creu glasbrint wedi'i gostio ar gyfer model darparu y gellid ei gyflwyno ledled Cymru

Canlyniadau cadarnhaol:-

Mae'r prosiect wedi ennill dwy Wobr arlwygo. Gorffennaf 2025: Gwobrau Rhagoriaeth LACA - Gwobr Goffa Nan Berger, a Hydref 2025: Foodservice Cateys – Arlwywr Addysg y Flwyddyn.

Penawdau'r ymgynghoriad:

- Dywedodd 100% o ddisgyblion fod yr Awr Fwyd yn rhaglen dda.
- Dywedodd 100% yr hoffent gymryd rhan pe bai'r Awr Fwyd yn dechrau yn eu hysgol
- Roedd 100% o'r staff yn credu y byddai Cyngor Bwyd yn ychwanegiad a fyddai'n cael ei groesawu at eu darpariaeth clwb ar ôl ysgol

Datblygu Adnoddau

Sgiliau Maeth am oes - Mewn partneriaeth â Maint Cymru, roedd y cynllun peilot Awr Fwyd yn cynnwys hyfforddiant i staff ar gynaliadwyedd a datgoedwigo. Ychwanegwyd adnoddau ychwanegol at yr addysgu Cymunedol a Maeth Lefel 2, gan gynnwys strategaethau sy'n benodol i'r ysgol a mentrau lleol.

Sesiynau Tymhorol - , a ddatblygwyd fel rhan o'r pecyn Awr Fwyd, ac mae pob sesiwn yn cyfuno gweithgareddau o bedair egwyddor yr Awr Fwyd: Addysg Maetheg, Coginio, Cynaliadwyedd a Thyfu, a gellir eu darparu fel gweithgareddau diwrnod llawn neu annibynnol. Mae pob sesiwn yn cynnwys llyfryn gweithgareddau i annog cyfranogiad yn y cartref a'r ysgol.

Mwynhaodd 97.5% o ddisgyblion y sesiwn dymhorol. Dywedodd 90% o ddisgyblion eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd

Mae'r **pecyn cymorth**, a ddatblygwyd drwy ymgynghori â staff a disgyblion, yn cynnig adnoddau hyblyg sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm Cymru. Mae'n cynnwys gweithgareddau ar draws pedair egwyddor allweddol - Addysg Maetheg, Coginio, Cynaliadwyedd, a Tyfu - ac mae llawer ohonynt yn gorgyffwrdd i gefnogi gwahanol ddulliau cyflwyno. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys cynlluniau gwersi, cyfarwyddiadau a deunyddiau ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth neu yn yr awyr agored, y gellir eu haddasu i wahanol alluoedd disgyblion ac amserlenni. Cynhwyswyd adnoddau ychwanegol o raglenni cenedlaethol Veg Power.

Prif ganlyniadau cyffredinol:

X6 ysgol gynradd, 210 o blant

Staff

- 100% Mwy o wybodaeth a sgiliau mewn perthynas â'r 4 egwyddor
- 100% Mwy o hyder i ddarparu'r FH
- 100% Mwy o wybodaeth a hyder i alinio'r FH â'r cwricwlwm newydd a sut i'w roi ar waith

Disgyblion

- 92% Mwy o wybodaeth a sgiliau mewn perthynas â'r 4 egwyddor
- 98% Wedi ymgysylltu â'r cwricwlwm mewn ffordd hwyliog
- 90% Wedi rhoi cynnig ar fwyd newydd

Rhieni

- 100% Mwy o wybodaeth a sgiliau: bwyta'n iach, cyllidebu, sgiliau coginio ymarferol a byrbrydau iach.
- Canlyniadau eraill
- Ymgysylltu rhwng y cartref a'r ysgol: Presenoldeb 100% gan bob rhiant
- Bwyta prydau ysgol o ganlyniad i'r Awr Fwyd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Nod 'Bwydlen Cenedlaethau'r Dyfodol' Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ysgolion oedd ailddylunio bwydlenni ysgolion i gynnwys cynnyrch ffres, tymhorol o Gymru. Er gwaethaf oedi o ran recriwtio a chomisiynu, cyrhaeddodd y prosiect y rhan fwyaf o'i dargedau, gan gynnwys sefydlu system monitro gwastraff bwyd, hyfforddi staff arlwyo Sir Gaerfyrddin, lleihau'r ôl troed carbon mewn prydau ysgolion cynradd a chreu'r templed ar gyfer ehangu i bob ysgol yn Sir Gaerfyrddin a thu hwnt. Un elfen allweddol sydd i'w chyflawni, sef y Ffeil Ryseitiai Cynradd, sy'n dal ar y gweill ac sydd i fod i gael ei rhyddhau fesul cam yn unol ag amseroedd tymhorau'r ysgol.

Roedd y fenter yn cefnogi cyflogi 2 rôl cyfwerth ag amser llawn, ac mae'r ddwy wedi parhau ers i'r prosiectau ddod i ben. Mae'r prosiect hefyd wedi dod â £34,000 yn ôl i'r Economi Sylfaenol ac wedi gosod y sylfaen ar gyfer rhoi £40,000 arall yn uniongyrchol i'r gweithrediadau fferm yn Fferm Bremenda Isaf a £1.4m bob blwyddyn i mewn i Amaethyddiaeth Sylfaenol (cynhyrchu bwyd) yn unol ag ehangu'r fwydlen ysgol newydd ar draws pob ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd y prosiect yn meithrin cydweithio â sefydliadau fel Synnwyr Bwyd Cymru a Cyswllt Ffermio ac wedi cyflwyno'r model 'Tir Cyhoeddus i Blât Cyhoeddus' cyntaf y DU, gan weini bwyd o'r Fferm Sirol i ysgolion lleol a chyflogi staff garddwriaethol yn uniongyrchol. Mae'r prosiect wedi cefnogi 'Hyfforddiant Cynaliadwyedd Bwyd' ar gyfer Staff a Rheolwyr Arlwyo yn Sir Gaerfyrddin, gyda Chyngor Sir Caerfyrddin yn nodi mai un o'r canlyniadau

cadarnhaol allweddol fu'r newid diwylliannol o ran meddylfryd staff arlwygo sydd bellach, gyda'r awdurdod lleol, yn rhannu pwrpas a chenhadaeth ar gyfer datblygu pellach.

Mae wedi parhau y tu hwnt i'w gyfnod cyllido cychwynnol ac mae bellach yn ehangu i wasanaethu pob ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin, gyda chynlluniau i ddarparu 2.1 miliwn o brydau bwyd bob blwyddyn. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn cynnwys pwysigrwydd cydgyhyrchu a chynllunio wrth gefn. Mae'r prosiect yn cael ei ystyried yn fodel y gellir ei ehangu ar gyfer awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, gyda photensial cryf i gael effaith ehangach ar draws yr economi sylfaenol.

Canlyniadau cadarnhaol:-

- Cefnogi cyflogi 2 swydd cyfwerth ag amser llawn, ac mae'r ddwy wedi parhau ers diwedd y prosiect.
- Dod â £34,000 yn ôl i'r Economi Sylfaenol a gosod y sylfaen ar gyfer rhoi £40,000 arall yn uniongyrchol i weithrediadau'r fferm yn Fferm Bremenda Isaf ac £1.4m bob blwyddyn i mewn i Amaethyddiaeth Sylfaenol (cynhyrchu bwyd).
- Cyflwynodd y prosiect fodel 'Tir Cyhoeddus i Blât Cyhoeddus' cyntaf y DU, gan weini bwyd o'r Fferm Sirol i ysgolion lleol a chyflogi staff garddwriaethol yn uniongyrchol a meithrin cydweithio â sefydliadau fel Synnwyr Bwyd Cymru a Cyswllt Ffermio.
- Cefnogodd y prosiect 'Hyfforddiant Cynaliadwyedd Bwyd' ar gyfer Staff a Rheolwyr Arlwygo yn Sir Gaerfyrddin, gan arwain at newid meddylfryd staff arlwygo sydd bellach, gyda'r awdurdod lleol, yn rhannu pwrpas a chenhadaeth ar gyfer datblygu pellach.
- Cydweithio â phrosiectau AB eraill, fel Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion, rhwydweithiau hirhoedlog.
- Sefydlu a gweithredu cadwyni cyflenwi arloesol a ffyrdd newydd o weithio.

Cookalong Clwb

Nod prosiect Cookalong Clwb y Gymdeithas Gadwraeth oedd rhoi hwb i hyder yn y gegin, lleihau gwastraff bwyd, a gwella addysg bwyd teuluoedd ac ysgolion, gan dargedu 100 o deuluoedd i ddechrau ond cyrraedd dros 2,000 yn y pen draw. Drwy gymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb, roedd Cookalong Clwb wedi grymuso plant a theuluoedd i roi cynnig ar fwydydd newydd, datblygu sgiliau coginio ymarferol, a dod â newidiadau cadarnhaol i'w cartrefi. Ehangodd y prosiect ei gyrhaeddiad o Sir Fynwy i Gasnewydd, Abertawe, a Dyffryn Gwy, a chafodd gydnabyddiaeth genedlaethol ar ôl ennill Gwobr Bwyd a Diod yn 2024.

Un llwyddiant amlwg oedd yr ymgyrch "Rhowch Gynnig ar Ffacbys", lle bu plant yn helpu i gyflwyno korma ffacbys i holl fwydlenni ysgolion Sir Fynwy, gan gefnogi symudiad y sir tuag at fwyd heb ddatgoedwigo. Roedd y prosiect hefyd wedi meithrin partneriaethau cryf gydag awdurdodau lleol, ysgolion, elusennau a gwyliau bwyd, a chreu un swydd amser llawn ynghyd â rolau cefnogi digwyddiadau. Er gwaethaf heriau gyda phroses hawlio Llywodraeth Cymru, mae Cookalong Clwb wedi dod yn gyflenwr sy'n cael ei ffafrio gan nifer o sefydliadau ac mae'n parhau i arloesi, gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys ehangu pellach, ymgyrchoedd newydd ynghylch bwyd cynaliadwy, a gwaith parhaus gyda chymunedau amrywiol. Mae dull cydweithredol a chynhwysol y prosiect wedi dangos pŵer

addysg bwyd cynnar ac ymgysylltu â'r gymuned i sbarduno dewisiadau bwyd iachach a mwy cynaliadwy ledled Cymru.

Mae gan y Cookalong Clwb weledigaeth gref ar gyfer twf a chynaliadwyedd. Gyda £10,000 ychwanegol o gyllid wedi'i sicrhau gan dîm yr Economi Sylfaenol, maen nhw'n bwriadu ehangu eu cyrhaeddiad i fwy o siroedd ar yr un pryd â pharhau â'u gwaith dylanwadol yn Sir Fynwy. Eu nod yw dyfnhau eu hymgysylltiad ag ysgolion, elusennau a grwpiau cymunedol drwy brosiectau sy'n cael eu hariannu'n unigol ac maent wrthi'n chwilio am nawdd hirdymor i sicrhau hirhoedledd y prosiect. Un o'r prif fentrau sydd ar y gweill yw ymgyrch newydd gyda Maint Cymru sy'n canolbwyntio ar effaith amgylcheddol corn-bïff, sydd wedi cael ei lansio yng Ngŵyl Fwyd y Fenni 2025. Bydd y prosiect hwn yn archwilio gorffennol, presennol a dyfodol cynaliadwyedd bwyd. Mae Cookalong Clwb hefyd yn bwriadu parhau â'u gwaith gyda theuluoedd aml-ethnig yn The Place yng Nghasnewydd ddechrau 2026 ac mae'n bwriadu cyflogi gweithiwr proffesiynol i helpu i lywio'r dirwedd gyllido gymhleth.

Canlyniadau cadarnhaol:-

- Enillodd y Cookalong Clwb wobr yn y Gwobrau Bwyd a Diod ac roeddent unwaith eto yn y rownd derfynol yn 2025.
- Mae Cookalong Clwb bellach yn gwasanaethu Sir Fynwy i gyd ac wedi gweithio gydag ardal Casnewydd, Abertawe a Dyffryn Gwy. Drwy eu presenoldeb mewn gwyliau bwyd lleol a chenedlaethol, mae Cookalong Clwb wedi gallu ehangu eu gwaith i gymunedau eraill. Mae Cookalong Clwb yn symud lle bynnag y mae ei angen, ac maent wedi cael eu gwahodd i rannu eu harbenigedd, eu hangerdd a'u hymwybyddiaeth ledled De Cymru.
- Cafodd yr ymgyrch "Rhowch Gynnig ar Ffacbys" ei dylunio gan blant yn ysgolion cynradd Sir Fynwy a'i chyflwyno gan y plant i'r cyngor lleol. Gyda chymorth Cookalong Clwb, mae plant oed cynradd wedi gallu rhoi newid ar waith, gyda'u rysâit Korma Ffacbys yn cael ei ychwanegu at holl fwydlenni ysgolion Sir Fynwy. Mae ysgolion eraill yng Nghymru bellach yn gweithio tuag at yr un nod. Yn Crosshands, mae plant ysgolion cynradd wedi creu rysâit browni gan ddefnyddio acwaffaba (dŵr ffacbys), ac maen nhw wedi mynd â'u rysâit i Castell Howell i'w greu.
- Mae cyrsiau wedi cael eu cynnal o gartref ac mae The Cookalong Clwb yn bwriadu cynnal mwy pan fydd amser yn caniatáu hynny, er bod y ffocws bellach ar waith wyneb yn wyneb mewn ysgolion drwy grantiau a gweithio gydag Awdurdodau Lleol, gan dargedu plant a theuluoedd sydd ei angen fwyaf.

Development Trust Association (DTA)

The Development Trust Association (DTA) – Assured Growing Toolbox project aimed to support small-scale vegetable growers in Wales to access public procurement opportunities. The core objective was to design a comprehensive ‘toolbox’ of resources, pilot its use, and establish a sustainable partnership model. The toolkit is designed to break down barriers, build confidence, and provide the practical tools and knowledge growers need to thrive in public procurement and beyond. The resulting toolkit includes financial planning tools (via Robert Owen Community Bank), collaboration frameworks (from Social Farms & Gardens), supply chain coordination tools, accreditation streamlining guidance, and planning support for rural enterprise dwellings. These resources are complemented by broader materials on public procurement, including podcasts, case studies, and insights from the Welsh Veg into Schools (WViS) project.

The project delivered tangible benefits including job creation (a 0.6 FTE project officer and safeguarding of a 0.3 FTE role), capacity building within DTA, and the development of high-quality, freely accessible resources. Despite delays in finalising the website, DTA pledged additional funding to complete it by September 2025. Lessons learned highlighted the importance of strong partnership alignment, adequate financial incentives, and internal staffing flexibility. Notably, the creation of a grower standards cross-compliance matrix was a standout innovation, simplifying complex accreditation schemes for growers.

Looking ahead, DTA will host and maintain the toolkit on its website, integrate it with other sector platforms, and explore scaling the communication tool via Open Food Network to support broader procurement coordination.

Positive outcomes:-

The ‘Toolbox’ includes:

- Financial Tools: produced by partner Robert Owen Community Bank
- Collaboration: produced by Social Farms & Gardens (SF&G), including how to set up collaboration agreements and tools for sharing machinery
- Co-ordination of Supply Chain: includes the communication tool between growers and wholesalers, now expanded to up to 50 growers.
- Streamlining Standards: how to avoid duplication between the accreditation schemes.
- Rural Enterprise Dwelling: SF&G advice on developing a convincing planning proposal.

The rest of the website is a suite of resources designed to provide background information and more specific advice and information relevant to anyone thinking about considering Public Procurement as a new route to market.

Synnwyr Bwyd Cymru

Arweiniodd Synnwyr Bwyd Cymru (FSW) fenter Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion i gynyddu mynediad at lysiau lleol wedi'u cynhyrchu'n gynaliadwy mewn ysgolion ar yr un pryd â chefnogi tyfwyr yng Nghymru a chryfhau cadwyni cyflenwi. Nod gwreiddiol y prosiect oedd cyflenwi dros 5-10 tunnell o lysiau i dros 30 o 40 o ysgolion, ond rhagorwyd ar y disgwyliadau drwy ddosbarthu 14 tunnell gan wyth o dyfwyr i 219 o ysgolion ar draws 7 awdurdod lleol, sy'n cyfateb i 200,000 o ddogneau i blant. Cynhyrchodd hyn £34,333 o incwm i dyfwyr ac amcangyfrif o £127,034 mewn manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach i Gymru.

Mae'r prosiect wedi dangos y gallai cynnydd bach mewn cyllidebau prydaus ysgol ddatgloi effaith economaidd leol sylweddol, creu swyddi, ac enillion amgylcheddol. Mae FSW wedi canfod y byddai ychwanegu 3.3c y pryd y dydd at y pris a delir gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn caniatáu cynnwys 2 ddogn o lysiau organig lleol yn dymhorol a byddai'n cymell y manteision canlynol:-

- Byddai 901 tunnell o lysiau a brynir yn darparu £2.21 miliwn yn uniongyrchol i gynhyrchwyr yng Nghymru gyda lluosydd o 3.7 i roi amcangyfrif o £8.2 miliwn mewn budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- £555,500 o fuddsoddiad mewn seilwaith sy'n arwain at fwy o gapasiti i gyflenwi a mwy o incwm cyfartalog i ffermydd yng Nghymru / mwy o wytnwch yn y gadwyn gyflenwi
- 74.3 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar ffermydd yng Nghymru
- 50 hectar o lysiau organig
- Cynnydd o 35% mewn caeau adar
- 226 tunnell o arbedion CO₂e
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â risg uchel o brinder dŵr

Er gwaethaf heriau fel methiant cynydaus cysylltiedig â'r tywydd a phroblemau amseru, mae partneriaethau cryf, dulliau arloesol a chyllid parhaus wedi rhoi FSW mewn sefyllfa i dyfu, gyda'r nod hirdymor o sicrhau bod 25% o'r llysiau a ddefnyddir mewn prydaus ysgol yng Nghymru yn lleol ac yn organig erbyn 2030.

Gan edrych i'r dyfodol, gyda chyllid FoEc parhaus ar gyfer 2025/26, bydd Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn ehangu'r llysiau, yr ysgolion a'r cyfanwerthwyr cysylltiedig ac yn efelychu'r model yng Ngogledd Cymru.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Mae FSW wedi canfod y byddai ychwanegu 3.3c y pryd y dydd at y pris a delir gan Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn caniatáu cynnwys 2 ddogn o lysiau organig lleol yn dymhorol a byddai'n cymell y manteision canlynol:-

- Byddai 901 tunnell o lysiau a brynir yn darparu £2.21 miliwn yn uniongyrchol i gynhyrchwyr yng Nghymru gyda lluosydd o 3.7 i roi amcangyfrif o £8.2 miliwn mewn budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- £555,500 o fuddsoddiad mewn seilwaith sy'n arwain at fwy o gapasiti i gyflenwi a mwy o incwm cyfartalog i ffermydd yng Nghymru / mwy o wytnwch yn y gadwyn gyflenwi

- 74.3 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar ffermydd yng Nghymru
- 50 hectar o lysiau organig
- Cynnydd o 35% mewn caeau adar
- 226 tonnall o arbedion CO₂e
- Llai o ddibyniaeth ar fewnforion o wledydd sydd â risg uchel o brinder dŵr

Mae talu llai na £10,000 am y bwlch pris rhwng pris arferol ALI a phris organig wedi galluogi:-

WViS i gyfrannu at gynnydd o 20% yn arwynebedd y tir a ddefnyddir i dyfu llysiau yng Nghymru tra bod gweddill y DU wedi gweld gostyngiad.

Menter Môn - Prosiect Tech Tyfu

Nod prosiect ffermio fertigol Menter Môn oedd cefnogi pum tyfwr o Gymru: Valley Farm, Tyfu'r Eryri, Fresh & Tasty Microgreens, Valley's Veg, a Micro Acres Wales i leoli eu hunain i gyflenwi contractau caffael cyhoeddus ar raddfa fawr, yn unigol a thrwy ddulliau cydweithredol. Creodd y prosiect un swydd amser llawn a lleoliad wythnos o hyd i fyfyrwr, a galluogodd gynnydd sylweddol i bob cyfranogwr. Mae ei gyflawniadau nodedig yn cynnwys treial llwyddiannus Snowdon Valley Farm mewn perthynas â dyfais lleihau halwynedd dŵr, Fungi Foods yn danfon 20,000 o becynnau madarch i Aldi a threialon salad hydroponig i ysgolion, ac ehangu Micro Acres Cymru drwy fuddsoddiad a mentora technegol. Fe wnaeth Fresh & Tasty Microgreens ehangu eu cyrhaeddiad ar draws Gogledd Cymru a dechrau cyflenwi cyfanwerthwr yng Nghymru, ac fe wnaeth Green-Up Farm gynyddu capasiti cynhyrchu ac ymgysylltu â safonau'r sector.

Dangosodd y prosiect fanteision amgylcheddol fel defnyddio llai o ddŵr a chadwyni cyflenwi byrrach, er bod costau ynni uchel yn parhau i fod yn her ar gyfer ffermio fertigol drwy gydol y flwyddyn. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn tynnu sylw at werth cynllunio cynnar gyda thyfwyr a photensial modelau cydweithredol ar gyfer cyflenwi yn y sector cyhoeddus. Mae rhwydwaith Menter Môn a'i dealltwriaeth o amaethyddiaeth mewn amgylchedd wedi'i reoli wedi tyfu, ac mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys astudiaethau achos ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac archwilio systemau ffermio fertigol adnewyddadwy sy'n cael eu pweru gan ynni i wella hyfywedd.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Fungi Foods a Snowdon Valley Farm

- Gweithiodd Fferm Snowdon Valley gydag Adam's Water, cwmni o Wcraï, i dreialu dyfais sy'n gallu dadelfennu halltedd dŵr a'i gwneud yn haws i blanhigion fel tomatos elwa o gael maeth. Mae canlyniadau wedi canfod cynnydd mewn cynyda'u o'n treialon, sy'n golygu y gellir tyfu mwy o gynnyrch mewn un lle gan ddefnyddio'r ddyfais. Mae MM yn parhau i gefnogi Adam's Water ac wedi'u cyflwyno i Integrated Water Services (IWS) sydd wedi bod yn chwilio am bartner cenedlaethol ar gyfer Adam's Water.
- Gan ddefnyddio offer sy'n eiddo i MM, mae Fungi Foods wedi gallu cynhyrchu a dosbarthu 20,000 paced o fadarch Lions Mane i Aldi.

- Mae Fungi Foods yn treialu cynhyrchu dail salad i'w defnyddio gan y sector cyhoeddus, gan dyfu dros 750 o bennau dail salad ym mis Awst i'w defnyddio mewn ysgolion yng Ngwynedd neu Gonwy ym mis Medi a mis Hydref.
- Bydd Fungi Foods yn treialu cynnyrch a dyfir yn hydroponig mewn ysgolion gyda Myfyriwr Gradd Meistr ym Mhrifysgol Bangor.

Micro Acres Wales

- Mae Micro Acres Wales wedi symud i uned newydd yn Llantrisant ac wedi cael gwerth £1,000 o gymorth i gael eu mentora gan Fungi Foods.
- Mae Micro Acres Wales wedi cael cymorth a chynghor gan Ganolfan Diwydiant Bwyd Zero2Five, gan ddyblu eu capasiti cynhyrchu drwy'r arweiniad technegol a gafwyd.
- Mae Micro Acres Wales hefyd wedi cael buddsoddiad angylion sy'n eu galluogi i brynu'r offer sydd ei angen i ddechrau dadhyradu eu cnydau madarch mwng llew a madarch wystrys eu hunain. Bydd hyn yn lleihau eu hallbwn gwastraff o gynhyrchu - ar yr un pryd â rhoi cynnyrch newydd iddynt ei ychwanegu at eu hystod.
- Yn ystod y chwarter diwethaf, mae Micro Acres Wales wedi bod yn trafod gyda sefydliad o'r enw Seedleaves ynghylch y potensial i gydweithio ar gais i gynnal prosiect peilot ffermio fertigol ar raddfa fawr yng Ngorsaf Bŵer Aberddawan ger y Barri gyda Phrifysgol Met Caerdydd.

Green-Up Farm

- Derbyniodd Green-Up Farm offer drwy'r prosiect Tech Tyfu i gynyddu eu capasiti cynhyrchu. Maent yn cyflenwi microlysiau gwyrdd a chnydau salad yn bennaf i'r sector lletygarwch.
- Mae Green-Up Farm hefyd wedi gweithio tuag at y Safon Tyfwyr Bach sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Cyswllt Ffermio / Lantra.

Fresh & Tasty Microgreens

- Mae Fresh & Tasty Microgreens wedi ehangu eu busnes yn Abergele ac wedi dechrau cyflenwi microlysiau gwyrdd, cnydau salad a blodau bwytdwy i 6 sir ledled Gogledd Cymru.
- Maent hefyd yn awr yn cyflenwi i gyfanwerthwr o Gymru - M.Hughes ym Mochdre, Conwy.
- Oherwydd amgylchiadau personol, mae'r busnes wedi symud i Sir Ddinbych. Mae ganddynt ddiddordeb mewn cyflenwi cynnyrch ffres i'r sector cyhoeddus ac maent wedi cael eu cyflwyno i Gydlynnydd Partneriaeth Bwyd Sir Ddinbych, Myrddin Davies, a Dafydd Aled Williams i archwilio'r posibilrwydd o gyflenwi cynnyrch ffres i ysgolion yng Nghonwy.

Menter Môn - Prosiect Larder Cymru

Llwyddodd prosiect Larder Cymru gan Menter Môn i gefnogi 8 awdurdod lleol yng Nghymru, gan ragori ar ei darged gwreiddiol, i ddatblygu bwydlenni ysgol newydd sy'n cyd-fynd â'r

tymhorau ac sy'n cynnwys mwy o gynnyrch o Gymru. Roedd y prosiect yn darparu cymorth personol wedi'i deilwra i bob awdurdod lleol, gan eu helpu i fynd i'r afael â heriau unigryw a chyd-fynd ag amcanion lleol. Roedd y cyflawniadau allweddol yn cynnwys ailgynllunio bwydlenni a oedd yn cynyddu'r defnydd o gynhwysion lleol, cryfhau cadwyni cyflenwi lleol, a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim mewn rhai ardaloedd. Roedd y prosiect hefyd wedi cynhyrchu datganiadau i'r wasg, astudiaethau achos ac adroddiad arferion gorau, gan ddangos arloesedd bwyd Cymru mewn digwyddiadau cenedlaethol, ar yr un pryd ag ehangu Tîm Bwyd Menter Môn a dyfnhau arbenigedd yn y sector. Cyhoeddwyd Adroddiad Arferion Gorau Larder Cymru 'Bwyd o Gymru i Ysgolion' ym mis Gorffennaf - [Larder-Cymru-A4-S.pdf](#)

Roedd y gwersi a ddysgwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth pwrpasol, gwerth rhwydweithio drwy gyfarfodydd bwrdd crwn caffael, a'r heriau a achosir gan brisiau, ymgysylltu ag is-gontractwyr, a blaenoriaethau lleol amrywiol. Mae dulliau arloesol y prosiect fel dylunio bwydlenni'n gydweithredol ac ymgysylltu uniongyrchol rhwng cyflenwyr a thimau arlwy, wedi helpu i sbarduno newid, er bod dyblygadwyedd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd Larder Cymru yn gweithio gyda hyd at dri awdurdod lleol i dreialu cysyniad bwyd stryd / bar salad mewn ysgolion, a defnyddio cynnyrch tymhorol wedi'i dyfu'n lleol, yn seiliedig ar dulliau arferion gorau ym Malmo. Byddant hefyd yn parhau i hyrwyddo cynnyrch o Gymru mewn digwyddiadau cenedlaethol fel LACA a Sioe Frenhinol Cymru, gan wreiddio bwyd lleol ymhellach ym mhroses gaffael y sector cyhoeddus.

Mae Adroddiad Arferion Gorau Bwyd mewn Ysgolion Larder Cymru ar gael yma:-
[Larder-Cymru-A4-S.pdf](#)

Canlyniadau cadarnhaol:-

Ynys Môn: Mae gan Ynys Môn ofyniad dan gontract i Chartwells sy'n datgan bod yn rhaid i 30% o'r holl wariant ar fwyd a diod fod o fewn radiws o 60 milltir i Langefni - mae hyn yn cael ei fonitro drwy restr o wariant yn y gadwyn gyflenwi ac mae isafswm maint dogn hefyd yn cael ei nodi yn y contract. Gweinir bwydlenni ar gylch bwydlen 3 wythnos ac maent yn cydymffurfio â safon aur Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae MM hefyd wedi cefnogi Ynys Môn i gynnal sesiynau coginio mewn ysgolion. Bydd yr ALI yn cyfrannu at yr adroddiad Arferion Gorau.

Gwynedd: Bydd datganiad i'r wasg yn cael ei lansio i ddathlu'r cynnyrch o Gymru sy'n cael ei ddefnyddio ar fwydlenni Gwynedd ac yn galw am ragor o gynhyrchwyr bwyd i gyfranogi. Bydd astudiaeth achos fideo hefyd yn cael ei datblygu, gan dynnu sylw at y gadwyn gyflenwi tatws leol yng Ngwynedd.

Wrecsam: Ar ôl adolygu ac ailgynllunio bwydlenni bwyd ysgolion yn Wrecsam, mae Wrecsam wedi symud at Harlech o gyflenwr o Loegr. Mae'r bwydlenni yn Wrecsam bellach yn tynnu sylw at gynnyrch o Gymru i helpu i sbarduno'r cynnydd mewn prydau ysgol am ddim.

Sir y Fflint: Mae MM wedi adolygu rhestr lawn o gynnyrch Sir y Fflint, ond mae'r cyfleoedd i gyflwyno cynnyrch Cymreig ychwanegol i'r fwydlen yn gyfyngedig. Bydd sesiwn yn cael ei chyflwyno drwy raglen Bwyd a Diod Busnes Cymru i drafod heriau rhwng cyflenwyr a chogyddion yn ogystal â'r rheoliadau bwyta'n iach newydd mewn ysgolion.

Powys: Ar hyn o bryd, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chogyddion Powys mewn ysgolion a'u cyflenwyr.

Caerdydd: Mae prydau ysgol am ddim i bawb wedi cael eu cyflwyno ym mhob grŵp blwyddyn ers lansio'r prosiect. Mae Larder Cymru wedi ffurfio partneriaeth â Wavehill Evaluation i gynnal arolwg drwy ap ParentPay i ddeall derbyniad rhieni o brydau ysgol. Hyd yma, casglwyd 2,790 o ymatebion ac maent yn cael eu gwerthuso gan Wavehill. Bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Arferion Gorau.

Caerffili: Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y nifer sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim yng Nghaerffili wedi cynyddu ers i MM gyflwyno dyluniad y fwydlen newydd. Mae dyluniad y fwydlen newydd wedi cael ei ddefnyddio i ddangos yr arferion gorau i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cynnyrch o Gymru ar fwydlenni Cymreig.

LACA: Aeth Larder Cymru i LACA yn Birmingham yr haf diwethaf, gan arddangos y cynnyrch a'r cynhyrchwyr gorau o bob cwr o Gymru a thynnu sylw at sut y bydd ysgolion, drwy brynu ganddynt, yn byrhau eu cadwyni cyflenwi, gan annog cynaliadwyedd, lleihau allyriadau carbon a chefnogi'r economi - aethant i'r sioe hon gyda Chastell Howell a Harlech Food Service.

Mentera (Menter-a-Busnes gynt)

Llwyddodd prosiect Mentera i gyflawni cynllun grant wedi'i dargedu a oedd yn cefnogi 52 o fusnesau bwyd a diod bach a chanolig yng Nghymru i ennill achrediad SALSA a Micron2. Roedd hyn wedi galluogi mwy o fynediad at farchnadoedd y sector cyhoeddus, a helpu i gadw 1,119 o swyddi, a chyfrannu at gydnerthedd cymunedol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd pedair astudiaeth achos wedi'u ffilmio yn dangos sut roedd busnesau wedi goresgyn rhwystrau fel addasrwydd cynnyrch a gofynion achredu, gan dynnu sylw hefyd at gydweithio â chyfanwerthwyr a phrynwyr yn y sector cyhoeddus. Mae Mentera hefyd yn darparu amrywiaeth o brentisiaethau a lleoliadau gwaith. Yn ystod y prosiect, cafodd disgybl chweched dosbarth brofiad gwaith yn ystod y prosiect BLFF ac mae bellach wedi symud ymlaen i rôl hyfforddai marchnata amser llawn, gan gael mewnwelediad i'r prosesau achredu a'r gweithgareddau hyrwyddo.

Canlyniadau cadarnhaol:-

- 52 o fusnesau bwyd a diod bach a chanolig yng Nghymru wedi cael cymorth i ennill achrediad SALSA a Micron2.
- Cadwyd 1,119 o swyddi.

- Ymgwymerwyd â diweddariad am y swyddi a gafodd eu creu / cadw yn ystod haf 2025 ac mae 16 o fusnesau a gafodd gymorth achredu wedi rhoi diweddariad - mae'r canlyniadau isod:-
 - Ar ddechrau'r prosiect roedd yr 16 busnes yn cyflogi 555 o staff. Yn eu diweddariad, nodwyd bod 660 o staff yn cael eu cyflogi, sy'n gynnydd o 20%. Roeddent yn cadarnhau, oherwydd y gefnogaeth achredu, bod hyn wedi arwain at ddiogelu swyddi a chreu swyddi, gyda 105 o swyddi ychwanegol.
 - Dywedodd 12 o'r 16 busnes [70%] fod eu holl swyddi wedi cael eu diogelu oherwydd y gefnogaeth achredu a gafwyd gan raglen BLFF Llywodraeth Cymru.
 - Enghreifftiau:
 - **Henllan** - Micron 2 - Becws sydd wedi tyfu ac sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r sector cyhoeddus gan gynnwys ysgolion a'r GIG ochr yn ochr â gwerthu i nifer o siopau. Ar ddechrau'r prosiect, cyfanswm nifer y swyddi oedd 106, ac mae hyn wedi cynyddu i 152 o swyddi.
 - **Sidoli** - Salsa - Mae pob un o'r 15 swydd wedi cael eu cadw ac mae'r achredu yn allweddol er mwyn gallu gwneud busnes gyda Harlech Foodservice yn 2025 - Stefano Sidoli 19/6/25
 - **Woosnam Dairies** - Micron 2 - 13 o swyddi wedi'u diogelu ac 1 swydd newydd wedi'i chreu. Mae 4 arall ar y gweill yn amodol ar gadarnhau contract y GIG.
 - **Capital Cuisine** - Salsa - 3 swydd newydd wedi'u creu ar sail cyflenwi mwy o gontractau i Castell Howell.
 - Allbwn: 3 swydd wedi'u creu, 10 wedi'u diogelu, cyfanswm y gweithwyr cyflogedig 13
 - O edrych ar y 36 busnes arall, sydd â phroffil tebyg i'r grŵp cyntaf, maent yn cyflogi 22.4 aelod o staff ar gyfartaledd, sy'n gyfanswm o 806 o swyddi.
 - Ar sail data o'r grŵp cyntaf, darparodd 70% o'r busnesau dystiolaeth bod pob swydd wedi cael ei diogelu oherwydd pwysigrwydd achredu. Felly, yn yr ail grŵp, byddai 70% o'r 36 busnes yn golygu 25.2 o fusnesau gyda 564 o swyddi yn cael eu diogelu.
 - Mae hyn yn darparu cyfanswm o 1119 o swyddi yn cael eu cadw. Mae'n debygol bod y ffigur hwn yn uwch ar sail y data o'r grŵp cyntaf.
 - Datblygwyd astudiaethau achos yn dangos amrywiaeth o gynnyrch Cymreig o ansawdd da a gynhyrchwyd yng Nghymru, gan ddangos effeithiolrwydd yr achrediadau a gafwyd a ariannwyd gan grant.

Enghreifftiau o astudiaethau achos o Gynllun Grantiau Achredu Bwyd Llywodraeth Cymru:-

- **Country Fresh Eggs**

Wedi ennill contract gyda Chyngor Sir Fynwy, wedi cadw contract Tesco a chwsmer cyfanwerthu newydd a oedd angen Salsa.

Allbwn: Cadwyd 10 o swyddi.

- **AJ Rees & Sons**

Cadarnhawyd, oherwydd grant achredu Llywodraeth Cymru, eu bod wedi cadw 28 aelod o staff ac wedi cadw cyflenwad i Gynghorau Sir Benfro a Cheredigion. Holwyd am gefnogaeth ar gyfer achrediad Tractor Coch.

Allbwn: Cadwyd 28 o swyddi

- **Harlech**

Helpodd Llywodraeth Cymru Harlech i gadw ei le ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyflenwi i'r GIG, a arweiniodd at greu swyddi a diogelu swyddi.

Allbwn: Cadwyd / crëwyd 270 o swyddi

- Astudiaethau achos wedi'u ffilmio:

- Henllan Bakery, Dinbych
- Harlech Foodservice, Criccieth
- Tŷ Tanglwyst Dairy Pen-y-bont ar Ogwr
- Mario's Ice Cream - Cross Hands (Rhan o grŵp Castell Howell)

- **Manteision yr Economi Sylfaenol**

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar dyfu busnesau dan berchnogaeth leol, a oedd yn amlwg o'r adborth am swyddi a gafodd eu diogelu a'u creu drwy gryfhau mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn ei dro yn helpu busnesau i ddatblygu a ffynnu. Hefyd, maent yn cyflawni arferion gorau'r sector cyhoeddus o ran gwreiddio gwaith teg, helpu i greu a chyfoethogi swyddi medrus iawn a darparu llwybrau i bobl ennill sgiliau newydd, sy'n werthoedd sy'n cael eu hyrwyddo'n gryf.

- Drwy achredu'r amrywiaeth o gwmnïau bwyd a diod yng Nghymru, mae wedi gwella mynediad dinasyddion at nwyddau fforddiadwy o ansawdd da ar gyfer yr Economi Sylfaenol, h.y. bwyd o Gymru.
- Drwy helpu i gynyddu'r capasiti i gyflenwi bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, sydd felly'n fwyd lleol gyda llai o filltiroedd bwyd; mae hyn wedi cyfrannu at leihau effeithiau carbon ac wedi cefnogi Cynllun Sero Net Cymru.

PLANED

Llwyddodd prosiect PLANED i gomisiynu dau beiriant gwerthu cymunedol yng Ngorllewin Cymru, gyda'r nod o wella mynediad cymunedau gwledig at gynnyrch ffres, lleol ar yr un pryd â chefnogi cyflenwyr bach a hyrwyddo cynaliadwyedd. Er gwaethaf yr oedi o ran darparu'r ail beiriant oherwydd problemau gyda'r safle a'r gadwyn gyflenwi, mae'r ddau osodiad wedi ymgysylltu â gwirfoddolwyr lleol, wedi cefnogi cynhyrchwyr gyda chynghor ar becynnu cynaliadwy, ac wedi rhoi mynediad 24/7 i gymunedau at fwyd. Roedd y peiriant cyntaf yn dangos ymgysylltiad cryf, gyda 12 o gyflenwyr yn cymryd rhan a 25 o ymatebion i'r

arolwg yn dangos pellter teithio cyfartalog o 17 milltir i gwsmeriaid. Mae'r ail beiriant, a osodwyd mewn partneriaeth â Foothold Cymru, yn dal i gasglu data ond mae eisoes wedi dechrau cefnogi cynhyrchwyr a gwirfoddolwyr lleol.

Dangosodd y prosiect gydweithio cryf â ffermydd ac elusennau lleol, ac roedd ei ddull hyblyg, dan arweiniad y gymuned, yn sicrhau bod pob peiriant gwerthu yn adlewyrchu anghenion lleol. Roedd PLANED o'r farn bod cyfarfodydd Cymuned Ymarfer Bwyd BLFF yn werthfawr ar gyfer rhannu gwybodaeth a meithrin partneriaethau.

Wrth edrych i'r dyfodol, nod PLANED yw gwella cynaliadwyedd drwy archwilio peiriannau pŵer solar a pheccynnau y gellir eu hailddefnyddio. Mae galw mawr yn awgrymu potensial ar gyfer dyblygu mewn cymunedau eraill, gyda hyfforddiant parhaus a chymorth marchnata'n cael ei ddarparu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae'r prosiect yn tynnu sylw at sut gall atebion arloesol sydd wedi'u teilwra'n lleol wella mynediad at fwyd, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, a chryfhau cydnherthedd cymunedol.

Canlyniadau cadarnhaol:-

- Mae'r cymunedau lle mae'r peiriannau gwerthu hyn wedi'u gosod wedi elwa o gael gwell mynediad at gynnyrch ffres ar unrhyw adeg. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi cyflenwyr lleol a busnesau bach, gan gynhyrchu incwm i'r cyflenwyr hynny.
- Manteision i gwsmeriaid: -
 - Gallu cael gafael ar fwyd lleol ffres yn eu cymuned eu hunain
 - Gwybod o ble mae eu bwyd wedi dod
 - Llai o filltiroedd bwyd a/neu deithio
 - Llai o ddeunydd pecynnu a phlastig untro

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Canolbwyntiodd prosiect Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ar ddatblygu a threialu canllawiau cynllunio newydd ar gyfer anheddau amaethyddol a hawliau datblygu a ganiateir ym Mhowys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gyda'r nod o gefnogi mentrau ffermio agroecolegol ar raddfa fach. Gan weithio gydag ymgynghorwyr arbenigol a phartneriaeth eang, cynhyrchodd y prosiect ganllawiau cynllunio ymarferol a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac a brofwyd drwy gais cynllunio yn y byd go iawn yn Fferm Wern. Mae'r canllawiau hyn eisoes wedi dylanwadu ar drafodaethau polisi cenedlaethol ac yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu'n ehangach ledled Cymru. Roedd y prosiect hefyd wedi darparu '[Llawlyfr Sut i Wneud](#)' ar gyfer ffermwyr garddwriaethol, wedi cynnal sesiynau hyfforddi a lledaenu gwybodaeth, a hwyluso rhannu gwybodaeth drwy arolygon a grwpiau ffocws.

Roedd y llwyddiannau allweddol yn cynnwys meithrin gallu ac arbenigedd yn y bartneriaeth, cefnogi mentrau gwledig newydd, a sicrhau manteision amgylcheddol fel plannu coed ac arferion ffermio adfywiol. Roedd y prosiect yn wynebu heriau o ran llywodraethu, cyfyngiadau ar adnoddau, a chymhlethdod y broses gynllunio, ond roedd yn cynyddu dealltwriaeth yn sylweddol mewn perthynas â rhwystrau cynllunio ar gyfer ffermydd garddwriaethol ac yn meithrin cydweithio cryfach rhwng rhanddeiliaid.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r bartneriaeth yn bwriadu ehangu'r canllawiau, gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a darparwyr tai, a pharhau i hyfforddi a chefnogi mentrau garddwriaethol newydd ledled Cymru.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Canllawiau Cynllunio:

Mae'r prosiect wedi llwyddo i ddatblygu canllawiau cynllunio drwy weithio gydag ymgynghorwyr arbenigol, a gyda mewnbwn gan Grŵp Llywio Ffermydd y Dyfodol, canllawiau cynllunio newydd Cyngor Sir Powys, sydd ar gael fel adnodd ar-lein. Mae'r canllawiau cynllunio yn gam enfawr ymlaen a chawsant eu profi wrth ystyried rhinweddau'r cais cynllunio ar safle tir Swyddfa'r Post yn Sarn, i'r dwyrain o'r Drenwydd, Powys - sef Fferm Wern erbyn hyn.

Profi:

Cyflwynwyd cais cynllunio llawn i Gyngor Sir Powys ar 28 Mawrth 2024 ar gyfer safle 15ha "Swyddfa'r Post" yn Sarn, i'r dwyrain o'r Drenwydd, i gefnogi tri busnes garddwriaethol bach. O dan y ffrwd waith hon, comisiynwyd ymgynghorwyr i gynnal yr arolygon angenrheidiol i gefnogi'r cais. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiad draenio (SuDS), Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, Arolwg Moch Daear, Arolygon Ecolegol ac Asesiad Coed i nodi parthau gwarchod coed a gwreiddiau. Mae hyn wedi arwain at restr ganllaw o'r holl arolygon i'w hystyried ar gyfer ceisiadau cynllunio ar y safle, a fydd yn helpu i roi gwybod i eraill gael yr arolygon gofynnol yn eu lle yn gynnar yn y broses cais cynllunio.

Rhannu'r hyn a Ddysgwyd:

Mae cyfres o ddogfennau wedi cael eu drafftio, fel "meini prawf ar gyfer tir ar gyfer ffermydd bach" a "nodiadau i'w hystyried wrth ddatblygu prydles i ar gyfer ffermwyr," sy'n creu adnoddau i gyfrannu at ledaenu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect. Bydd y dogfennau deinamig hyn yn parhau i gael eu diwygio. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â DTAWales a Cyswllt Ffermio Lantra i sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael i dyfwyr.

Cyhoeddwyd arolwg ar-lein ym mis Tachwedd 2023, "Canllawiau cynllunio ar gyfer ffermwyr ar raddfa fach: eich cyfle i ddweud eich dweud", gan wahodd pobl sydd ag amrywiaeth o brofiadau ym maes tyfu agroecolegol a delio â'r system gynllunio i adolygu'r canllawiau drafft a mynychu grŵp ffocws ar-lein i rannu safbwyntiau am y canllawiau. Cafwyd ymateb gwych ar gyfer cymryd rhan, gyda 35 o ymatebion o bob cwr o Gymru ac un o Loegr o fewn llai nag wythnos.

Cyflwynodd y bartneriaeth sesiwn ledaenu a hyfforddi ym mis Ionawr 2025 i dros 60 o Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Lleol o bob cwr o Gymru ar y canllawiau cynllunio newydd a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Powys.

Ar ben hynny, rydym wedi datblygu "Llawlyfr Sut i Wneud" i gefnogi mentrau newydd i ddehongli'r canllawiau a pharatoi cais cynllunio. Dylai hyn alluogi proses fwy llyfn wrth i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau sy'n bodloni gofynion, a bydd ffermwyr garddwriaethol yn gallu dehongli'r canllawiau i'w hamgylchiadau penodol.

Drwy ein cyfarfodydd partneriaeth wythnosol, roedd y tîm yn gallu cynyddu eu gwybodaeth am y gwahanol agweddau sy'n gysylltiedig â'r broses ceisiadau cynllunio.

Mae prosiect Ffermydd y Dyfodol wedi bod yn uchelgais hirdymor i lawer. Mae cyllid sbarduno BLFF ar gyfer y gwaith hwn wedi golygu gallu codi £731k yn ychwanegol i gefnogi'r achos prawf pwysig hwn ymhellach a'i gyflwyno ar lawr gwlad yn Fferm Wern ger y Drennewydd.

Well Fed

Canolbwyntiodd Well Fed ar ddatblygu systemau bwyd arloesol i wella mynediad at brydau fforddiadwy lleol yng Ngogledd Cymru. Llwyddodd y prosiect i gyflwyno gweithrediadau ynni solar, peilota dros 50 o fathau o brydau bwyd i'w cadw yn eu cynwysyddion dur gwrthstaen eatTAINABLE, a datblygu loceri prydau bwyd i wasanaethu cymunedau. Nod y datblygiadau arloesol hyn oedd lleihau costau, gwella cynaliadwyedd, a byrhau cadwyni cyflenwi.

Cyflawnodd y prosiect ei dargedau craidd, gan gynnwys creu gwasanaethau a phartneriaethau bwyd newydd, a chyflawnodd 50% o ostyngiad yng nghostau cyfleustodau drwy ynni solar.

Mae Well Fed bellach yn canolbwyntio ar fasnacheiddio ei dri gwasanaeth craidd - peiriannau gwerthu, loceri ac ynni solar - gyda chynlluniau i ehangu ar draws Gogledd Cymru. Tynnodd y prosiect sylw at gyfyngiadau cyllid tymor byr a'r angen am fuddsoddiad strategol mewn busnesau cymdeithasol. Mae'r tîm wrthi'n mynd ar drywydd buddsoddiad a phartneriaethau i ehangu ei gyrhaeddiad a'i effaith, gan sefydlu ei hun fel darparwr bwyd unigryw di- UPF yn Ewrop.

Canlyniadau cadarnhaol:-

- Datblygu prydau gan ddefnyddio'r cynwysyddion gwrthstaen eatTAINABLE.
- Dyluniodd Well-Fed fwydlen lawn (poeth ac oer) yn barod i'w chadw (bwyd diogel) mewn cynwysyddion gwrthstaen yn hytrach na'r plastig blaenorol. Roedd hyn yn golygu profion newydd ar gyfer gwres ac oes silff a phrofion cwsmeriaid. Maen nhw wedi cynllunio/treialu dros 50 o fathau o brydau bwyd o ganlyniad.
- Mae Well Fed wedi sefydlu partneriaid newydd yng Nghymru ac yn Rhyngwladol.

PROSIECTAU TAI/ADEILADU

Cwmpas

Nod y prosiect hwn, dan arweiniad Cwmpas, oedd cryfhau cydweithio ledled Cymru i gyflymu datblygiad tai Sero Net. Llwyddodd i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, arbenigwyr yn y gadwyn gyflenwi, a sefydliadau cymunedol drwy gyfarfodydd bwrdd crwn a gweithdai. Helpodd y sesiynau hyn i nodi rhwystrau, rhannu arferion gorau, a llunio cynllun gweithredu "Gallu Gwneud" sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o'r canlyniadau allweddol oedd lansio llyfr patrymau sero net TAYC (Tai ar y Cyd), a gymeradwywyd gan 25

o landlordiaid cymdeithasol, gyda dros 400 o gartrefi'n cael eu datblygu. Roedd y prosiect hefyd yn meithrin cymunedau ymarfer i gefnogi twf y gadwyn gyflenwi a chaffael cynaliadwy.

Er gwaethaf heriau gweinyddol ac oedi o ran cyllido gyda'r broses hawlio, dangosodd y prosiect werth "hwyluso gweithredol" o ran ysgogi rhanddeiliaid a sbarduno camau gweithredu mesuradwy. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd adnoddau cymedrol i bontio'r "bwlch gweithredu" a'r angen am barhad cyllid.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r prosiect bellach wedi esblygu i fod yn [TAYC](#), gyda goruchwyliaeth barhaus gan grŵp llywio a chynlluniau i dyfu ymhellach. Mae ei ffocws ar yr economi sylfaenol, datblygu cadwyn gyflenwi leol alluog o weithgynhyrchwyr a chontractwyr, yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda chyfleoedd gwerthuso a chyllido yn y dyfodol yn cael eu harchwilio i gynnal momentwm.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cychwynnol gyda phartneriaid allweddol yn y prosiect Datblygu Sero Net (DNZ), gan gynnwys:

- Cyfarfod bwrdd crwn 'cylch mewnol' DNZ gyda Wood Knowledge Wales, CAST (ymgynghorydd ar y gadwyn gyflenwi), Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi, Stride Treglown (ymgynghorydd ar y Llyfr Patrymau) i gyflwyno'r prosiect, a chytunwyd ar y Camau gweithredu.
- Dwy sesiwn gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd, SPAD ac Ynni Cymunedol Cymru i drafod potensial cysylltiadau UNNOS / YNNI CYMRU â phrosiect DNZ. Camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Cyfarfod bwrdd crwn gyda rhai nad ydynt yn aelodau o DNZ, a gynullwyd ar ôl i'w prif gontractwr chwalu.

Mae'r aelodau'n cynnwys Hafod, Linc Cymru, Pobl, Cyngor Sir Powys, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Cartrefi Dinas Casnewydd a Melin Homes. Y pwrpas oedd eu briffio ar y prosiect ac archwilio cyfleoedd i gydweithio. Camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

Mae Cwmpas wedi cynnal 3 gweithdy, yng Ngorllewin, Dwyrain a Gogledd Cymru a gynhaliwyd gan Gymdeithasau Tai United Welsh, Tai Tarian a Clwyd Alyn.

2 bwrpas y gweithdai oedd:

- Rhoi gwybodaeth i aelodau a phartneriaid eraill am brosiect Llyfr Patrymau DNZ dan arweiniad Rob Wheaton o Stride Treglown.
- Rhoi cyfle i ryngweithio a llunio'r prosiect.
- Nodi unrhyw arferion presennol a blaenorol y gallem ddysgu oddi wrthynt.
- Tynnu sylw at risgiau a chyfleoedd penodol ar gyfer y prosiect.

Sgiliau Adeiladu Cyfle

Rhagorodd prosiect Profiad Gwaith Sero Net Cyfle ar ei dargedau drwy ddarparu lleoliadau hyfforddi carbon isel ymarferol i 120 o ddysgwyr trydanol a phlymio, gyda chefnogaeth 60 o gyflogwyr. Cwblhaodd yr holl gyfranogwyr raglen gynhwysfawr gan gynnwys lleoliadau ar y safle, mentora a gweithdai cyflogadwyedd, gydag 89% yn symud ymlaen i brentisiaethau neu gyflogaeth. Roedd y prosiect nid yn unig yn cynyddu capasiti'r gweithlu ac yn gwella'r gwaith o gyflawni prosiectau i gyflogwyr ond hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o sero net a llythrennedd carbon ymysg pobl ifanc.

Roedd dull Cyfle yn meithrin trosglwyddo gwybodaeth, uwchsgilio a diwylliant tîm cryfach, ar yr un pryd â chreu swyddi newydd a chreu llif o weithwyr medrus ar gyfer y dyfodol. Er gwaethaf rhywfaint o oedi gweinyddol gyda'u hawliadau, mae llwyddiant y prosiect wedi cryfhau partneriaethau cyflogwyr ac wedi dangos gwerth modelau prentisiaeth ar y cyd o ran cefnogi cadernid economaidd a datblygu cymunedol.

Wrth edrych i'r dyfodol, nod Cyfle yw ehangu ei effaith drwy hyfforddi hyd yn oed mwy o brentisiaid, gan gefnogi ymhellach y diwydiant adeiladu ac uchelgeisiau sero net Cymru.

Canlyniadau cadarnhaol:-

- Daeth 213 o geisiadau i law gan ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen
- Mae 120 o bobl wedi dechrau'r rhaglen ac wedi cwblhau eu lleoliad a'u hyfforddiant ar y safle
- Mae 120 o ymgeiswyr wedi cwblhau pob elfen o'r Rhaglen Profiad yn y Gweithle, lleoliad 10 diwrnod ar y safle, Gweithdy Sgiliau Mentora a Chyflogadwyedd a gweithdy Gyrfaoedd ac ysgrifennu CV undydd.
- Mae 89% o gyfranogwyr wedi mynd ar gynllun prentisiaeth neu ryw fath o gyflogaeth.
- Mae 60 o gyflogwyr wedi ymgysylltu â'r rhaglen i ddarparu lleoliadau ar y safle i bobl ifanc.
- Cafodd un ymgeisydd hyd yn oed ei gydnabod yng Ngwobrau mawreddog Youthbuild 2024 yn Llundain, lle enillodd wobr yn y categori 14-18 oed am ei gyflawniadau eithriadol.

NetRet Group Ltd.

Llwyddodd NetRet Group Ltd i ragori ar ei darged drwy gefnogi 24 o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru i baratoi ar gyfer ardystiad PAS 2030:2023, gan eu rhoi mewn sefyllfa i arwain mewn gwasanaethau ôl-osod a datgarboneiddio. Drwy gynefino digidol, cynlluniau hyfforddi wedi'u teilwra, a chymorth cynhwysfawr cyn archwilio, sicrhodd NetRet fod y contractwyr a oedd yn cymryd rhan yn barod ar gyfer archwiliad ac yn cyd-fynd â safonau UKAS. Roedd y prosiect hefyd yn hwyluso ymgysylltu â chyflenwyr drwy sesiynau briffio ar-lein ac allgymorth uniongyrchol, gan helpu busnesau bach a chanolig i ddeall gwerth ardystio, ac mae holiaduron a chyfweliadau a gynhaliwyd gan NetRet yn dangos bod y busnesau bach a chanolig sy'n cymryd rhan yn rhagweld twf yn y gweithlu. Roedd NetRet ei hun yn gallu comisiynu dwy rôl arolygwyr hunangyflogedig i gefnogi mwy o gapasiti

archwilio. Wrth i fwy o gwmnïau gael eu hardystio ac wrth i fwy o safleoedd gael eu harchwilio, mae NetRet yn disgwyl comisiynu rhagor o rolau arolygwyr.

Cynhaliwyd y prosiect yn brydlon ac o fewn y gyllideb, gyda chydweithio cryf ar draws cymdeithasau tai a darparwyr fframwaith. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn cynnwys pwysigrwydd ymgysylltu'n gynnar â dylanwadwyr allweddol a rheoli disgwyliadau ynghylch data cyflenwyr.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd NetRet yn hyrwyddo straeon am lwyddiant ac yn ehangu ei gefnogaeth drwy Raglen Aelodaeth Adnewyddadwy newydd sy'n cael ei hariannu gan Addysg Bellach, gan helpu contractwyr yng Nghymru i ennill ardystiad MCS neu Flexi Orb a chryfhau'r gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy ymhellach yn unol â nodau Sero Net Cymru.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Mae NetRet wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â 24 o fusnesau bach a chanolig:

- Cynefino digidol: Cynorthwyo'r holl gontractwyr sy'n cymryd rhan i ddatblygu eu Systemau Rheoli Ansawdd a'u polisïau craidd, gan ddarparu adborth strwythuredig a thempledi sy'n cyd-fynd â PAS 2030:2023 a safonau UKAS.
- Adolygiadau cyn-archwiliad: Cynnal archwiliadau cynhwysfawr ymlaen llaw ar y safle, gan nodi a mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio i sicrhau parodrwydd ar gyfer archwiliadau ardystio PAS 2030 ffurfiol.
- Parodrwydd Archwiliad: Paratoi contractwyr yn llwyddiannus ar gyfer eu harchwiliadau PAS 2030 sydd wedi'u hachredu gan UKAS, gan sicrhau bod dogfennau a gwaith safle yn bodloni'r safonau gofynnol.
- Cynlluniau Hyfforddi: Darparu cynlluniau hyfforddi wedi'u teilwra, gan gynnwys mynediad at opsiynau a ariennir gan PLA, gan fynd i'r afael â diffygion penodol a nodwyd yn ystod y cam cyn-archwilio.

Mae NetRet wedi cwblhau'r cam a ariennir yn llwyddiannus drwy baratoi busnesau bach a chanolig ar gyfer cydymffurfio â PAS 2030:2023. Mae'r cwmnïau sy'n cymryd rhan wedi cael eu paratoi ar gyfer symud i'r cam archwilio PAS ffurfiol sy'n cael ei achredu gan UKAS.

Roedd rhag-holiaduron a chyfweliadau yn darparu tystiolaeth bod busnesau bach a chanolig sy'n cymryd rhan yn rhagweld tyfu eu gweithlu ar ôl sicrhau gwaith gydag ardystiad PAS 2030.

SimplyDo - Cam 1: Tai Cymdeithasol

Cam 1 SimplyDo: Llwyddodd y prosiect Tai Cymdeithasol i adeiladu ar y Rhaglen ôl-osod er mwyn Optimeiddio drwy ymgysylltu â phum darparwr tai cymdeithasol a darparu saith pecyn gwaith strwythuredig sy'n canolbwyntio ar gaffael ac arloesi. Nododd y prosiect 483 o gyflenwyr yng Nghymru ar draws tair her caffael, gan helpu i leoleiddio cadwyni cyflenwi, cefnogi'r gwaith o greu swyddi, a hyrwyddo datgarboneiddio. Roedd hefyd yn cyflwyno offer arloesol fel diagnosteg sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial, geodelweddu gan ddefnyddio PowerBI, a swyddogaeth newydd 'Chwilio Lleol' i ddatgelu cyflenwyr anodd eu cyrraedd. Roedd yr ymdrechion hyn yn cefnogi nodau'r Economi Sylfaenol drwy wella

mynediad at fusnesau Cymru, cyflymu taliadau, a galluogi atebion sy'n canolbwyntio ar denantiaid fel lloriau gwell a gosodiadau ynni adnewyddadwy.

Llwyddodd y prosiect i gadw 8 swydd yn SimplyDo a gosod y sylfeini ar gyfer ehangu i sectorau sylfaenol eraill yn y dyfodol, gan gynnwys trafnidiaeth. Roedd y gwersi a ddysgwyd yn cynnwys pwysigrwydd cysoni disgwyliadau partneriaid, rheoli cyfyngiadau data, a chaniatáu mwy o amser i ddechrau prosiectau. Er gwaethaf rhywfaint o amrywiaeth o ran ymgysylltu â phartneriaid, dangosodd y prosiect gydweithio cryf, mapio cyflenwyr yn effeithiol, a'r potensial i ehangu ei ddull arloesol ledled Cymru.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae Cam 2 y prosiect eisoes ar y gweill, gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Bydd ail werthusiad yn cael ei gynnal i amlinellu canlyniadau a manteision Cam 2 ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Recriwtiwyd 5 sefydliad i brosiect Arloesi mewn Tai Cymdeithasol Cymru (WISH):

- Caredig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- ClwydAlyn/Onnen
- RHA
- Trivallis

Ar draws y prosiect, cyflawnwyd y canlyniadau canlynol:

- Nodi 483 o gyflenwyr yng Nghymru ar draws 3 her caffael ar gyfer cyfleoedd contract posibl yn y dyfodol a fydd yn arwain at sicrwydd swyddi a chreu swyddi.
- Canfod 36 o sefydliadau yng Nghymru fel rhan o Her ClwydAlyn y gellid uwchsgilio eu staff o ran achrediadau PAS a MCS.
- Tynnu sylw at 156 o fusnesau yng Nghymru a allai gyflawni swyddogaeth cyflenwr presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd â'i bencadlys yn y DU.
- Darparu mynediad at gronfa well o 195 o osodwyr ynni adnewyddadwy yng Nghymru i gefnogi rhagor o Nwyddau a Gwasanaethau'r Economi Sylfaenol.
- Darparu 132 o sefydliadau Cymreig i Gymdeithas Tai Rhondda a allai gyflenwi a gosod carpedi a lloriau gan sicrhau eu bod yn gallu bodloni a gwella gofynion cynyddol tenantiaid.
- Ysgogi taliadau cyflymach ar gyfer cyflenwyr Caredig gan sicrhau bod dinasyddion yn cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau o ansawdd da yn yr Economi Sylfaenol.
- Darparu atebion arloesol newydd sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer Trivallis er mwyn gwella hyfywedd aelwyddydd.
- Creu effaith amgylcheddol gadarnhaol drwy'r 351 o gyflenwyr a nodwyd ar draws heriau ClwydAlyn a CBSC i ddarparu technolegau ôl-osod sy'n arbed carbon.
- Darparu arloesedd cymdeithasol drwy gyflenwyr 100% o Gymru ar draws 3 her sy'n cael eu harwain gan gaffael sy'n gallu darparu technolegau datgarboneiddio yn unol â Chynllun Sero Net Cymru.

WoodKnowledge Wales

Llwyddodd prosiect Rhwydweithiau Pren Carbon Isel WoodKnowledge Wales (WKW) i ddod â thros 95 o sefydliadau at ei gilydd drwy 28 o gyfarfodydd Cymuned Ymarfer (CoP) ar-lein ac wyneb yn wyneb, a 36 o gyfarfodydd rheoli'r Gymuned Ymarfer, gan ragori ar ddisgwyliadau a meithrin cydweithio ar draws y sectorau pren a thai. Creodd y prosiect ddau CoP newydd (Coedwigaeth a Defnydd Tir, a Chontractwyr), ac roedd WKW yn gallu cyflogi rheolwr CoP pwrpasol yn 2024 sy'n dal i gael ei gyflogi heddiw. Roedd hyn yn galluogi WKW i gryfhau ei gapasiti hwyluso ac ehangu ei rwydwaith. Roedd y Cymunedau Ymarfer hyn yn gweithredu fel deoryddion ar gyfer syniadau caffael cyhoeddus, yn cefnogi Strategaeth Ddiwydiannol Pren Llywodraeth Cymru, ac yn cyfrannu at brosiectau fel Tai ar y Cyd. Er ei bod yn anodd mesur effeithiau sero net uniongyrchol, mae effaith ddilynol gweithgarwch y CoP yn sicr wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu adeiladau carbon isel a chadwyni cyflenwi pren cynaliadwy.

Cynhaliwyd y prosiect yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb, gyda chydweithio cryf ar draws sectorau. Roedd y gwersi allweddol yn cynnwys pwysigrwydd ymddiriedaeth, hyblygrwydd ac ymgysylltu wedi'i deilwra, yn enwedig ar gyfer busnesau bach sydd â chapasiti cyfyngedig. Addasodd WKW drwy gynyddu allgymorth a defnyddio ymweliadau safle i gynnal cyfranogiad. Rhoddwyd sylw i heriau fel cystadleuaeth yn y sector a llwybrau hyfforddi cyfyngedig drwy fewnbwn strategol i ddatblygu sgiliau a chynllunio addysg, gan gynnwys ychwanegu sesiynau pwrpasol ar hyfforddi a recriwtio yn WoodBUILD 2025.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae WKW yn bwriadu ehangu ei fodel CoP i gynnwys mathau newydd o aelodau ac adeiladu ar ei rwydwaith addysg coedwigaeth, gan barhau â'i esblygiad fel galluogwr allweddol ar gyfer twf economaidd sylfaenol cynaliadwy yng Nghymru.

Canlyniadau cadarnhaol:-

Roedd WKW wedi gallu cynnal:

- 12 o Gyfarfodydd Cymuned Ymarfer Ar-lein gyda 36 o sefydliadau'n cymryd rhan (datblygwyr, penseiri a dylunwyr tai cymdeithasol, gwneuthurwyr fframiau coed, seiri coed)
 - 16 o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda 95 o sefydliadau sy'n cymryd rhan (datblygwyr, penseiri a dylunwyr tai cymdeithasol, gweithgynhyrchwyr fframiau coed, melinau llifio ar raddfa fach, contractwyr, coedwigaeth a defnydd tir)
 - 36 o gyfarfodydd rheoli CoP (Cymuned Ymarfer o Gymunedau Ymarfer, cyfarfodydd rheoli)
 - Datblygu 2 CoP newydd (Coedwigaeth a Defnydd Tir, Contractwyr) a,
 - Cyflwyno 1 CoP newydd (contractwyr).
- Roedd y Cyllid Addysg Bellach yn caniatáu i WKW gyflogi rheolwr Cymuned Ymarfer penodol ym mis Chwefror 2024.
 - Mae'r Cymunedau Ymarfer wedi bod yn fyrddau seinio ar gyfer prosiectau'r Llywodraeth, canolfannau meithrin syniadau prosiectau a mannau i lunio consortia

ar gyfer tendrau cyhoeddus. Maent wedi helpu i ddatblygu a chyhoeddi opsiynau ar gyfer caffael cyhoeddus ynghylch datgarboneiddio sero net a chyflenwi pren gan Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru. Maent wedi gweithio gyda'r Llywodraeth i lywio a chefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol Pren ac wedi cydweithio â thîm prosiect Tai ar y Cyd o'r dechrau hyd at lansio'r prosiect.

PROSIECT ARLOESI

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae'r rhaglen FEIN gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd wedi cael effaith fawr ar fusnesau bach a chanolig ledled Cymru, yn enwedig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac Ardal Bae Abertawe. Llwyddodd y rhaglen i ymgysylltu â 34 o sefydliadau o sectorau amrywiol (Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu, Tai, Adeiladu, Twristiaeth, Diwydiannau Creadigol a Dylunio, Bwyd ac Adwerthu, a Datblygu Cymunedol), gan ddarparu gweithdai drwy brofiad a meithrin dysgu gan gymheiriaid. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn fodlon iawn, gyda 94% yn argymhell y rhaglen ac 86% yn nodi bod eu dysgu'n troi'n welliannau yn y gweithle. Arweiniodd y fenter at fwy o weithgarwch arloesi, gwell dealltwriaeth o egwyddorion economi gylchol, a mabwysiadu mwy ar arferion gwaith teg, gan gynnwys y Cyflog Byw Gwirioneddol (RLW) (mae 55% o gwmnïau wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae 30% arall yn bwriadu gwneud hynny).

Mae cyfres o fideos sy'n ymwneud â'r prosiectau ar gael yma:-

https://www.youtube.com/playlist?list=PLtCROU4co6y7GpY2_K1nJr6C4G1MgAl8f

Canlyniadau cadarnhaol:-

Roedd 34 o sefydliadau wedi cofrestru ar y rhaglen FEIN; 20 o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a 14 o Ardal Bae Abertawe. Cafwyd cyfanswm o 17 o'r sector preifat, 7 elusen, 5 mudiad cymunedol, 4 menter gymdeithasol a 2 adran sector cyhoeddus. Rhaglen ragarweiniol 2 ddiwrnod o weithdai dysgu drwy brofiad - teimlai 96% o'r cyfranogwyr fod y fformat a'r elfennau trafod â chymheiriaid yn annog dealltwriaeth ddyfnach o gysyniadau'r economi sylfaenol. Roedd 86% yn teimlo bod eu dealltwriaeth ddilynol yn cael ei throsglwyddo'n ôl i'w gweithleoedd - lle'r oedd gweithgareddau'n eu helpu i oresgyn rhwystrau amrywiol a chymryd rhan mewn datrys problemau.

Hanner ffordd drwy'r rhaglen, roedd 80% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y rhaglen FEIN wedi ymestyn sgiliau arloesi ac wedi gwella eu gwybodaeth am egwyddorion economi sylfaenol ac economi gylchol. Cwblhaodd 20 o'r sefydliadau a oedd yn cymryd rhan yn FEIN arolwg gadael mis Mai 2024. Mae lefelau bodlonrwydd yn uchel iawn, gyda 94% yn argymhell y rhaglen hon i eraill. Dywedodd 77% o'r cyfranogwyr fod y rhaglen wedi gwella eu gwybodaeth am yr Economi Gylchol, a 72% ar gyfer gwybodaeth arloesi. Mae'r data a gasglwyd o'r arolwg gadael yn dangos bod 55% o'r ymatebwyr wedi mabwysiadu Cyflog Byw Cymru a bod 30% arall yn bwriadu gwneud hynny.

Effaith gyffredinol y prosiect:

- mwy o fusnesau bach a chanolig ag arloesedd gweithredol yng Nghymru
- cynnydd yn nifer y busnesau bach a chanolig sy'n mabwysiadu'r Cyflog Byw i Gymru ac

arferion gwaith teg

- gostyngiad yn ôl troed carbon busnesau bach a chanolig yng Nghymru
- gwell cysylltiadau cydweithredol strategol rhwng busnesau bach a chanolig a rhanddeiliaid rhanbarthol yn y sector cyhoeddus
- Cytuno ar ddau Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'u llofnodi
- Sefydlu dau rwydwaith yn rhanbarthau Caerdydd ac Abertawe, gan gynnwys mentrau cymdeithasol a Cwmpas
- 17 o gynlluniau Twf Glân/Sero Net ar gyfer Caerdydd a 7 ar gyfer Abertawe
- 17 o gynlluniau Datblygu Gwaith Teg ac Adnoddau Dynol ar gyfer Caerdydd a 7 ar gyfer Abertawe
- 17 o gynlluniau arloesi ar gyfer Caerdydd a 7 ar gyfer Abertawe
- 10 atgyfeiriad at gymorth WRAP Cymru gydag ymchwil a datblygu, tendro, caffael a chynghor technegol
- 60 cynnig wedi'u cwblhau ar gyfer cymorth mentora ar-lein i gyfranogwyr
- 2 ymweliad arferion gorau â sefydliadau arloesol ac ymweliadau cyfnewid gweithle (CMU, SU)
- 10 diwrnod gweithdy wedi'u cwblhau: pump i bob rhanbarth
- 3 Sesiwn cymorth mentora ar gyfer marchnata drwy Cwmpas

Mae anawsterau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol hirsefydlog wedi cyfyngu ar dwf yr economi sylfaenol yng Nghymru ac wedi rhwystro sefydliadau llai o faint rhag gweithredu egwyddorion economi gylchol. Yn unol â dangosydd 11 Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae FEIN wedi llwyddo i gynyddu nifer y BBaChau sy'n weithredol ym maes arloesi drwy atgyfnerthu pedwar amcan rhanbarthol allweddol yng Nghymru:

- tyfu busnesau dan berchnogaeth leol, gan wreiddio gwaith teg
- helpu i greu a chyfoethogi swyddi tra medrus gan ddarparu llwybrau i bobl ennill sgiliau newydd
- gwella mynediad dinasyddion at nwyddau a gwasanaethau fforddiadwy o ansawdd da yn yr economi sylfaenol.
- arloesi cymdeithasol i wella hyfywedd aelwydydd, cydnerthedd darparwyr, effaith amgylcheddol a'r Cynllun Sero Net. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwerth myfyrio strwythuredig, offer meddylfryd dylunio, a dulliau adeiladu cymunedau. Fe wnaeth partneriaethau â sefydliadau fel Cwmpas a WRAP Cymru gyfoethogi darpariaeth y rhaglen a chefnogi cyfranogwyr i ddatblygu atebion ymarferol i heriau'r economi sylfaenol. Er bod y rhaglen wedi cael ei chanmol am ei dull ysbrydoledig, nododd un feirniadaeth ei naws academiaidd. Mae'r gwerthusiad yn awgrymu potensial cryf ar gyfer ehangu, gyda llawer o gyfranogwyr yn ceisio rhagor o gyllid a chymorth i barhau â'u teithiau arloesi. Mae'r model FEIN wedi profi'n effeithiol o ran hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy a chynhwysol sy'n cydfynd â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.